national preventive mechanism

# Monitro lleoedd cadw

Wythfed **Adroddiad Blynyddol**
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig
**1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017**

Cm 9563

# Monitro mannau cadw

# Wythfed Adroddiad Blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Chwefror 2018

Cm 9563

**© Hawlfraint y Goron 2018**
Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 heblaw lle mae'n nodi fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi pennu unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y dalwyr hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/government/publications a www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/national-preventive-mechanism

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ar:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk neu
HM Inspectorate of Prisons, Clive House, 5th Floor, 70 Petty France, London SW1H 9EX

ISBN 978-1-5286-0184-9

CCS0118737136 02/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**
Gan John Wadham, Cadeirydd NPM 4

**1 Y Cyd-destun** 8
Ynghylch y Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Cas, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (OPCAT) 9
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig 10
Y sefyllfa mewn carchariad yn ystod y flwyddyn 13
Datblygiadau polisi, deddfwriaeth a'r cyd-destun gwleidyddol 21

**2 Ffocws ar faterion cadw** 28
Ynysu – arweiniad i gyrff monitro NPM 29
Llwybrau mewn carchariad 29
Trosglwyddiadau o garchariad plant i oedolion 50
Y broses o drosglwyddo plentyn i garchariad oedolyn 52

**3 Yr NPM yn 2016-17** 56
Cryfhau'r NPM 57
Datblygiadau yn benodol i aelodau 58
Cydweithio rhwng aelodau NPM 65
Cyflwyno cynigion ac arsylwadau am ddeddfwriaeth (Erthygl OPCAT 19(c)) 65
Craffu a chydweithrediad rhyngwladol 67
Hunan-asesiad NPM 71

**4 Edrych i'r dyfodol 2017-18** 74

**5 Atodiadau** 76
I. Llythyr gan Gadeirydd NPM i'r Cyfarwyddwr Polisi Rhyngwladol, Cyfiawnder a Hawliau yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2017 77
II. Rhestr Termau 81
III. Gwybodaeth bellach am NPM y Deyrnas Unedig 83



# Cyflwyniad gan John Wadham

## Cadeirydd NPM

Dyma oedd fy mlwyddyn lawn gyntaf fel cadeirydd Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) ac, wedi i mi gysgodi ein haelodau wrth iddynt ymweld ac archwilio mannau cadw ledled y Deyrnas Unedig, mae gen i feddwl mawr iawn o hyd o ymroddiad, profiad a phroffesiynoldeb y staff a'r gwirfoddolwyr. Mae Protocol Opsiynol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn erbyn Artaith (OPCAT) yn darparu fframwaith hollbwysig i ni i gryfhau ein gwaith o fonitro mannau cadw, ac mae'n ein hannog i ganolbwyntio'n fwy gofalus eto ar atal camdriniaeth mewn arferion. Mae gan aelodau NPM y Deyrnas Unedig fethodolegau hynod soffistigedig ac arferion wedi'u gwreiddio'n ddwfn i weithredu addewid OPCAT ond, ar yr un pryd, mae OPCAT yn ein hatgoffa bod y risg o gamdriniaeth yn bresennol bob amser, a phob blwyddyn mae'n rhaid i ni barhau i adnewyddu ein hymdrechion i berfformio ein rôl *ataliol* hanfodol. Mae'n anffodus bod esiamplau o gamdriniaeth yn parhau i ddod i'r wyneb eto eleni, yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Mae'n rhaid i ni gydnabod na allwn wneud y gwaith yma ar ein pennau ein hunain, pa mor llwyddiannus bynnag yr ydym ni; mae angen i ni groesawu'r rolau cyfochrog a wneir gan dwrneiod i bobl yn y carchar, cyrff anllywodraethol (NGOs) ymroddedig a'r cyfryngau am ddatgelu camymddygiad yn y sefydliadau yr ydym yn ymweld â nhw ac yn eu harchwilio.

Yn anffodus mae aelodau NPM eleni'n gorfod adrodd hyn:

- yn debyg i flynyddoedd blaenorol, gwelsom ddirywiad sylweddol yn y deilliannau i garcharorion gwrywaidd yng Nghymru a Lloegr. Yn gyffredinol, parhaodd y lefelau trais i godi mewn carchardai a soniodd llawer iawn mwy o garcharorion nad oeddent yn teimlo'n ddiogel, gyda llawer o garcharorion i'w gweld yn eu gwahanu eu hunain oddi wrth y gweddill er mwyn osgoi trais;
- mae tystiolaeth glir bod plant sy'n parhau i gael eu carcharu'n gynyddol agored i niwed. Daeth Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMI Prisons) i'r casgliad ym mis Chwefror 2017 nad oedd unrhyw sefydliad a arolygwyd ganddi yng Nghymru a Lloegr yn ddiogel i ddal plant;
- roedd yr amodau cadw'n wael yn aml iawn ar draws y mannau cadw, gan gynnwys wardiau iechyd meddwl, carchardai a mannau cadw'r llys a'r heddlu;
- roedd angen gwneud rhagor i ymdrin ag anghenion iechyd meddwl y rheiny sy'n cael eu carcharu, yn y systemau iechyd a chyfiawnder troseddol fel ei gilydd; ac
- roedd nifer sylweddol o farwolaethau yn y sefydliadau cadw yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys marwolaethau pobl ifanc.

I wneud yn well y flwyddyn nesaf, mae angen i ni gryfhau'r NPM, a'i aelodau hefyd. Un o'n sialensiau allweddol o hyd yw ein statws anffurfiol, y diffyg deddfwriaeth a gwarantau o annibynniaeth ac, yn olaf, natur annigonol yr adnoddau sydd ar gael yn ganolog. Rwyf wedi codi'r materion hyn gyda'r llywodraeth ac roedd hi'n siom arbennig i mi ac i Peter Clarke (Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr) bod y ddarpariaeth am garchardai yn y Bil Carchardai a Llysoedd a gafwyd cyn y senedd ddiwethaf heb gael eu hailgyflwyno. Byddai hynny wedi rhoi cyfle i'r llywodraeth ffurfioli'r cysylltiad hanfodol rhwng Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac OPCAT ac esbonio statws hanfodol NPM mewn deddfwriaeth. Yn anffodus, rydym yn un o'r ychydig iawn o NPMs unrhyw le yn y byd sy'n gweithredu heb ddeddfwriaeth i ddarparu sail ddiogel i'n gwaith.

Ar yr ochr bositif, roeddem yn hapus iawn i groesawu Cadeirydd Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Cas, Annynol neu Ddiraddiol Arall (SPT), Syr Malcolm Evans, i'n cyfarfod busnes ym mis Mawrth 2017. Roedd eisiau ein hatgoffa bod y ffordd y mae OPCAT yn gweithio yn y DU yn berthnasol y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig hefyd, a bod SPT yn ei hystyried hi'n hanfodol bod gan unrhyw NPM sail gyfreithiol glir ac arwahanol: nid yw hunanreolaeth *de facto* bob amser yn ddigon.

Roedd hi'n bleser gen i hefyd fynychu'r panel a drefnwyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) ar 10fed pen-blwydd dod ag OPCAT i rym, lle mynegodd y Farwnes Anelay (oedd bryd hynny'n Weinidog Gwladol yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad) bod gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ymrwymiad parhaus i atal artaith.[1] Rydym yn gobeithio y bydd hyn, a brwdfrydedd y llywodraeth am hybu NPM y DU yn rhyngwladol, wedi eu hadlewyrchu mewn cynnydd concrit gartref wrth ymdrin â'r gwendidau yn ein strwythur.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur. Aethom ati i gyhoeddi ein canllaw ar arwahanrwydd sy'n cael ei ddefnyddio'n barod gan aelodau NPM y DU ac NPMs yn rhyngwladol i gryfhau eu harferion ac i wneud argymhellion i awdurdodau cadw ynghylch gwella arferion. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar archwilio 'trawsnewidiad a llwybrau' rhwng mannau cadw, y mae manylion y rhain i'w gweld yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n eang gyda chyrff hawliau dynol rhanbarthol a rhyngwladol (y Pwyllgor Ewropeaidd ar gyfer Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Annynol neu Ddiraddiol (CPT) a'r SPT) a chyrff rhyng-lywodraethol eraill. Yn fwy diweddar rydym wedi ymuno â Mecanweithiau Ataliol Cenedlaethol eraill i gynnig i Gyngor Ewrop, Sefydliad er Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd eu bod yn cefnogi NPMs i sefydlu rhwydwaith wedi'i arwain gan NPM, gan adlewyrchu'r ffaith fod Mecanweithiau Ataliol Cenedlaethol ar draws y rhanbarth wedi magu hyder ac enw da a'u bod yn barod i weld newid yn agwedd y cyrff rhyng-lywodraethol tuag atynt.

---

1. Y Gwir Anrhydeddus Farwnes Anelay o St John's DBE, 'Speech to mark the 10th Anniversary of OPCAT', 29 Mehefin 2016, https://www.gov.uk/government/speeches/speech-to-mark-the-10th-anniversary-of-opcat [cyrchwyd 09/11/17].

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Brifysgol Bryste am eu cefnogaeth. Mae'r Brifysgol yn dwyn dau brosiect yn eu blaenau ar bynciau hollbwysig i'r NPM (y traddodiad yn y DU o ddefnyddio ymwelwyr a monitoriaid gwirfoddol, ac asesu'r nifer o achosion o gamdriniaeth). Hefyd hoffwn fynegi fy niolch i'r Gymdeithas er Atal Artaith, Cyngor Ewrop a'r nifer eraill sy'n cefnogi ein gwaith. Rhaid diolch i'r Grŵp Llywio, sy'n cynnwys aelodau'r NPM, am y gefnogaeth y maent yn ei rhoi i mi yn fy ngwaith, ac am waith eithriadol bwysig staff Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sy'n cydlynu'r NPM ac yn arbennig Louise Finer – hebddi hi byddem yn sefydliad llawer llai effeithiol.

Yn olaf, hoffwn groesawu ein haelod mwyaf newydd, yr Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth, Max Hill CF, sy'n ychwanegiad pwysig i waith cyfan yr NPM.



**John Wadham**
Cadeirydd NPM y DU

# Adran un

# Y Cyd-destun



## Ynghylch y Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Cas, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (OPCAT)

Mae'r Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Cas, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (OPCAT) yn gytundeb hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i gynllunio i gryfhau diogelwch pobl sydd wedi colli eu rhyddid. Mae'r ffaith fod Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig wedi mabwysiadu hwn yn 2002 yn adlewyrchu consensws ymysg y gymuned ryngwladol fod pobl y cymerwyd eu rhyddid oddi arnynt yn arbennig o agored i ddioddef camdriniaeth ac y dylai ymdrechion i ymdrin â chamdriniaeth o'r fath ganolbwyntio ar ataliad. Mae OPCAT yn ymgorffori'r syniad mai'r ffordd orau o atal triniaeth wael mewn sefydliadau cadw yw drwy system o ymweliadau annibynnol, rheolaidd i bob sefydliad cadw. Mae ymweliadau o'r fath yn monitro triniaeth y carcharorion a'r amodau y maent yn byw ynddynt.

Daeth OPCAT i rym ym mis Mehefin 2006. Mae gofyn i wladwriaethau sy'n dilysu OPCAT ddynodi 'mecanwaith ataliol cenedlaethol' (NPM). Mae hwn yn gorff neu'n grŵp o gyrff sy'n archwilio amodau carcharu'n rheolaidd, yn archwilio triniaeth y carcharorion, yn gwneud argymhellion, ac yn rhoi sylwadau am ddeddfwriaeth gyfredol neu ddrafft gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau yn y carchar.

I wneud ei rôl fonitro'n effeithiol, mae'n rhaid i'r NPM:

- fod yn annibynnol i'r llywodraeth a'r sefydliadau y mae'n eu monitro;
- fod â digon o adnoddau i wneud ei rôl, a
- bod â phersonél sydd â'r arbenigedd angenrheidiol sy'n ddigon amrywiol i gynrychioli'r gymuned y mae'n gweithredu ynddi.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r NPM fod â'r pŵer i:

- fynd i mewn i'r holl fannau carcharu (gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu gweithredu gan ddarparwyr preifat);
- wneud cyfweliadau yn breifat gyda charcharorion a phobl berthnasol eraill;
- ddewis y mannau y mae eisiau ymweld â nhw a phwy y mae eisiau eu cyfweld;
- gael gafael ar wybodaeth am y nifer o bobl sydd wedi colli eu rhyddid, nifer y mannau carcharu a'u lleoliad; a
- chael gafael ar wybodaeth am driniaeth ac amodau carcharorion.

Mae'n rhaid i NPM hefyd gysylltu gydag Is-bwyllgor ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Cas, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (SPT) y Cenhedloedd Unedig, sy'n gorff rhyngwladol a sefydlwyd gan OPCAT sydd â swyddogaethau gweithredol (yn ymweld â mannau carcharu mewn gwladwriaethau sy'n barti i OPCAT ac yn gwneud argymhellion am ddiogelu carcharorion rhag triniaeth wael) ac hefyd swyddogaethau cynghori (yn darparu cymorth a hyfforddiant i NPMs ac i wladwriaethau sy'n barti i OPCAT).

Mae'r SPT wedi'i greu o 25 o arbenigwyr annibynnol a di-duedd o bob cwr o'r byd, ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol am ei weithgareddau.[2] Ar hyn o bryd mae 83 o wladwriaethau sy'n barti i OPCAT, a 65 o NPMs dynodedig.[3]

## Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU

Dilyswyd OPCAT gan y DU ym mis Rhagfyr 2003 a dynododd ei NPM ym mis Mawrth 2009. Cyfrifoldeb llywodraeth y DU oedd hi i ddynodi'r NPM a dewisodd ddynodi nifer o gyrff oedd yn bodoli'n barod yn hytrach na chreu NPM un corff newydd. Roedd hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith fod nifer o fathau o sefydliadau cadw yn y DU yn cael eu monitro'n barod gan gyrff annibynnol, fel y rhagwelwyd gan OPCAT, a bod gwahanol systemau gwleidyddol, cyfreithiol a gweinyddol ar waith ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig. Mae 21 o gyrff wedi'u dynodi i'r NPM erbyn hyn, a'r dynodiad mwyaf diweddar oedd yr Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth ar 12 Ionawr 2017.[4]

**Yr Alban**
Yr Arolygiaeth Gofal (CI)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS)
Ymwelwyr Carchardai Annibynnol Yr Alban (ICVS)
Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)

**Gogledd Iwerddon**
Archwiliad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)
Cynllun Ymweld â Charchardai Annibynnol Bwrdd Heddlua Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)
Yr Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoliad (RQIA)

**Cymru a Lloegr**
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
Y Comisiynydd Plant i Loegr (CCE)
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP)
Y Gymdeithas Ymweld â Charchardai Annibynnol (ICVA)
Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
Arolygwyr Lleyg (LO)
Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)

**Y Deyrnas Unedig**
Adolygwr Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)

Mae'r cyrff sy'n creu NPM y Deyrnas Unedig yn monitro gwahanol fathau o sefydliadau cadw ar draws yr awdurdodaethau, yn cynnwys carchardai, dalfeydd yr heddlu, dalfeydd y llys, cyfleusterau dal y tollau, llety diogel i blant, cyfleusterau i fewnfudwyr, dalfeydd milwrol ac iechyd meddwl, fel a ganlyn:

2. Mae'r holl adroddiadau blynyddol, yn cynnwys y mwyaf diweddar, y 10fed adroddiad blynyddol sy'n ymwneud â'r gwaith a wnaed gan yr SPT yn 2016, ar gael ar wefan Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd dros Adnoddau Dynol, http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/TBSearch.aspx?Lang=en&TreatyID=12&DocTypeID=27 [cyrchwyd 13/08/17].
3. Casgliad Cytundebau'r Cenhedloedd Unedig, 'Pennod IV: 9. b Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Cas, Annynol neu Ddiraddiol Eraill', statws fel ydoedd ar 13/08/17, https://treaties.un.org/Pages/ViewDetails.aspx?src=TREATY&mtdsg_no=IV-9-b&chapter=4&clang=_en [cyrchwyd 13/08/17]; Y Gymdeithas yn erbyn Artaith, cronfa ddata OPCAT, ar gael ar http://www.apt.ch/en/opcat-database/ [cyrchwyd 13/08/17].
4. Mae gwybodaeth bellach ar y broses ddynodi a dolen at y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar wefan yr NPM yn https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/about/background/ [cyrchwyd 09/11/17].

<table>
<tr><th rowspan="2">SAFLEOEDD CADW</th><th colspan="4">Yr Awdurdodaeth</th></tr>
<tr><th>Lloegr</th><th>Cymru</th><th>Yr Alban</th><th>Gogledd Iwerddon</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc</td><td>Arolygiaeth Carchardai EM gyda CQC ac Ofsted</td><td>Arolygiaeth Carchardai EM gydag AGIC</td><td rowspan="2">HMIPS gyda CI a SHRC; MWCS</td><td>CJINI ac Arolygiaeth Carchardai EM gyda RQIA</td></tr>
<tr><td colspan="2">IMB</td><td>IMBNI</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dalfa'r Heddlu</td><td colspan="2">HMICFRS ac Arolygiaeth Carchardai EM</td><td>HMICS</td><td>CJINI gyda RQIA</td></tr>
<tr><td colspan="2">ICVA</td><td>ICVS</td><td>NIPBICVS</td></tr>
<tr><td>Dalfa'r llys a hebryngwyr</td><td colspan="2">Arsyllwyr Lleyg ac Arolygiaeth Carchardai EM</td><td>HMIPS</td><td>CJINI</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cadw o dan y Ddeddf Derfysgaeth</td><td colspan="4">IRTL</td></tr>
<tr><td colspan="2">ICVA</td><td>ICVS</td><td>NIPBICVS</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Plant mewn llety diogel</td><td rowspan="2">Ofsted (ar y cyd gydag Arolygiaeth Carchardai EM a CQC mewn perthynas â chanolfannau hyfforddi diogel)</td><td rowspan="2">AGGCC</td><td rowspan="2">CI</td><td>RQIA</td></tr>
<tr><td>CJINI</td></tr>
<tr><td>Plant (pob safle cadw)</td><td>CCE</td><td></td><td>CI</td><td></td></tr>
<tr><td>Cadw o dan y gyfraith iechyd meddwl</td><td>CQC</td><td>AGIC</td><td>MWCS</td><td>RQIA</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Colli rhyddid[5] ac amddiffyniadau eraill mewn iechyd a gofal cymdeithasol</td><td rowspan="2">CQC</td><td>AGIC</td><td rowspan="2">CI a MWCS</td><td rowspan="2">RQIA</td></tr>
<tr><td>AGGCC</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dalfa mewnfudwyr</td><td colspan="3">Arolygiaeth Carchardai EM</td><td>Arolygiaeth Carchardai EM gyda CJINI</td></tr>
<tr><td colspan="4">IMB</td></tr>
<tr><td>Dalfa filwrol</td><td colspan="4">Arolygiaeth Carchardai EM</td></tr>
<tr><td>Cyfleusterau dal y Tollau</td><td colspan="4">HMICFRS, Arolygiaeth Carchardai EM a HMICS</td></tr>
</table>

Mae gofyniad hanfodol OPCAT – sef bod yr holl safleoedd dal yn cael eu monitro'n annibynnol – wedi ei gyflawni gan aelodau unigol yr NPM neu gan aelodau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Mae canfyddiadau manwl yn ymwneud â thriniaeth ac amodau carcharorion wedi eu cyhoeddi yn adroddiad arolwg neu adroddiadau blynyddol pob aelod o'r NPM.

Ei gyfarfodydd busnes dwywaith y flwyddyn yw prif fforwm yr NPM lle gall aelodau rannu canfyddiadau, arferion gorau, profiadau a gwersi a ddysgwyd o fonitro gwahanol fathau o safleoedd cadw ac awdurdodaethau gwahanol. Mae cynllun strategol NPM yn cael ei gytuno a'i fonitro yn y cyfarfodydd yma a gwneir penderfyniadau eraill sy'n gofyn bod yr holl aelodau'n cyfrannu tuag atynt. Eleni, cynhaliwyd cyfarfodydd busnes ym mis Medi 2016 yng Nghaerdydd a mis Mawrth 2017 yn Llundain.

5. Dim ond yng Nghymru a Lloegr y mae diogelwch cyfreithiol colli rhyddid yn berthnasol, yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2015, ond mae sefydliadau yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymweld ac yn archwilio cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol lle gallai pobl fod wedi colli eu rhyddid.

## Cadeirydd NPM

Ar 12 Mai 2016, cymerodd John Wadham rôl Cadeirydd annibynnol cyntaf yr NPM. Cafodd ei benodiad ei gymeradwyo gan aelodau'r NPM yn ystod cyfarfod busnes Ebrill 2016, yn dilyn argymhelliad gan banel dethol, oedd yn cynnwys pedwar aelod o grŵp llywio'r NPM ac un aelod panel annibynnol (Yr Athro Rachel Murray o Brifysgol Bryste). Adolygodd y panel geisiadau a wnaed gan ymgeiswyr drwy broses ddethol agored.

Rôl y Cadeirydd yw cynghori a chefnogi'r NPM i gyflawni ei fandad, gan gynnwys:

- cadeirio cyfarfodydd grŵp llywio'r NPM dair i bedair gwaith y flwyddyn a chyfarfodydd busnes NPM ddwywaith y flwyddyn;
- cefnogi aelodau'r NPM i ddatblygu a gweithredu gwaith yr NPM ac i gyflawni eu cyfrifoldebau i'r NPM; a
- siarad yn gyhoeddus ar ran yr NPM a chynrychioli'r NPM mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allanol.

Mae'r Cadeirydd hefyd yn cefnogi cydlyniad yr NPM wrth wneud ei rôl.

## Cydlyniad yr NPM

Mae cydlyniad yn hanfodol er mwyn gweithredu OPCAT yn llawn ac yn effeithiol yn y DU, o ystyried graddfa a chymhlethdod strwythur cyrff-amrywiol NPM y DU. Mae gan bob aelod o'r NPM wahanol fandad, gwahanol bwerau a chylch gwaith daearyddol gwahanol ac mae pob un yn gosod ei flaenoriaethau ei hun ar gyfer monitro safleoedd cadw, yn ogystal â chyfrannu at gyd-flaenoriaethau'r NPM.

Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn cyflawni'r rôl o gydlynu'r NPM ac mae'n gwneud hyn gyda'r pwrpas yma:

- hybu cydlyniad a chyd-ddealltwriaeth o OPCAT ymysg aelodau'r NPM;
- annog cydweithrediad a rhannu gwybodaeth ac arferion da rhwng aelodau NPM y DU;
- hwyluso gweithgareddau ar y cyd rhwng aelodau ar faterion o bryder cyffredin;
- cysylltu gyda'r SPT, NPMs mewn gwladwriaethau eraill a chyrff hawliau dynol rhyngwladol eraill;
- rhannu profiadau ac arbenigedd rhwng NPM y DU ac NPMs mewn gwladwriaethau eraill;
- cynrychioli'r NPM cyfan i'r llywodraeth a rhandeiliaid eraill yn y DU; a
- pharatoi'r adroddiad blynyddol a chyhoeddiadau eraill.

## Grŵp Llywio'r NPM

Mae swyddogaeth gydlynu, gweithgareddau a llywodraethiad yr NPM yn cael eu goruchwylio gan grŵp llywio o bum aelod o'r NPM. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynrychioli'r aelodau ymhob un o bedair gwlad y DU ac maent hefyd yn cynrychioli gwahanol gylchoedd gwaith y sefydliadau sy'n gwneud yr NPM.

Mae grŵp llywio'r NPM yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau rhwng cyfarfodydd busnes, ac yn datblygu cynllun busnes yr NPM a'r cynigion i aelodau.

Cyfarfu'r grŵp llywio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn yn Ebrill 2016, Mehefin 2016, Rhagfyr 2016 a Chwefror 2017. O fis Mawrth 2017, dyma oedd aelodaeth grŵp llywio'r NPM:

- Peter Clarke, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi;
- Theresa Nixon, RQIA;
- David Strang, HMIPS;
- Kevin Barker, AGGCC; a
- Katie Kempen, ICVA.

**Is-grwpiau'r NPM**
Mae gan yr NPM dri is-grŵp a weithiodd drwy gydol y flwyddyn.

Cyfarfu'r is-grŵp Albanaidd ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r grŵp yn cydlynu gweithgareddau NPM yn Yr Alban, yn rhoi cefnogaeth i aelodau'r NPM, yn codi proffil gwaith yr NPM ac yn gwella cysylltiad gyda Llywodraeth yr Alban. Mae'n cael ei gadeirio gan aelod Albanaidd y Grŵp Llywio, sef Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yr Alban ar hyn o bryd.

Roedd y rhwydwaith iechyd meddwl, sy'n dod â'r gwahanol aelodau at ei gilydd sydd â diddordeb arbenigol mewn meysydd sy'n berthnasol i ddal pobl ym maes iechyd meddwl yn y DU, wedi cyfarfod bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r is-grŵp yma'n rhoi cyfle i sefydliadau sydd â chyfrifoldebau am fonitro a diogelu pobl mewn safleoedd cadw iechyd a gofal cymdeithasol weithio ar y cyd ar faterion sy'n cael effaith penodol ar iechyd meddwl. Yr Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoliad sy'n cadeirio'r grŵp.

Parhaodd yr is-grŵp NPM sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc mewn safleoedd cadw i weithio fel mecanwaith i aelodau NPM gyfnewid gwybodaeth a data, ac ystyried gweithio ar y cyd ar faterion sy'n effeithio ar blant mewn safle cadw. Yn cadeirio'r grŵp yma mae staff Comisiynydd Plant Lloegr a chyfarfu ddwywaith yn ystod y flwyddyn.

## Y sefyllfa yn y safleoedd cadw yn ystod y flwyddyn

**Carchardai**
Roedd y sefyllfa yn y carchardai ar draws y bedair gwlad yn ddarlun cymysg yn ystod y flwyddyn, ond rhannodd aelodau'r NPM eu pryderon ynghylch yr angen am fwy o gefnogaeth i garcharorion bregus ac am well gofal iechyd meddwl, ac am ddefnyddio sylweddau seicoweithredol newydd (NPS). Yr hyn oedd yn achosi pryder arbennig oedd y cynnydd mewn achosion o hunan-niweidio ac ymosodiadau mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr, achosion a gyrhaeddodd niferoedd uwch yn ystod y flwyddyn nag a welwyd erioed o'r blaen. Nifer yr achosion o hunan-niwed oedd 40,414 ar gyfer y flwyddyn, sef cynnydd o 17% ar y flwyddyn flaenorol. O'r achosion hynny, roedd 2,771 angen mynd i ysbyty. Roedd 26,643 adroddiad am ymosodiadau, sef cynnydd o 20% ar y flwyddyn flaenorol. O'r digwyddiadau hynny, roedd 14% yn ddifrifol, sy'n gynnydd o 22% ar y flwyddyn flaenorol.[6] Mae'r nifer o farwolaethau a achoswyd gan y person ei hun mewn carchardai'n parhau i achosi pryder i aelodau'r NPM. Roedd 121 o farwolaethau hunanachosedig ar gyfer y flwyddyn galendr yn gorffen yn 2016, sef cynnydd o 90 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd pump o'r rhai yma a fu farw'n oedolion ifanc 18-20 oed.[7]

---

6. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gorffennaf 2017, *Safety in Custody Statistics Bulletin, England and Wales, Deaths in prison custody to June 2017, Assaults and Self-Harm to March 2017,* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/632625/safety-in-custody-quarterly-bulletin-mar-2017.pdf [cyrchwyd 22/08/2017].
7. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2017, *Deaths in Prison Custody 1978 to 2016,* https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-march-2017 [cyrchwyd 22/08/17]. Ffigur wedi'i ddiweddaru o 121 wedi'i ddarparu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd dirywiad sylweddol mewn deilliannau i ddynion mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Mewn bron i dri chwarter ei adroddiadau ar garchardai dynion, roedd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn feirniadol o ymateb sefydliadau i rai ffactorau sy'n cyfrannu at hunan-niweidio. Soniodd llawer mwy o garcharorion wrth Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi eu bod yn teimlo'n anniogel yn ystod y flwyddyn, gyda llawer o garcharorion i'w gweld yn eu gwahanu eu hunain oddi wrth bawb arall er mwyn osgoi trais. Roedd cyfradd uchel o ddefnyddio grym gan staff mewn llawer o garchardai ac roedd pryderon ynglŷn â bylchau yn y ffordd y llywodraethwyd ei ddefnydd. Roedd yr amodau'n wael mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr gyda nifer o garcharorion yn cael eu cadw mewn cyfleusterau budr a gorlawn. Ystyriwyd bod hyd yr amser yr oedd carcharorion yn aros yn eu celloedd yn annerbyniol gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Roedd prinder staff yn cyfrannu at y canlyniadau gwael mewn carchardai drwy gydol y flwyddyn ac roedd hyn yn broblem gronig mewn rhai. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, nodwyd bod y defnydd o NPS yn eang.[8]

Roedd y canlyniadau yn y carchardai merched a arolygwyd yn Lloegr yn ystod y flwyddyn yn gyffredinol well nag oeddent yn ystâd y dynion, ond roedd merched yn y carchar yn parhau i gyflwyno anghenion cymhleth, ac yn dangos cynnydd mewn problemau iechyd meddwl ac yn fwy agored i niwed. Roedd nifer y merched a soniodd eu bod wedi teimlo'n anniogel mewn carchardai a arolygwyd yn ystod y flwyddyn wedi codi i 52% o 39% yn y flwyddyn flaenorol. Nododd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi bod yr holl garchardai merched a arolygwyd yn ystod y flwyddyn wedi cymryd problemau'r merched oedd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig, masnachu pobl a/neu oedd wedi gweithio yn y diwydiant rhyw, o ddifrif go iawn, ond bod angen gwneud rhagor i roi cefnogaeth ddigonol iddynt.[9]

Ar draws Yr Alban, mae lefelau trais mewn carchardai wedi parhau'n weddol sefydlog mewn blynyddoedd diweddar ond mae pryderon yn parhau am effaith y defnydd cynyddol o NPS. Y ddarpariaeth gofal iechyd mewn carchardai yw'r broblem y mae carcharorion yn dal i'w godi amlaf fel pryder gyda Monitoriaid Carchardai Annibynnol. Mae nifer y carcharorion hŷn yn parhau i gynyddu, gyda'r cynnydd yn hyd y dedfrydau sy'n cael eu gorfodi gan y llysoedd ac erlyniad mwy o achosion o droseddau 'hanesyddol' yn cyfrannu at y cynnydd yma. Wrth baratoi ar gyfer gweithredu strategaeth Llywodraeth yr Alban i ferched mewn carchar, a fydd yn datblygu mwy o ddarpariaeth gadw yn y gymuned, cafodd mwy na 100 o ferched eu trosglwyddo o HMPYOI Cornton Vale i HMPYOI Polmont. Caniataodd hyn i rai o'r blociau llety yn Cornton Vale gael eu cau ac i'r amodau wella'n gyffredinol i ferched yn y carchardai.

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd adolygiad o gynnydd yng Ngharchar Maghberry, sy'n cadw dynion sy'n oedolion, yn tynnu sylw at bryderon sy'n parhau. Roedd y rhain yn cynnwys methiannau wrth fonitro cynllun gweithredu'r carchar ei hun ar gyfer marwolaethau yn y carchar (a roddwyd ar waith i weithredu argymhellion gan Ombwdsmon Carcharorion Gogledd Iwerddon mewn perthynas â chefnogi carcharorion sy'n agored i hunan niweidio neu hunanladdiad) a'r diffyg strategaeth gyffredinol i ymateb i bryderon ynghylch diogelwch a charcharorion sy'n agored i niwed. Parhaodd y carchar i wynebu problemau gyda

**8.** Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/07/HMIP-AR_2016-17_CONTENT_11-07-17-WEB.pdf [cyrchwyd 22/08/17].

**9.** *Ibid.*

chamddefnyddio cyffuriau.[10] Cafwyd cyd-archwiliad o Goleg Diogel Hydebank Wood (sy'n cadw dynion ifanc rhwng 18 a 24 oed) ac Ash House (yr unig sefydliad yng Ngogledd Iwerddon sy'n cadw merched) ym mis Mai 2016 a chanfu hwn bod canlyniadau wedi gwella'n sylweddol ers yr arolwg blaenorol. Yn debyg i Gymru a Lloegr, dywedodd y staff a'r rheiny oedd yn cael eu cadw yn y ddau sefydliad bod NPS ar gael yn hawdd a nododd arolygwyr bod angen gwneud rhagor o waith i ymdrin â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Roedd angen rhagor o waith hefyd yn y ddau sefydliad i wella cefnogaeth i garcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl.[11] Yn Hydebank Wood, yn debyg i Maghaberry, lleisiodd arolygwyr bryderon nad oedd argymhellion yr Ombwdsmon mewn perthynas ag atal hunanladdiad a hunan-niweidio'n cael eu gweithredu'n ddigonol.[12]

Poblogaeth gyfan y carchardai yng Nghymru a Lloegr ar 31 Mawrth 2017 oedd 84,652 (80,674 o ddynion a 3,978 o ferched), sy'n weddol debyg i'r ffigur ar gyfer yr un amser yn y flwyddyn flaenorol.[13] Poblogaeth carchardai yr Alban ar ddiwedd Mawrth 2017 oedd 7,436 oedd yn cynrychioli gostyngiad o oddeutu 2% ers y flwyddyn gyntaf.[14] Gostyngodd y boblogaeth yng Ngogledd Iwerddon hefyd, gyda'r boblogaeth ddyddiol ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn yn gostwng 7.5% i 1,472 (o 1,592 yn y flwyddyn flaenorol).[15]

## Plant mewn sefydliadau cadw

Roedd aelodau'r NPM yn croesawu'r gostyngiad parhaus yn y nifer o blant sydd mwn sefydliadau cadw ar draws y DU.[16] Ond, er bod y boblogaeth gyfan wedi gostwng, mae data o Gymru a Lloegr yn dangos bod y gor-gynrychiolaeth o blant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu: yn y flwyddyn yn gorffen ym mis

**10.** Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Hyfforddiant Addysg, Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd, 2016, *Report on an announced visit to Maghaberry Prison, 5–7 September 2016 to review progress against the nine inspection recommendations made in 2015*, http://www.cjini.org/getattachment/1d77c1e6-8311-413e-ad9d-b9f9aa384506/picture.aspx [cyrchwyd 09/10/2017].

**11.** Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, yr Arolygiaeth Hyfforddiant Addysg, yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd, 2016, *Report on an unannounced inspection of Hydebank Wood Secure College, 9–19 May 2016*, http://www.cjini.org/getattachment/deb7ee5a-50c8-4b01-8586-c0abf5a523a8/picture.aspx, [cyrchwyd 09/10/2017] a *Report on an unannounced inspection of Ash House Women's Prison Hydebank Wood*, 9–19 May 2016, http://www.cjini.org/CJNI/files/ef/efa315e4-3288-47e1-85f6-2de9186916fc.pdf [cyrchwyd 09/10/2017].

**12.** Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, yr Arolygiaeth Hyfforddiant Addysg, yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd, 2016, *Report on an unannounced inspection of Hydebank Wood Secure College, 9–19 May 2016*, http://www.cjini.org/getattachment/deb7ee5a-50c8-4b01-8586-c0abf5a523a8/picture.aspx [cyrchwyd 09/10/2017].

**13.** Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol, Gwasanaeth Carchardai EM, a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, *Population Bulletin: Weekly 31 March 2017*, https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2017 [cyrchwyd 22/08/17]. Nid yw'r ffigurau yma'n cynnwys y rheiny mewn canolfannau symud mewnfudwyr wedi'u gweithredu gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi na llwyth achosion cyrffyw cyfyngu i'r cartref.

**14.** Gwasanaeth Carchardai yr Alban, *SPS Prison Population*, ar gael ar: http://www.sps.gov.uk/Corporate/Information/SPSPopulation.aspx [cyrchwyd 06/10/2017]. Mae'r ffigurau yma'n eithrio'r rheiny a ryddhawyd am gyrffyw cyfyngu i'r cartref.

**15.** Adran Cyfiawnder Gogledd Iwerddon, 2017. Grŵp Gwasanaethau Dadansoddol, *The Northern Ireland Prison Population 2016 and 2016/17 Research and Statistical Bulletin 27/2017*, https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/justice/northern-ireland-prison-population-2016-2016-17.pdf [cyrchwyd 09/10/2017].

**16.** Yng Nghymru a Lloegr, y nifer cyfartalog o blant a gadwyd mewn sefydliadau cadw ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2017 oedd 869, sef gostyngiad o 959 yn y flwyddyn flaenorol ac o 2,915 ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2007 (ar amser eu cyrchu, roedd y ffigurau ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2017 yn rhai dros dro]. Mae data dros dro oedd ar gael ar amser ysgrifennu hwn yn dangos bod y duedd yma wedi ei gwyrdroi yn chwarter cyntaf 2017-18. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru a Lloegr, 2017, *Monthly Youth Custody Report, June 2017*, https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data [cyrchwyd 22/08/17]. Yn yr Alban, nifer y boblogaeth mewn carchardai oedd yn iau nag 18 oed ar 1 Ebrill 2016 oedd 70, a'r boblogaeth ar 31 Mawrth 2017 oedd 52. Gwasanaeth Carchardai yr Alban, *SPS Prison Population*, http://www.sps.gov.uk/Corporate/Information/SPSPopulation.aspx [cyrchwyd 06/10/2017]. Yng Ngogledd Iwerddon, y boblogaeth ddyddiol o blant mewn sefydliad cadw yn ystod y flwyddyn oedd 139, sy'n ostyngiad o 15% ers y flwyddyn flaenorol. Yr Asiantaeth Cyfiawnder Ieuenctid, 2017, Grŵp Gwasanaethau Dadansoddol, *Youth Justice Agency Annual Workload Statistics 2016/17: YJA Statistical Bulletin 28/2017*, https://www.justice-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/justice/yja-workload-stats-2016-17-edited02102017.pdf [cyrchwyd 10/10/2017].

Mawrth 2016, y gyfran o blant o'r cefndiroedd yma a gadwyd mewn sefydliad cadw ieuenctid oedd 41.5%, yn codi'n raddol o 29.7% ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2011.[17]

Yn ogystal, mae tystiolaeth glir i ddangos bod y plant sy'n cael eu carcharu'n gynyddol agored i niwed. Rhwng 2011 a 2016, cododd y nifer o achosion o hunan-niweidio i bob 100 o blant sy'n cael eu cadw yng Nghymru a Lloegr o 4.1 i 8.9.[18] Adroddwyd bod dau blentyn wedi marw mewn cartrefi diogel i blant (SCH) ym misoedd cynnar 2017. Mae'r ddwy farwolaeth o dan ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf a bydd cwest iddynt hefyd.[19] Mae'r NPM yn deall mai dyma farwolaeth gyntaf unrhyw blentyn mewn SCH ers mwy na degawd, ond nid oes data'n cael ei gyhoeddi'n rheolaidd i gadarnhau hyn.

Mae data'n dangos bod y defnydd o 'ymyriadau corfforol cyfyngol' wedi cynyddu o 20.5 i bob 100 o blant ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2011, i 27.8 ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2016, fel y gwnaeth y nifer o ymosodiadau (ar blant, staff neu ymwelwyr), o 9.7 i 18.9 i bob 100 o blant.[20]

Mae'n destun pryder arbennig bod Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi dod i'r casgliad ym mis Chwefror 2017 nad oedd unrhyw sefydliad a arolygodd yng Nghymru a Lloegr yn ddiogel i ddal plant. Roedd amodau ffisegol canolfannau hyfforddi diogel (STC) wedi gostwng a barnwyd bod y diogelwch 'angen ei wella' mewn dwy ganolfan.[21] Roedd y diogelwch mewn trydedd ganolfan, Medway STC, sydd wedi bod yn destun pryderon parhaus (fel y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad blynyddol NPM y llynedd), wedi cael ei arolygu ddwywaith drwy gydol y cyfnod a barnwyd bod y diogelwch yn annigonol ar y ddau achlysur.[22] O'r pedwar sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) a arolygwyd drwy gydol y flwyddyn gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Ofsted a'r CQC, dim ond y ddau sefydliad lleiaf a farnwyd yn rhesymol ddiogel.

**17.** Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017, *Youth Justice Statistics 2015/16: Supplementary Tables, Table 7.9*, https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2015-to-2016 [cyrchwyd 09/10/2017].
**18.** Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017, *Youth Justice Statistics 2015/16*, https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/585897/youth-justice-statistics-2015-2016.pdf [cyrchwyd 22/08/17].
**19.** Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, 2017, *Annual Report and Accounts 2016/17*, tud 7, https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/630201/YJB_Annual_Report_and_Accounts_2016-17_Web.pdf [cyrchwyd 09/11/17].
**20.** Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017, *Youth Justice Statistics 2015/16* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/585897/youth-justice-statistics-2015-2016.pdf [cyrchwyd 22/08/17].
**21.** Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/07/HMIP-AR_2016-17_CONTENT_11-07-17-WEB.pdf [cyrchwyd 22/08/17].
**22.** Gellir gweld yr adroddiadau arolwg cyflawn ar wefan Ofsted, https://reports.ofsted.gov.uk/secure-training-centres/medway [cyrchwyd 22/08/17].

**HMYOI Wetherby ac Uned Keppel**[23]
Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ganfyddiadau arolwg ar y cyd a weithredwyd gydag Ofsted a'r CQC o HMYOI Wetherby ac uned Keppel, sy'n darparu gofal i rai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn Lloegr.

Er bod y defnydd o rym yn is nag ydyw mewn sefydliadau cymaradwy, defnyddiwyd technegau achosi poen a gwnaed chwiliadau noeth tra'r oedd bechgyn yn cael eu rhwystro. Dim ond un o'r 21 argymhelliad a wnaed mewn perthynas â diogelwch yn ystod yr arolwg blaenorol oedd wedi ei gyflawni'n llawn. Yn destun pryder, daeth arolygwyr i'r casgliad ei bod hi'n amhosibl, am fod cofnodion ar goll, i benderfynu'n gywir i ba raddau y defnyddiwyd grym. Yn ogystal, nid oedd ymyriadau a gynlluniwyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd na'u ffilmio ac yn aml iawn nid oedd camerâu a wisgwyd ar y corff wedi eu troi ymlaen.

Mae'r adroddiad yn nodi dirywiad dramatig yn y canlyniadau ym maes gweithgareddau pwrpasol. Mae'n destun pryder arbennig bod canlyniadau gweithgareddau pwrpasol wedi gostwng yn yr uned Keppel, a oedd mewn adroddiad arolwg blaenorol wedi cael ei glodfori fel 'model o'r ffordd y dylid rhedeg uned arbenigol'. Er enghraifft, roedd 31% o'r bechgyn wedi eu cloi yn eu celloedd yn ystod cyfnodau gwaith allweddol, o'i gymharu gyda dim un bachgen o gwbl yn yr arolwg blaenorol.

Roedd prinder staff yn broblem ar draws yr STCs, ac ystyriwyd bod y rhain yn cael effaith niweidiol ar berfformiad pob un o'r rheiny a arolygwyd.[24] O'r 14 o gartrefi plant diogel yn Lloegr (pob un ond un yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol), barnwyd bod 11 cartref yn dda neu'n rhagorol yn eu harolwg llawn diwethaf.

Roedd y darlun yn Yr Alban yn fwy positif na'r darlun yng Nghymru a Lloegr. Drwy gydol y flwyddyn, archwiliodd yr Arolygiaeth Gofal bob un o'r pum gwasanaeth gofal yn yr Alban lle mae plant o dan 18 oed yn cael eu cadw.[25] Ar ddiwedd y flwyddyn roedd yr Arolygiaeth Gofal wedi asesu bod dau wasanaeth yn dda, un gwasanaeth yn dda iawn a dau sefydliad yn rhagorol.[26]

### Dalfa'r llys a'r heddlu

Tynnodd aelodau'r NPM sylw at nifer o wahanol bryderon yn ymwneud â dalfa'r llys ar heddlu drwy gydol y flwyddyn.

Yn yr Alban, yn dilyn marwolaeth dau ddyn yn nalfa'r heddlu yn 2013, a chyhoeddi'r adroddiadau Ymholiad am Ddamwain Marwol perthnasol ym mis Rhagfyr 2015, gwahoddodd Heddlu'r Alban yr HMICS i wneud arolygon ychwanegol o'r canolfannau cadw perthnasol: London Road ac Aikenhead Road. Roedd yr arolygon dirybudd a wnaed ym misoedd Ebrill a Mai 2016 yn tynnu sylw at bryderon am gywirdeb asesiadau risg y rhai a gadwyd, mater sydd wedi cael ei nodi gan HMICS yn ystod arolygon o ddalfeydd yr heddlu ar draws yr Alban mewn blynyddoedd blaenorol. Yn y ddwy ganolfan gadw daeth HMICS i'r casgliad nad oedd hi'n eglur bob amser pam ystyriwyd rhywun a gadwyd yno'n risg isel

23. Arolygiaeth Carchardai EM, 2016, *Report on an unannounced inspection of HMYOI Wetherby and Keppel unit by HM Chief Inspector of Prisons, 22 February – 4 March 2016*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2016/07/Wetherby-and-Keppel-Web-2016.pdf [cyrchwyd 21/08/17].
24. Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/07/HMIP-AR_2016-17_CONTENT_11-07-17-WEB.pdf [cyrchwyd 22/08/17].
25. Gellir gweld manylion y gwasanaethau gofal diogel ar http://www.gov.scot/Topics/Justice/policies/young-offending/secure-care [cyrchwyd 21/08/17].
26. Gellir gweld yr holl adroddiadau arolygon ar www.careinspectorate.com.

neu'n risg uchel ac nad oedd y rhesymeg ar gyfer cynlluniau gofal dilynol yn amlwg bob amser. Codwyd pryderon am ddigonolrwydd y dulliau a defnyddiwyd i ddiogelu iechyd a lles pobl risg uchel iawn oedd yn cael eu cadw. Nododd HMICS hefyd bryderon am gymysgu dynion a merched sy'n cael eu cadw ac am arsylliadau cyson sy'n cael eu gwneud o bobl risg uchel sy'n cael eu cadw, drwy'r CCTV, gan staff o ryw gwahanol i'r rhai sy'n cael eu cadw.

Yng Nghymru a Lloegr, cafwyd 14 marwolaeth o fewn neu yn dilyn cadw yn nalfa'r heddlu yn ystod y flwyddyn, a chafwyd yr un nifer ar gyfer 2015-16. Roedd un o'r rhain yn ymwneud â merch a gymerodd ei bywyd ei hun tra'r oedd hi yn nalfa'r heddlu, y tro cyntaf i hyn digwydd ers 2014-15. Gostyngodd y nifer o farwolaethau oedd yn ymddangos yn  hunanladdiad yn dilyn cadw yn nalfa'r heddlu am y drydedd flwyddyn yn olynol i 55.[27]

O'r heddluoedd hynny yng Nghymru a Lloegr a arolygwyd yn ystod 2016-17, ystyriwyd bod gwendidau sylweddol gan bob un ond un mewn perthynas â defnyddio grym. Roedd pob heddlu a arolygwyd yn sôn bod nifer uchel o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael eu cadw. Parhaodd nifer o heddluoedd i wneud ymdrechion i wella gwasanaethau iechyd meddwl, ond canfu'r arolygwyr a'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd bod yr amseroedd aros ar gyfer asesu a throsglwyddo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA) yn parhau'n uchel. Gwnaeth nifer o heddluoedd ymdrechion drwy gydol y flwyddyn i wyro pobl gydag anghenon iechyd meddwl o ddalfeydd yr heddlu ac i ymdrin â'r defnydd a wneir o ddalfa'r heddlu fel lle o ddiogelwch o dan adran 136 y MHA.[28]

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd y defnydd a wnaed o'r ddalfa fel lle diogel yn parhau'n isel, gyda phum dalfa o dan Erthygl 130(1) Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986. Roedd y ffigur heb newid ers 2015-16.[29] Gwelodd ymwelwyr dalfa annibynnol yng Ngogledd Iwerddon niferoedd cynyddol o bobl yn cael eu cadw oedd wedi eu 'fflagio' gan yr heddlu ar eu cofnod cadw fel rhai dan risg o hunan-niweidio, hunanladdiad neu oedd â phryderon iechyd meddwl, a niferoedd cynyddol o bobl a gadwyd yn gofyn arsyllu cyson a gwiriadau cadw llygad agos.

Parhaodd y nifer o blant a restiwyd yng Nghymru a Lloegr i ostwng yn ystod 2016,[30] ond parhaodd yr arolygon i ganfod plant yn cael eu cadw'n ddianghenraid gydag opsiynau amgen heb gael eu harchwilio'n ddigonol. Nid oedd plant yn derbyn gofal a chefnogaeth ddigonol bob amser.[31] Codwyd pryderon am heddluoedd Lloegr yn defnyddio 'tasers' a 'chyflau poeri' yn erbyn plant.[32]

**27.** Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, 2017, *Deaths during or following police contact: Statistics for England and Wales for 2016/17*, https://www.ipcc.gov.uk/sites/default/files/Documents/research_stats/Deaths_Report_1617.pdf [cyrchwyd 22/08/17].

**28.** Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/07/HMIP-AR_2016-17_CONTENT_11-07-17-WEB.pdf [cyrchwyd 22/08/17].

**29.** Data a ddarparwyd i Fwrdd Heddlua Gogledd Iwerddon (NIPB) ar 13 Mehefin 2017 gan Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) fel yr echdynnwyd o NICHE. Mae NICHE yn system gofnodi troseddau a rheoli achosion electronig ac mae PSNI yn darparu ystod o fanylion ystadegol yn rheolaidd i'r NIPB yn rhan o'i swyddogaethau atebolrwydd a goruchwylio.

**30.** Howard League for Penal Reform, 2017, *Child arrests in England and Wales 2016: Research briefing*, http://howardleague.org/wp-content/uploads/2017/08/Child-arrests-in-England-and-Wales-2016.pdf [cyrchwyd 22/08/17].

**31.** Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/07/HMIP-AR_2016-17_CONTENT_11-07-17-WEB.pdf [cyrchwyd 22/08/17].

**32.** Cynghrair Hawliau Plant i Loegr, 2016, *State of Children's Rights in England 2016: Briefing 8 Policing & Criminal Justice*, http://www.crae.org.uk/media/118312/crae_scr2016_b8_cjs-web.pdf [cyrchwyd 11/10/17].

Cododd Arsyllwyr Lleyg bryderon am gynnydd mewn gwallau neu wybodaeth goll mewn Cofnodion Hebryngwyr Pobl (a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth am bobl yn y ddalfa pan maent yn cael eu trosglwyddo rhwng mannau cadw) yng Nghymru a Lloegr. Gwelwyd bod data allweddol megis hanes meddygol a ffactorau risg yn cael eu methu'n rheolaidd, gan godi pryderon diogelwch posibl am y rheiny sy'n cael eu cadw a'r staff.[33] Nododd arsyllwyr lleyg ac arolygwyr amodau gwael yn nifer o gyfleusterau dalfa'r llys.[34]

### Cadw mewnfudwyr

Ar Fawrth 31 2017, dalwyd 2,930 o bobl mewn dalfa mewnfudwyr, sy'n weddol debyg i ffigur y flwyddyn flaenorol o 2,925. Roedd y ffigurau ar gyfer y cyfnod yn syth ar ôl cau'r flwyddyn (3 Ebrill 2017) yn dangos bod 337 o bobl yn cael eu dal mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn gyfan gwbl yn unol â'u pwerau mewnfudiad.[35] Yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, codwyd pryderon mewn arolygon o ganolfannau symud mewnfudwyr sy'n oedolion, am amgylchedd tebyg i garchar y canolfannau hyn. Roedd gwelliannau yn nefnydd amddiffyniadau Rheol 35 ond parhaodd gwendidau, gan gynnwys oedi a estynnodd gyfnod cadw pobl fregus mewn rhai achosion. Soniwyd nad oedd pobl yn deall y polisi newydd gan y Swyddfa Gartref ar reoli oedolion dan risg, a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn, a bod diffyg cyfathrebiad rhwng staff sydd mewn cysylltiad â phobl dan risg a gedwir mewn canolfannau a gweithwyr achos y Swyddfa Gartref sy'n penderfynu a ddylai'r cyfnod cadw barhau. Nodwyd bod methiannau mewn cyfathrebu yn peri diffyg gallu i adnabod a chefnogi oedolion dan risg a monitro sut roedd eu cadw fel yma'n effeithio arnynt. Canfu arolygon bod pobl gyda salwch meddwl difrifol yn cael eu cadw a bod llawer o achosion o gadw estynedig yn yr holl ganolfannau a arolygwyd.[36] Ym mis Mawrth 2017, gwrandawodd yr Uchel Lys ar sialens adolygiad barnwrol yn erbyn y ffordd yr oedd arweiniad a pholisi llywodraeth yn diffinio artaith i bwrpasau canfod oedolion dan risg.

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ym mis Medi 2016, aeth 121 o blant i mewn i ddalfa mewnfudwyr, sef gostyngiad a groesawyd o 34% ar y flwyddyn flaenorol a 89% o 2009.[37] Yn ystod y flwyddyn, arolygwyd llety cyn-ymadael Cedars, sef cyfleuster arbenigol sy'n dal teuluoedd gyda phlant, a chafwyd ei fod yn gyfleuster diogel, gweddus sy'n rhoi'r canolbwynt ar y plentyn. Fodd bynnag caewyd Cedars yn ystod y flwyddyn, yn ôl y sôn am fod y defnydd a wnaed ohono'n weddol isel a'r costau cynnal yn uchel, a nododd aelodau'r NPM bryderon ynglŷn â darparu yr un safonau i deuluoedd a phlant mewn cyfleusterau eraill.[38]

---

**33.** Gwelwch hefyd Arsyllwyr Lleyg, 2017, *Annual Report to the Secretary of State for Justice 2016–2017*, https://layobservers.org/reports/ [cyrchwyd 26/10/17].

**34.** Arolygiaeth Carchardai EM 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/07/HMIP-AR_2016-17_CONTENT_11-07-17-WEB.pdf [cyrchwyd 22/08/17]. Gwelwch hefyd Arsyllwyr Lleyg, 2017, *Annual Report to the Secretary of State for Justice 2016–2017*, https://layobservers.org/reports/ [cyrchwyd 26/10/17].

**35.** Y Swyddfa Gartref, 2017, *National Statistics: How many people are detained or returned?* https://www.gov.uk/government/publications/immigration-statistics-january-to-march-2017/how-many-people-are-detained-or-returned, [cyrchwyd 22/08/2017]. Mae'r ffigurau yma'n ymwneud â dim ond y rheiny sy'n cael eu cadw mewn canolfannau symud mewnfudwyr (IRCs), cyfleusterau cadw tymor byr (STHF) a llety cyn ymadael (PDA).

**36.** Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/07/HMIP-AR_2016-17_CONTENT_11-07-17-WEB.pdf [cyrchwyd 22/08/17].

**37.** Y Swyddfa Gartref, 2016, *National Statistics: Detention*, https://www.gov.uk/government/publications/immigration-statistics-july-to-september-2016/detention#children-in-detention [cyrchwyd 22/08/17]. Cafodd y ffigur a ddiweddarwyd, sef 121, ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref.

**38.** Arolygiaeth Carchardai EM 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/07/HMIP-AR_2016-17_CONTENT_11-07-17-WEB.pdf [cyrchwyd 22/08/17].

**Cadw am resymau iechyd a gofal cymdeithasol**
Amcangyfrifwyd bod y nifer a gadwyd yn Lloegr o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi codi o 2% o'r flwyddyn flaenorol.[39] Mae'r nifer a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cynyddu'n barhaus am nifer o flynyddoedd, ac yn 2015-16 cyrhaeddodd 63,622, sef cynnydd o 47% ers 2005-06 a'r ffigur uchaf a roddwyd yn ystod y cyfnod 10 mlynedd hwnnw.[40] Roedd arolygon gan CQC o dri ysbyty diogelwch uchel Lloegr yn ystod y flwyddyn yn tynnu sylw at bryderon am brinder nyrsys yn Ysbytai Broadmoor a Rampton, yr oedd yn ystyried y gallai fod yn rhoi cleifion dan risg yn Broadmoor. Nid oedd y staff yn Ysbytai Broadmoor a Rampton yn cadw at yr arweiniad yng Nghod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl ar fonitro ac adolygu neilltuo a gwahanu tymor hir. Roedd y tri ysbyty'n defnyddio 'caethiwed dros nos' (penderfyniad i gloi cleifion yn eu hystafell dros nos, nad yw'n berthnasol i ymddygiad y claf nag asesiad risg). Yn Ysbytai Broadmoor a Rampton, roedd cleifion yn atebol i gaethiwed dros nos ac, oherwydd prinder staff, roedd eu mynediad at therapïau a gweithgareddau hamdden yn ystod y dydd yn gyfyngedig. Cododd y CQC bryderon gyda'r Ysgrifennydd Gwladol bod hyn yn wrthgyferbyniol i arweiniad y llywodraeth na ddylid ond defnyddio caethiwed dros nos lle bydd 'yn sicrhau'r budd therapiwtig mwyaf i gleifion[...] er enghraifft, gall cadw grŵp o gleifion dros nos ryddhau staff i hwyluso mwy o fewnbwn therapiwtig i gleifion yn ystod y dydd.[41]

Roedd y duedd gynyddol o gadw pobl o dan bwerau iechyd meddwl yn amlwg hefyd yng Nghymru a'r Alban. Yng Nghymru, yn ystod y flwyddyn 2015-16, cynyddodd y nifer o dderbyniadau ffurfiol a gafwyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth arall i 2,001, sef cynnydd o 4%.[42] Cafodd dau o ysbytai iechyd meddwl newydd oedd yn gallu derbyn cleifion o sefydliadau cadw eu cofrestru yn ystod y flwyddyn, y cofrestriad cyntaf o'r math yma yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Roedd cynnydd yn y nifer o achosion o gadw gorfodol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003 yn yr Alban yn ystod 2016-17. Mae'r nifer o dystysgrifau cadw mewn argyfwng a gwblhawyd wedi codi i 2,458, sef cynnydd o 12% ar y flwyddyn flaenorol ac o 25.9% dros 10 mlynedd. Cododd y nifer o dystysgrifau cadw tymor byr a gwblhawyd o 5% o'r flwyddyn flaenorol i 4,371, ac mae wedi cynyddu o 34.1%

**39.** GIG Digidol, 2017, *Mental Health Act Statistics, Annual Figures: 2016–17, Experimental statistics*, http://digital.nhs.uk/catalogue/PUB30105 [cyrchwyd 10/09/2017]. Oherwydd newid yn y ffordd y mae'r ystadegau hyn yn cael eu canfod a'u cynhyrchu, ac oherwydd data anghyflawn, dim ond brasamcan yw hwn ac nid yw'r ffigurau'n gymaradwy â blynyddoedd blaenorol. Mae'r ystadegau'n nodi bod 45,864 o achosion newydd o gadw pobl wedi'u cofnodi yn 2016/17 a 4,966 o Orchmynion Triniaeth Gymunedol (CTOs) newydd, ond bydd y cyfansymiau cenedlaethol cyffredinol yn uwch am nad yw'r holl ddarparwyr wedi cyflwyno data. Ar gyfer yr is-set o ddarparwyr a gyflwynodd ddata o ansawdd da am achosion o gadw yn 2015/16 ac yn 2016/17 rydym yn amcangyfrif bod cynnydd o oddeutu 2 y cant mewn achosion o gadw ers y llynedd'.

**40.** GIG Digidol, 2016, *Inpatients formally detained in hospitals under the Mental Health Act 1983, and patients subject to supervised community treatment*, http://www.content.digital.nhs.uk/catalogue/PUB22571/inp-det-m-h-a-1983-sup-com-eng-15-16-rep.pdf [cyrchwyd 23/08/17].

**41.** Y Comisiwn Ansawdd Gofal, 2017, *West London Mental Health NHS Trust: Quality Report*, http://www.cqc.org.uk/sites/default/files/new_reports/AAAF9938.pdf [cyrchwyd 10/10/2017]; *Mersey Care NHS Foundation Trust High Secure Services: Ashworth Hospital: Quality Report*, http://www.cqc.org.uk/sites/default/files/new_reports/AAAG3922.pdf [cyrchwyd 10/10/2017]; *Nottinghamshire Healthcare NHS Foundation Trust: Forensic inpatient/secure wards: Quality Report*, http://www.cqc.org.uk/sites/default/files/new_reports/AAAG2258.pdf [cyrchwyd 10/10/2017].

**42.** Ystadegau i Gymru, 2016, *Admission of patients to mental health facilities in Wales, 2015–16*, http://gov.wales/docs/statistics/2016/160831-admission-patients-mental-health-facilities-2015-16-en.pdf [cyrchwyd 23/08/17].

dros gyfnod o 10 mlynedd. Dros y cyfnod o 10 mlynedd yn Yr Alban cafwyd cynnydd o 23% hefyd yn y nifer o orchmynion triniaeth gorfodol tymor hirach.[43]

Yng Ngogledd Iwerddon, gostyngodd y nifer o dderbyniadau gorfodol o dan y Gorchymyn Iechyd Meddwl 1986 o 3.6% rhwng 2015-16 a 2016-17, i 1,031 o dderbyniadau yn 2016-17.[44]

Mae'r defnydd o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS), sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru a Lloegr yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, wedi parhau i gynyddu. Yn 2015-16, adroddwyd bod 195,840 o geisiadau DoLS wedi eu gwneud yn Lloegr, y ffigur uchaf ers cyflwyno eu defnydd yn 2009. Roedd mwy na 40% o'r ceisiadau yma heb gael eu llofnodi erbyn diwedd 2015-16.[45] Adroddodd y CQC bod y llwyth wrth gefn o geisiadau DoLS yn Lloegr wedi parhau i mewn i 2016-17.[46] Yng Nghymru, cododd y nifer o geisiadau yn 2015-16 i 12,298, sef cynnydd o fwy na 15% ar y flwyddyn flaenorol. Methodd cynghorau a byrddau iechyd â phrosesu 74% o geisiadau brys o fewn yr amser gofynnol o saith diwrnod, gyda dau gyngor yn methu cyflawni'r amser gofynnol ar gyfer unrhyw gais brys.[47]

## Cyd-destun gwleidyddol, deddfwriaethol a datblygiadau polisi

Cynhaliwyd refferendwm drwy'r Deyrnas Unedig gyfan ar Fehefin 23 2016 ar ei haelodaeth yn yr Undeb Ewropeaidd, a'r canlyniad oedd pleidlais o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn fuan ar ôl y refferendwm ymddiswyddodd David Cameron y Prif Weinidog, a daeth Theresa May i'r swydd yn ei le ar 13 Gorffennaf 2016. Arweiniodd hyn at ffurfio llywodraeth lled newydd, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, Michael Gove, yn cael ei ddisodli gan Liz Truss ar 14 Gorffennaf 2016.

Cynhaliwyd etholiadau i seneddau datganoledig yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar 5 Mai 2016. Nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi gallu ffurfio llywodraeth ers ymddiswyddiad y dirprwy Brif Weinidog ar 9 Ionawr 2017, ac ni lwyddodd y pleidiau gwleidyddol i ffurfio clymblaid erbyn y dyddiad cau oedd wedi'i osod, sef 27 Mawrth 2017.

I ddechrau, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Liz Truss ei bwriad i weithredu llw maniffesto'r blaid Geidwadol, i ddisodli'r Ddeddf Hawliau

43. Comisiwn Lles Meddwl Yr Alban, 2017, *Statistical Monitoring: Mental Health Act monitoring report 2016–17*, http://www.mwcscot.org.uk/media/387603/mental_health_act_monitoring_report_2016-17.pdf [cyrchwyd 11/10/17].
44. Yr Adran Iechyd, 2017, *Mental health and learning disability inpatients 2016/17*, https://www.health-ni.gov.uk/publications/mental-health-and-learning-disability-inpatients-201617 [cyrchwyd 10/09/2017].
45. GIG Digidol, 2016, *Mental Capacity Act (2005) Deprivation of Liberty Safeguards (England)*, http://content.digital.nhs.uk/catalogue/PUB21814/dols-eng-1516-rep.pdf [cyrchwyd 23/08/17].
46. Comisiwn Ansawdd Gofal, 2017, *The state of health care and adult social care in England 2016/17*, https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20171010_stateofcare1617_report.pdf [cyrchwyd 10/10/2017].
47. Arolygiaeth Iechyd Cymru, 2017, *Deprivation of Liberty Safeguards: Annual Monitoring Report for Health and Social Care 2015–16*, http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/170504dols1516en.pdf [cyrchwyd 23/08/17].

Dynol gyda'r 'Ddeddf Hawliau Prydeinig', ond ym mis Chwefror 2017 cyhoeddodd y byddai'r llywodraeth yn gohirio Deddf o'r fath tan ar ôl Brexit. Cyhoeddodd y Prif Weinidog y bwriad i ragdybio rhanddirymu'r Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd (ECHR) mewn gweithrediadau milwrol dramor yn y dyfodol.[48] Parhaodd y DU i dderbyn beirniadaeth ryngwladol am ei chynlluniau i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a/neu adael awdurdodaeth y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd.

Ym mis Mehefin 2016, mynegodd Gweinidog y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ar y pryd, y Farwnes Anelay, ei bod yn benderfynol o 'gryfhau llais y DU yn y system ryngwladol, gan gynnwys ar y flaenoriaeth hawliau dynol bwysig o atal artaith', mewn digwyddiad a drefnwyd i ddathlu 10fed pen-blwydd dod ag OPCAT i rym.[49] Cyhoeddodd hefyd mai gwerth cyfan y gwaith a ariannwyd gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ar atal artaith yn ystod y flwyddyn fyddai £725,000 ac y byddai hyn yn cael ei ddarparu drwy brosiectau mewn 20 o wledydd.

### Carchardai a diwygiad

Yn agoriad swyddogol y Senedd ym mis Mai 2016, cyhoeddodd y Frenhines y byddai ei llywodraeth yn deddfu i ddiwygio carchardai yng Nghymru a Lloegr. Byddai llywodraethwyr carchardai'n derbyn 'rhyddid nas rhoddwyd o'r blaen' a byddent yn gallu sicrhau bod carcharorion yn derbyn gwell addysg. Byddai'r cynlluniau'n cynnwys disodli hen garchardai gyda rhai newydd.[50] Cyhoeddwyd Papur Gwyn yn nodi'r cynlluniau hyn yn fanylach ym mis Tachwedd 2016.[51]

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder greadigaeth Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) i gymryd lle Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS). Byddai HMPPS yn gyfrifol am reolaeth weithredol lawn dros garchardai, tra bo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd y cyfrifoldeb am gyfeiriad polisi'r dyfodol, am osod safonau, am graffu ar berfformiad carchardai ac am gomisiynu gwasanaethau. Cyhoeddodd y llywodraeth hefyd y byddai £100 miliwn ychwanegol yn cynyddu staff rheng flaen y carchardai o 2,500 ychwanegol.[52]

Yn rhan o'r cynlluniau diwygio, ym mis Chwefror 2017 cyflwynwyd y Bil Carchardai a Llysoedd i'r Senedd. Nod y Bil yma oedd cyflwyno 'pwrpasau statudol' carchardai: i amddiffyn y cyhoedd, diwygio ac adsefydlu troseddwyr, paratoi carcharorion ar gyfer bywyd tu allan i'r carchar a chynnal amgylchedd sy'n ddiogel a sicr. Byddai'n mynegi o fewn y gyfraith gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol am garchardai. Yn bwysig iawn, cyflwynodd y Bil fesurau hefyd a fyddai'n cryfhau rôl Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, gan gynnwys cydnabod Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi fel endid, cyfeirio at OPCAT, gofyniad ar y llywodraeth i ymateb i argymhellion Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, a phroses 'hysbysu brys' i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi roi gwybod am 'bryderon sylweddol'. Roedd y Bil wedi cyrraedd y cam Pwyllgorau ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad ac wedi ei gefnogi'n eang gan wahanol bleidiau gwleidyddol. Lobïodd sefydliadau anllywodraethol dros 'ddarparu amgylchedd sydd

48. Y Gwir Anrhydeddus Harriet Harman AS, Llythyr i'r Gwir Anrhydeddus Michael Fallon AS, 13 Hydref 2016, http://www.parliament.uk/documents/joint-committees/human-rights/correspondence/2016-17/HH_to_MF_re_derogation.pdf [cyrchwyd 09/11/17].
49. Y Gwir Anrhydeddus Farwnes Anelay o St Johns DBE, 'Araith i ddathlu 10fed Pen-blwydd OPCAT', 29 Mehefin 2016, https://www.gov.uk/government/speeches/speech-to-mark-the-10th-anniversary-of-opcat [cyrchwyd 09/11/17].
50. Gwelwch https://www.gov.uk/government/news/biggest-shake-up-of-prison-system-announced-as-part-of-queens-speech [cyrchwyd 09/11/17].
51. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2016, *Prison Safety and Reform*, https://www.gov.uk/government/publications/prison-safety-and-reform [cyrchwyd 09/11/17].
52. Gwelwch https://www.gov.uk/government/news/justice-secretary-launches-new-prison-and-probation-service-to-reform-offenders [cyrchwyd 09/11/17].

yn deg a pharchus' i gael eu cynnwys fel pwrpas statudol ychwanegol, ymysg diwygiadau eraill.[53]

Ochr yn ochr â'r newidiadau sylweddol yma, ym mis Gorffennaf 2016 agorodd y Pwyllgor Cyfiawnder seneddol ymholiad i mewn i ddiwygio carchardai, gyda'r nod o graffu ar gynlluniau'r llywodraeth a'u gweithrediad. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd is-ymholiadau am rymuso llywodraethwyr a pherfformiad y carchardai, a moderneiddio'r ystâd.

Cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol (JCHR) ymholiad am iechyd meddwl a marwolaethau mewn sefydliadau cadw ar 14 Ragfyr 2016.[54] Gan adlewyrchu ar y ffaith fod y nifer o farwolaethau mewn carchardai yng Nghymru a Loegr wedi ehangu'n fawr mewn blynyddoedd diweddar, ceisiodd ymholiad y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol ganfod a allai agwedd wedi'i seilio ar hawliau dynol arwain at atal mwy o farwolaethau yn y carchar ymysg pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl.

Ym mis Awst 2016, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros gyfiawnder y camau y byddai'n eu cymryd i ymdrin ag eithafiaeth mewn carchardai, yn dilyn ymlaen o adolygiad y llywodraeth ar y pwnc a gafodd ei gyhoeddi fel crynodeb. Roedd y cynlluniau'n cynnwys tynnu'r 'eithafwyr Islamaidd mwyaf peryglus' o'r boblogaeth garchardai gyffredinol i'w dal mewn unedau a grëwyd yn arbennig yn yr ystâd diogelwch uchel.[55]

Roedd yr adolygiad annibynnol o driniaeth, a chanlyniadau, unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn Y System Cyfiawnder Troseddol dan arweiniad David Lammy AS yn parhau yn ystod y flwyddyn.[56]

Cyhoeddodd Gwasanaeth Carchardai yr Alban ei Ddatganiad Gwerth ym mis Rhagfyr 2016, oedd yn amlinellu newidiadau yn yr hyn sy'n cael ei ddarparu i'r rheiny mewn sefydliadau cadw ac yn disgrifio cyfeiriad y teithio yn y dyfodol i hyfforddi a datblygu staff carchardai.[57] Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddwyd y safle ar gyfer carchar newydd, HMP Highland, i bobl mewn sefydliad cadw o'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd.[58]

Yn fuan yn 2017, cychwynnodd Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban ymholiad i iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai.[59]

**53.** Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2017, *Briefing on the Prisons and Courts Bill, House of Commons, Second Reading, Monday 20 March 2017*, http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Parliament/Prisons%20and%20Courts%20Bill/HoC%20second%20reading%20briefing%E2%80%94Prisons%20and%20Courts%20Bill.pdf [cyrchwyd 09/11/17].
**54.** Gwelwch gyflwyniad NPM i'r ymholiadau: http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/human-rights-committee/mental-health-and-deaths-in-prison/written/48220.html [cyrchwyd 09/11/17].
**55.** Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2016, "Government sets out new measures to tackle extremism in prisons", https://www.gov.uk/government/news/government-sets-out-new-measures-to-tackle-extremism-in-prisons [cyrchwyd 27/11/2017].
**56.** Gwelwch https://www.gov.uk/government/consultations/lammy-review-of-black-asian-and-minority-ethnic-bame-representation-in-the-criminal-justice-system-call-for-evidence [cyrchwyd 09/11/17].
**57.** Gwasanaeth Carchardai Yr Alban, 2016, *Unlocking our potential: a value proposition*, http://www.sps.gov.uk/Corporate/Publications/Publication-4733.aspx [cyrchwyd 09/11/17].
**58.** Gwasanaeth Carchardai Yr Alban, 2017, *New site for HMP Highland identified*, http://www.sps.gov.uk/Corporate/News/News-4817.aspx [cyrchwyd 09/11/17].
**59.** Gweler http://www.parliament.scot/parliamentarybusiness/CurrentCommittees/103318.aspx [cyrchwyd 09/11/17].

**Polisi cryfach ar gyfer rheoli a gofalu am garcharorion trawsryweddol yng Nghymru a Lloegr**

Ym mis Tachwedd 2016, ar ôl cwblhau adolygiad o'r rheolaeth a'r gofal am droseddwyr trawsryweddol, cyhoeddodd NOMS gyfarwyddyd gwasanaeth carchardai newydd (PSI), *The Care and Management of Transgender Offenders*. Roedd yn cydnabod agwedd fwy hyblyg tuag at leoli carcharorion trawsryweddol o fewn yr ystâd carchardai i adlewyrchu'r ffaith nad yw pob person trawsryweddol mewn carchardai'n derbyn cydnabyddiaeh gyfreithiol o'u rhyw caffaeledig. Pwysleisiodd y PSI yr angen am wneud penderfyniad cynnar ynghylch lleoli carcharorion trawsryweddol a chyflwynodd fyrddau achos ac adolygu i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau. Yn olaf, cyflwynodd PSI ymrwymiad i gyhoeddi ystadegau swyddogol ar droseddwyr trawsryweddol am y tro cyntaf, a chyhoeddodd sefydliad Bwrdd Cynghori Trawsryweddol i ddatblygu arweiniad a pholisi ymhellach yn y dyfodol.

## Cyfraith iechyd meddwl

Derbyniodd y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2016. Cyflwynodd y gyfraith arloesol hon fframwaith cyfreithiol i Ogledd Cymru am y tro cyntaf sy'n llywio galluedd a diffyg galluedd ac yn gofyn am wneud penderfyniadau er y budd gorau i bobl.

Daeth Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl newydd 1983 i rym ar 3 Hydref 2016.[60]

Yn Yr Alban, ymgynghorodd y llywodraeth ar weithrediad darpariaeth yn y ddeddfwriaeth iechyd newydd ac ar gynigion am ddeddfwriaeth eilaidd yn ymwneud â'r ddeddf newydd. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau newydd ar gyfer trosglwyddiadau traws-ffiniol ac i ddelio gyda chleifion oedd wedi cilio o awdurdodaethau eraill. Arweiniwyd ymgynghoriadau ar yr angen i ddiwygio deddfwriaeth am ddiffyg cymhwysedd yn Yr Alban i sicrhau cydymffurfiad gyda safonau hawliau dynol rhyngwladol gan y Comisiwn Lles Meddwl a Chanolfan Iechyd Meddwl a Chyfraith Galluedd ym Mhrifysgol Napier Caeredin.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith yr adroddiad terfynol o'i adolygiad o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid  (DoLS). Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod 'achos cryf dros ddisodli'r DoLS' a bod 'cytundeb eang bod y DoLS yn or-dechnegol a deddfwriaethol, ac yn rhy aml yn methu cyflawni unrhyw ganlyniadau positif ar gyfer y person perthnasol neu deulu'r person perthnasol'. Ni allai'r system gyfredol ddelio gyda'r niferoedd cynyddol o bobl yr ystyriwyd eu bod wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys yng Ngorllewin Swydd Gaer ac mae'r system gyfredol yn gwneud llawer o hawliau pobl yn 'ddamcaniaethol a lledrithiol'. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith system newydd o 'Ddiogelwch Amddiffyn Rhyddid'.[61]

---

**60.** Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016, *Mental Health Act 1983, Code of Practice for Wales*, http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/816/Mental%20Health%20Act%201983%20Code%20of%20Practice%20for%20Wales.pdf [cyrchwyd 09/11/17].

**61.** Comisiwn y Gyfraith, 2017, *Mental Capacity and Deprivation of Liberty Summary*, http://www.lawcom.gov.uk/project/mental-capacity-and-deprivation-of-liberty/ [cyrchwyd 09/11/17].

## Plant mewn sefydliadau cadw

Ym mis Medi 2016, galwodd Syr James Munby, Llywydd Rhanbarth Teulu'r Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr, am eglurder cyfreithiol mewn perthynas â llysoedd yn Lloegr yn rhoi plant mewn unedau diogel yn Yr Alban.[62] Ym mis Ionawr 2017, pasiodd Senedd Yr Alban gynnig caniatâd deddfwriaethol[63] oedd yn rhoi cymal i mewn i'r Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol i ganiatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr roi plant yn yr Alban a vice versa. Roedd Syr James Munby wedi nodi cynnydd diweddar mewn achosion o awdurdodau lleol yng ngogledd Lloegr yn rhoi plant mewn llety diogel yn Yr Alban, oherwydd prinder lle, ac roedd yn dadlau na ellir gorfodi gorchmynion gofal o'r fath yn gyfreithiol. Derbyniodd y Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2017.

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd y Bwrdd Gwella Gwarchodaeth Ieuenctid (YCIB) a benodwyd ym mis Mai 2016 ei adroddiad yn edrych ar gyflwr presennol yr ystâd sefydliadau cadw ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, a daeth i'r casgliad ei fod yn rhannu barn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid oedd wedi cael ei fynegi o'r blaen nad oedd yr ystâd diogelwch ieuenctid yn 'addas i'r pwrpas o ofalu am neu am adsefydlu plant a phobl ifanc'.[64] Nododd yr YCIB ei fod yn ystyried y dadansoddiad yma'n 'anhygoel' o ystyried bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) wedi bod yn weithredol am fwy na degawd, a gofynnodd pam nad oedd y Bwrdd ynghyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gallu ymyrryd i ddatrys y sefyllfa. Yn dilyn ymlaen o'r adroddiad yma, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder eu bod wedi penodi Cadeirydd newydd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac y byddai'r llywodraeth yn creu Gwasanaeth Gwarchodaeth Ieuenctid newydd 'fel braich ar wahân i'r HMPPS'. Byddai'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am gomisiynu gwasanaethau cadw ieuenctid, am osod safonau clir ac am ymyrryd i ymdrin â pherfformiad gwael yn cael eu trosglwyddo i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.[65]

## Dalfa'r heddlu

Roedd gweithrediad llawn y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2016 a fydd yn cyflwyno newidiadau sylweddol sy'n berthnasol i gadw, yn dal i fod ar y gweill (gwelwch seithfed adroddiad blynhyddol NPM).

Erbyn misoedd cynnar 2017, roedd Heddlu'r Alban wedi cyflwyno system Technoleg Gwybodaeth genedlaethol ar gyfer sefydliadau cadw, i ddisodli'r wyth system a ddefnyddiwyd gan luoedd cyn hynny. Bydd system genedlaethol yn hwyluso'r gwaith o gasglu data cyson am gadw a ddylai ddarparu gwell data i Heddlu'r Alban ei ddefnyddio wrth gynllunio a darparu ei wasanaeth cadw.

Roedd arweiniad ar y gweill hefyd ar weithredu Deddf Heddlu a Throseddu 2017 yng Nghymru a Lloegr. Ar amser ysgrifennu hwn, nid oedd hi'n glir a fyddai'r arweiniad yn eithrio defnyddio dalfa'r heddlu fel lle o ddiogelwch o dan Adran 135/136 y Ddeddf Iechyd Meddwl.

---

62. *In the Matter of X (A Child), In the Matter of Y (A Child)*, [2016] EWHC 2271 (Fam)., https://www.judiciary.gov.uk/judgments/in-the-matter-of-x-a-child-and-in-the-matter-of-y-a-child/ [cyrchwyd 13/11/17].
63. Cynnig yn cytuno y caiff San Steffan basio deddfwriaeth ar fater datganoledig.
64. Alan Wood (Cadeirydd), Yr Athro Fonesig Sue Bailey a Rob Butler, 2017, *Findings and Recommendations of the Youth Custody Improvement Board*, https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/594448/findings-and-recommendations-of-the-ycib.pdf [cyrchwyd 09/11/17].
65. Gwelwch https://www.gov.uk/government/speeches/youth-justice-update [cyrchwyd 09/11/17].

Er nad yw erioed wedi cael ei gyhoeddi mewn fersiwn derfynol, arweiniodd y Concordat drafft i Blant mewn Safleoedd Cadw yn Lloegr at waith i sicrhau nad yw plant yn treulio amser gormodol yn y ddalfa ac mae'n rhoi cyfrifoldeb ar symud plant, ar ôl eu cyhuddo, i lety'r awdurdod lleol. Er bod y ddogfen hon yn tynnu sylw'n syml at ddeddfwriaeth ac arweiniad sy'n bodoli'n barod, mae'n cynrychioli newid *de facto* mewn arferion, am nad oedd y rheolau wedi cael eu gweithredu.

Roedd cyhoeddiad yr adolygiad annibynnol i farwolaethau a digwyddiadau difrifol yn nalfa'r heddlu yn dal heb gyrraedd ar ddiwedd y flwyddyn.[66]

Ym mis Tachwedd, nododd adroddiadau'r wasg wybodaeth a gafwyd o dan y ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth bod 17 o'r 49 o heddluoedd yn y DU yn defnyddio cyflau poeri ffabrig rhwyllwaith, a bod heddluoedd eraill yn ystyried eu defnyddio nhw.[67] Ystyriwyd eu defnydd yn benderfyniad gweithredol i luoedd unigol, a chafodd ei feirniadu'n gryf gan rai grwpiau anllywodraethol. Roedd data'n awgrymu bod cyflau poeri wedi cael eu defnyddio ers 2011 o leiaf 2,486 o weithiau – mewn 635 o achosion ar bobl gyda phroblemau iechyd meddwl posibl. Ym mis Awst 2016, ysgrifennodd cadeirydd portffolio Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Heddlu ar gyfer Iechyd, Diogelwch a Lles at yr holl brif gwnstabliaid yn argymell bod lluoedd yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i ddarparu cyflau poeri i bob swyddog rheng flaen.[68]

**Sefydliadau cadw mewnfudwyr**
Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd llywodraeth y DU y byddent yn cau Cedars, yr unig lety cyn-ymadael diogel wedi'i lunio i ddal teuluoeddd gyda phlant. Agorwyd Cedars yn 2011 yn rhan o ymrwymiad y llywodraeth i roi diwedd ar gadw yn rheolaidd i bwrpasau mewnfudiad. Penderfynwyd cau Cedars oherwydd pryderon am gostau uchel a defnydd isel oedd yn gostwng.[69] Cyhoeddodd y llywodraeth ei gynllun i ddisodli Cedars gyda llety cyn-ymadael newydd gerllaw Maes Awyr Gatwick, mewn uned ar wahân yng nghanolfan symud mewnfudwyr Tinsley House.

Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'n cau yr unig ganolfan symud mewnfudwyr yn Yr Alban, Dungavel, gan ddefnyddio yn ei le gyfleuster cadw tymor byr newydd gerllaw Maes Awyr Glasgow. Ond, ym mis Chwefror gwyrdrowyd y penderfyniad yma, gan nodi fel rheswm benderfyniad y cyngor lleol i atal y cyfleuster cadw newydd.

Daeth Rheoliadau Mewnfudo (Arweiniad ar Gadw Pobl sy'n Agored i Niwed) 2016 i rym ar 12 Medi 2016.[70] Roedd hwn yn gweithredu'r Polisi Oedolion dan Risg wrth Fewnfudo sy'n nodi'r materion i'w hystyried wrth benderfynu a fyddai rhywun yn arbennig o agored i niwed os byddent yn cael eu cadw neu'n aros mewn sefydliad cadw, ac, os felly, p'un a ddylai'r cadw yma ddigwydd neu barhau.[71] Cafodd yr arweiniad newydd ei feirniadu'n eang am


**66.** Gwelwch https://www.gov.uk/government/speeches/home-secretary-announces-review-of-deaths-in-policy-custody [cyrchwyd 09/11/17]. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn dilyn diwedd y flwyddyn 2016/17, ym mis Hydref 2017, https://www.gov.uk/government/publications/deaths-and-serious-incidents-in-police-custody.
**67.** BBC, 2016, 'Cyflau poeri 'creulon' yn cael eu defnyddio gan draean o luoedd heddlu'r Deyrnas Unedig', http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-37938056 [cyrchwyd 09/11/17].
**68.** Ffederasiwn yr Heddlu, 2016 'Gardiau brathu a phoeri', http://polfed.org/spitguards [cyrchwyd 09/11/17].
**69.** Stephen Shaw, 2016. *Review into the Welfare in Detention of Vulnerable Persons, A report to the Home Office*, 3.143–3.155 ac argymhelliad 5. https://www.gov.uk/government/publications/review-into-the-welfare-in-detention-of-vulnerable-persons [cyrchwyd 13/11/17].
**70.** Gwelwch http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/847/contents/made [cyrchwyd 09/11/17].
**71.** Swyddfa Gartref, 2016, *Immigration Act 2016: Guidance on adults at risk in immigration detention*, https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/547519/Adults_at_Risk_August_2016.pdf [cyrchwyd 09/11/17].

arwain at 'waethygu diogelwch i bobl agored i niwed mewn sefydliadau cadw'.[72] Roedd cyfreithwyr mewnfudiad a grwpiau eiriolaeth yn bryderus bod y polisi newydd yn cyfyngu ar y diffiniad o artaith i eithrio gweithredwyr nad ydynt yn perthyn i wladwriaeth, yn cynyddu'r baich tystiolaeth ar bobl agored i niwed ac yn cydbwyso'r elfen o fod yn agored i niwed yn erbyn ystod ehangach o ffactorau eraill.

72. *The Guardian*, 2016, 'Angen adolygiad ar frys o'r polisi cadw mewnfudwyr newydd i 'oedolion dan risg''. https://www.theguardian.com/society/2016/sep/11/new-immigration-detention-policy-for-adults-at-risk-needs-urgent-review [cyrchwyd 13/11/17].

# Adran dau

# Ffocws ar faterion cadw



## Ynysu – arweiniad i gyrff monitro NPM

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd NPM ei arweiniad ar ynysu mewn sefydliadau cadw. Datblygwyd yr arweiniad yn dilyn adolygu'r trefniadau carchariad unig ac ynysu ar draws y sefydliadau cadw gan aelodau'r NPM yn 2014-15, ac mae'n gwneud defnydd o arferion gorau rhyngwladol.

Mae'r arweiniad yn adeiladu ar ganfyddiadau'r adolygiad ac yn darparu fframwaith cynhwysfawr y dylai aelodau NPM ei ddefnyddio wrth archwilio ynysu mewn sefydliadau cadw, sydd â'r potensial i achosi triniaeth wael. Ei nod yw sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y mae aelodau'r NPM yn monitro'r defnydd a wneir o ynysu, ac yn gadael iddynt adnabod a hyrwyddo arferion da a gwell. Bydd yr arweiniad a'i ddefnydd ymarferol yn darparu'r sail ar gyfer ffurfio argymhellion i gryfhau'r polisi.

Yn dilyn ei gyhoeddiad, cafodd yr arweiniad ei ddosbarthu gan aelodau NPM i'w harolygwyr, monitoriaid ac ymwelwyr â sefydliadau cadw perthnasol. Mae aelodau'r NPM yn parhau i weithio i gynnwys yr arweiniad i mewn yn eu gwaith arolygu a monitro.

## Llwybrau mewn sefydliadau cadw

Cytunodd aelodau'r NPM yn 2015 i ganolbwyntio ymdrechion ar y cyd ar archwilio llwybrau rhwng gwahanol sefydliadau cadw. O gofio bod aelodau NPM fel arfer yn archwilio triniaeth ac amodau mewn sefydliadau cadw drwy edrych ar sefydliad unigol, roeddem yn awyddus i archwilio materion yn ymwneud â thriniaeth pobl sy'n cael eu cadw yn ystod eu symudiadau o un sefydliad i un arall – materion nad oedd y dull yma'n edrych arno. Byddai'r gwaith yma ar y cyd yn gadael i aelodau NPM ganfod ac archwilio'r llwybrau ar draws y lleoliadau cadw[73] sy'n ymestyn y tu hwnt i gwmpas cyrff unigol, neu sy'n syrthio y tu allan i fethodoleg fonitro arferol aelodau.

Mae'r llwybrau yma'n bodoli am amrywiaeth o resymau. Roedd y rhai y buom yn edrych arnynt yn ymwneud mewn rhyw ffordd ag anghenion iechyd meddwl, p'un ai'r rhain oedd y rheswm am fynd i sefydliad cadw yn y lle cyntaf, neu a ddaeth y rhain yn ffactor oedd yn gofyn bod y sawl oedd yn y sefydliad cadw wedi gorfod symud o un lle cadw i le cadw arall. Yn benodol, roeddem yn edrych ar lwybrau rhwng gwahanol leoliadau iechyd meddwl; llwybrau o ddalfeydd yr heddlu yn codi o broblemau iechyd meddwl; ac o'r carchar i sefydliad iechyd meddwl.

Mae rôl yr NPM, fel y mae wedi'i disgrifio yn OPCAT, wedi'i chanolbwyntio ar atal triniaeth wael mewn lleoliad cadw. I fonitro sefydliadau cadw gydag agwedd ataliol, mae angen cadw ffocws ar 'ddadansoddi'r sefydliad cadw fel system [...], i ganfod problemau a allai arwain at artaith neu driniaeth wael'.[74] Mae ein diddordeb mewn archwilio llwybrau fel elfen o'r system gadw yn y Deyrnas Unedig, a'r risgiau a allai

**73.** Gyda ffocws ar lwybrau sydd â man cychwyn a gorffen mewn sefydliad cadw.
**74.** Y Gymdeithas ar gyfer Atal Artaith, *What is preventive monitoring?* https://www.apt.ch/en/preventive-visits/ [cyrchwyd 13/11/17].

godi ohonynt, yn ogystal ag anallu i gael gafael arnynt. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys:

- oedi mewn cael gafael ar driniaeth briodol a allai arwain at sefyllfa lle mae salwch pobl yn gwaethygu, gyda chanlyniadau tymor hir posibl;
- cael eu dal mewn amgylchedd amhriodol (yn cynnwys amgylchedd nad yw'n therapiwtig);
- lefelau gormodol o ddiogelwch neu amgylcheddau rhy gyfyngol;
- dim amddiffyniad i bobl a gedwir rhag niwed neu arferion cyfyngol;
- colli parhad yn y gofal a methiant i drosglwyddo gwybodaeth am anghenion y sawl sydd yn y sefydliad cadw;
- penderfyniadau ynglŷn â chael gafael ar lwybrau wedi eu cyfyngu am nad oes lle ar gael arnynt ac oherwydd cyfyngiadau ariannol, yn hytrach nag anghenion y sawl sydd yn y sefydliad cadw;
- systemau wedi eu canolbwyntio ar broses neu fiwrocratiaeth y trosglwyddiad yn hytrach na'r canlyniad;
- materion cydraddoldeb sy'n ymwneud ag argaeledd cyfleusterau i ddynion a merched sy'n effeithio ar lwybrau;
- pellter o adref.

### Llwybrau o iechyd meddwl i leoliadau iechyd meddwl[75]

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn y DU yn cael eu trefnu'n genedlaethol (ysbytai diogelwch uchel Ashworth, Broadmoor a Rampton yng Nghymru a Lloegr a'r State Hospital yn yr Alban, sef y sefydliad diogelwch uchel i Ogledd Iwerddon hefyd), yn rhanbarthol (unedau diogelwch canolig a drefnir ar draws gwahanol awdurdodau iechyd) ac yn lleol (gofal ysbyty diogelwch isel sy'n cael ei ddarparu mewn ystod o unedau sydd wedi eu lleoli fel arfer mewn bwrdd iechyd unigol neu ardal awdurdod unigol). Mae'r llwybrau rhwng y gwahanol fathau hyn o wasanaethau'n gyffredin ac yn codi am nifer o resymau, y byddwn yn eu harchwilio isod.

### Fframwaith cyfreithiol a pholisïau

Mae gan bob awdurdodaeth ddeddfwriaeth benodol sy'n llywio cadw a thriniaeth mewn ysbytai diogel:

- Deddf Iechyd Meddwl 1983, diwygiwyd yn 2007 (i Gymru a Lloegr);
- Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003, diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015;
- Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986.

Mae'r ddeddfwriaeth ymhob awdurdodaeth yn darparu fframwaith ar gyfer trosglwyddo cleifion wedi'u cadw o un rhan o'r Deyrnas Unedig i un arall ac adolygiad o drefniadau cadw'r claf gyda thribiwnlysoedd iechyd meddwl. Mae llwybrau i weithwyr proffesiynol eu dilyn wrth benderfynu ar drosglwyddiadau, ac mae rheoliadau'n nodi protocolau, amseriadau a rolau a chyfrifoldebau llywodraethau ymhob awdurdodaeth.[76]
Bydd penderfyniadau terfynol am unrhyw drosglwyddiadau a gynigir ar draws y ffiniau rhwng unedau gofal diogel wedi'u hawdurdodi ar lefel weinidogaethol.

75. Adolygodd aelodau NPM ddogfennau polisi allweddol a deddfwriaeth i ddarparu trosolwg o'r llwybrau rhwng lleoliadau iechyd meddwl diogel, o fewn a rhwng awdurdodaethau. Ni wnaethpwyd unrhyw waith maes penodol ar gyfer y prosiect yma, ond mae data o ymweliad gyda thema'r Comisiwn Lles Meddwl i'r Alban â phob ward diogelwch isel a chanolig yn Yr Alban rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2016 wedi hysbysu'r adroddiad yma. Gwelwch Gomisiwn Lles Meddwl yr Alban 2017, *Visit and monitoring report: Medium and low secure forensic wards*, http://www.mwcscot.org.uk/media/385624/medium_and_low_secure_forensic_wards.pdf [cyrchwyd 11/11/17].
76. Gwelwch Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 Rhan VI – Tynnu a Dychwelyd Cleifion o fewn y Deyrnas Unedig, Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003, S290 a'r rheoliadau – Offeryn Statudol Yr Alban 2005 Rhif 467, fel y'i diwygiwyd gan Offeryn Statudol Yr Alban 2017 Rhif 229.

Yn unigryw yn y Deyrnas Unedig, ers Tachwedd 2015 mae deddfwriaeth iechyd meddwl yr Alban[77] yn rhoi'r hawl i gleifion mewn sefydliadau gofal diogelwch uchel a chanolig wneud cais i dribiwnlys am orchymyn sy'n datgan eu bod wedi eu cadw mewn amodau o ddiogelwch eithriadol a ddylai, os bydd yn llwyddiannus, arwain at eu trosglwyddiad i lefel is o ddiogelwch. Yn y gorffennol, dim ond cleifion oedd yn cael eu cadw yn y State Hospital diogelwch uchel oedd â'r hawl yma.

Cafwyd adolygiadau sylweddol[78] o wasanaethau gofal diogel ymhob awdurdod yn y degawd diwethaf, a chododd y rhain argymhellion pwysig ynghylch darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol, yn cynnwys gwella'r llif rhwng gwahanol lefelau o wasanaethau, llwybrau o fewn y system o ddarparu gofal diogel, bylchau yn y ddarpariaeth gofal diogel a ffurfweddu'r ystâd sefydliadau diogel.

## Egwyddorion allweddol

Mae'r safonau rhyngwladol yn nodi y dylai'r cleifion fod â'r hawl i gael eu trin yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngol a gyda'r driniaeth leiaf cyfyngol neu ymwthiol ag sy'n briodol i'w hanghenion iechyd ac i amddiffyn diogelwch corfforol pobl eraill.[79] Yn 1992, galwodd Adroddiad Reed am ddarparu gwasanaethau yn unol ag angen unigol, gerllaw cartref neu deulu'r claf, yn y gymuned cyn belled ag y bo'n bosibl ond, fel arall, mewn amodau heb fod yn fwy diogel nag sy'n gyfiawn, gyda'r nod pennaf o adsefydlu. Mae'r holl egwyddorion yma wedi eu mabwysiadu neu eu cefnogi mewn dogfennau polisi allweddol ers hynny.

## Problemau a ganfuwyd gan aelodau'r NPM

### *Trefn ac argaeledd y gwasanaethau diogel ar draws y DU*

Dros y ddau ddegawd diwethaf cafwyd gostyngiad graddol yn y nifer o welyau mewn ysbytai diogelwch uchel yn y DU er mwyn ehangu'r ddarpariaeth gwelyau diogelwch canolig ac isel. Ond, mae adolygiadau ac adroddiadau diweddar wedi tynnu sylw at y ffaith fod yr ehangiad yma heb gael ei gydlynu'n strategol a bod y gwaith o gynllunio a chomisiynu nifer o wasanaethau'n ddarniog.[80] Cafwyd agwedd gweddol ad hoc tuag at gomisiynu gwasanaethau newydd gyda gwahaniaethau sylweddol yn yr hyn sydd wedi cael ei gomisiynu mewn gwahanol ardaloedd yn arwain at amrywiadau yn narpariaeth y gwasanaeth ar draws ardaloedd daearyddol ac awdurdodaethau. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth gofal yn ddarniog, gydag ystod gyfyngedig iawn mewn llawer o ardaloedd a chleifion yn methu symud o gwmpas y system fel y bo'r angen.

Yn ogystal, mae cyfran fawr a chynyddol o wasanaethau diogelwch canolig ac isel wedi eu darparu yn y sector annibynnol. Er bod y gwasanaethau yma wedi cael eu datblygu mewn ymateb i anghenion a ganfuwyd, efallai nad ydynt bob amser wedi'u lleoli mewn ardaloedd daearyddol lle mae'r anghenion ar eu mwyaf niferus. Mae hyn yn broblem arbennig i ferched,

77. Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015, adran 14-18.
78. Y Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl a'r Uned Datblygu Iechyd Meddwl Cenedlaethol, 2011, *Pathways to unlocking secure mental healthcare*. Adran Iechyd Gogledd Iwerddon, 2007. *Bamford Review of Mental Health and Learning Disability* (Gogledd Iwerddon). Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009. *A Review of Secure Mental Health Services*. Tasglu iechyd meddwl GIG Lloegr, 2016. *The Five Year Forward View for Mental Health*. Yn 2016-17 comisiynwyd Grŵp Ystâd Fforensig gan Lywodraeth Yr Alban i adolygu modelau clinigol o wasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl fforensig yn Yr Alban.
79. Penderfyniad Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig 49/119 'Egwyddorion ar gyfer Diogelu Pobl gyda Salwch Meddwl a Gwella Gofal Iechyd Meddwl'.
80. Er enghraifft, Panel Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Iechyd Meddwl, 2013, *Guidance for commissioners of forensic mental health services*; Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009, *A Review of Secure Mental Health Services*.

gyda 75% o'r holl unedau diogelwch isel yng Nghymru a Lloegr a'r ddwy uned sy'n darparu cyfran fawr o welyau ymroddedig i ferched yn Yr Alban yn unedau yn y sector annibynnol.[81]

Mae darpariaeth rhy isel o welyau mewn llawer o ardaloedd (mae hyn wedi'i gydnabod fel problem sydd angen ei datrys yn arbennig yng Nghymru a Lloegr),[82] gyda llawer o bobl wedi'u rhoi mewn gwasanaethau y tu allan i'w hardal gartref, yn creu anawsterau gyda chynllunio'r rhyddhau yn ôl i'w cartrefi. Mae diffyg darpariaeth o wasanaethau gofal diogel, yn arbennig welyau diogelwch isel, i ferched ar draws y DU.

Canfu astudiaeth yn 2015 yng Ngogledd Iwerddon bod 105 o gleifion angen gofal diogelwch isel nad oedd ar gael ar y pryd.[83] Yn ystod ei ymweliadau diweddar â gwasanaethau diogelwch canolig ac isel, dywedwyd wrth Gomisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS) am bobl mewn cyfleusterau diogelwch isel ar restrau aros ar gyfer lleoliadau diogelwch isel, a chleifion mewn cyfleusterau diogelwch isel yn aros i symud i wasanaethau adsefydlu neu leoliad cymunedol. Yn gyfan, roedd 89 allan o 400 o gleifion wedi'u pennu fel cleifion yn barod i'w rhyddhau. Rhagwelir y byddai'r sefyllfa'n gymaradwy yng Nghymru a Lloegr.

Yn yr un modd, mae diffyg darpariaeth i blant gyda chyflyrau penodol sydd angen gofal diogel (yn cynnwys i ferched gydag anabledd dysgu neu anhwylder personoliaeth ffiniol). Yn ogystal, mae llwybrau i blant allan o ofal diogelwch canolig yn cael eu rhwystro'n aml iawn gan y diffyg darpariaeth mewn unedau gyda diogelwch is a/neu wasanaethau cymunedol priodol.

O ganlyniad, mae rhai plant yn eu cael eu hunain yn aros mewn gofal iechyd meddwl diogel nes byddent yn 18 fel bod modd eu rhyddhau i wasanaethau cleifion mewnol i oedolion pan gytunwyd mewn egwyddor y gallent fod wedi cael eu rhyddhau'n gynharach.

*Trosglwyddiadau traws-awdurdodaeth*
Ysbyty Rampton yw'r unig ddarpariaeth diogelwch uchel i ferched yn y DU. Mae cytundeb lefel gwasanaeth (SLA) i Ysbyty Rampton i ddarparu gofal diogelwch uchel i gleifion o'r Alban, ond oherwydd y pwysau sylweddol am welyau mae gwasanaeth y Rampton yn eu wynebu, mae'n debygol y bydd cleifion benywaidd yn yr Alban sydd angen gofal diogelwch uchel yn wynebu anawsterau gyda chael gafael ar wasanaethau.

Mewn gofal diogelwch canolig/isel yn Yr Alban mae 54 o welyau wedi'u dynodi i gleifion benywaidd a 34 pellach y gellir eu defnyddio i ddynion neu ferched (allan o 439 o welyau i gyd). Nid oes darpariaeth diogelwch canolig ymroddedig i ferched yng Nghymru ac mae nifer gyfyngedig o welyau i ferched mewn uned diogelwch canolig cymysg.

Mae'r dystiolaeth o'r holl awdurdodau'n dangos bod cleifion benywaidd yn arbennig yn cael anawsterau'n symud ymlaen drwy lwybr gofal diogel yn enwedig o ran symud i lawr i ofal diogelwch isel, oherwydd y prinder gwelyau diogelwch isel mewn llawer o ardaloedd. O ganlyniad, roedd 40% o ferched mewn gofal diogelwch isel yn cael eu cadw mewn unedau i ffwrdd oddi wrth, ac yn aml bellter sylweddol o, eu hardal gartref.[84]

**81.** Harty, Somers a Bartlett, 2012, 'Gwasanaethau ysbyty diogel merched: niferoedd a dosbarthiad gwelyau cenedlaethol' yn *Journal of Forensic Psychiatry and Psychology*.
**82.** Harty, Somers a Bartlett, 2012, *ibid*. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009. *A Review of Secure Mental Health Services.*
**83.** Harty, Somers a Bartlett, 2012, *ibid*; Bartlett A et al, 2014. 'Llwybrau gofal i ferched mewn ysbytai diogel' yn *British Journal of Psychiatry*.Gwelwch hefyd Lywodraeth Cynulliad Cymru, 2009. *A Review of Secure Mental Health Services.*
**84.** Harty, Somers a Bartlett, 2012, *ibid*.

Canfu Adolygiad Bamford fylchau mewn darpariaeth yng Ngogledd Iwerddon lle'r oedd problemau'n codi, hyd yn oed gydag agoriad Clinic Shannon (cyfleuster diogelwch canolig), gyda gadael i bobl a drosglwyddwyd y tu allan i Ogledd Iwerddon ddychwelyd, a gyda gadael i bobl symud ymlaen pan fo'n briodol o Glinig Shannon.

Nid oes unedau iechyd meddwl diogel i blant a phobl ifanc sy'n iau nag 18 oed y tu allan i Loegr ac, o ganlyniad, lle mae plant o Gymru a'r Alban neu Ogledd Iwerddon angen gofal iechyd meddwl diogel, mae hyn yn cael ei gontractio ar sail unigol ac maent yn cael eu hanfon i Loegr. Mae hefyd faterion sy'n hysbys ynglŷn â chymhlethdod y broses o drosglwyddo ar draws y ffin fel yma, gyda thribiwnlysoedd iechyd meddwl yn yr Alban yn amharod i ganiatáu mesurau gorfodol pan fo plentyn yn mynd i drosglwyddo'n uniongyrchol o gyfleuster preswyl diogel yn Yr Alban i ysbyty diogel yn Lloegr, heb gael eu rhoi'n gyntaf mewn ysbyty yn Yr Alban.

Mae adolygiad yn Yr Alban o gyfeiriadau a wnaed a'r derbyniadau i wasanaethau diogelwch canolig i blant yn Lloegr dros gyfnod o 10 mlynedd wedi dod i'r casgliad bod angen darpariaeth iechyd meddwl diogel i blant yn Yr Alban, ac mae gwaith yn digwydd yn awr i ddatblygu uned fel gwasanaeth cenedlaethol.[85]

*Lefelau diogelwch*

Mae aelodau NPM wedi nodi, er bod consensws cyffredinol erbyn hyn am ddiffiniad y lefelau diogelwch, sy'n canolbwyntio ar elfennau diogelwch corfforol, gweithdrefnol a pherthynol, mae amrywiadau o hyd yn y cyfyngiadau y mae cleifion yn eu profi ar wahanol lefelau o ddiogelwch.[86] Soniodd rai cleifion yn Yr Alban wrth MWCS eu bod wedi profi amodau mwy cyfyngol mewn wardiau diogelwch isel nag mewn wardiau diogelwch canolig. Daeth y materion yma'n amlwg wrth i gleifion symud o amgylch y system.

Yn ogystal, mae angen bod yn fwy eglur ynglŷn â sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yngylch y lefel o ddiogelwch sy'n briodol i sicrhau bod unigolion yn cael eu cadw yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngol ag sy'n bosibl, o dan amodau nad ydynt ar lefel uwch o ddiogelwch nag sydd wedi'i gyfiawnhau gan lefel y risg y maent yn ei chyflwyno iddynt eu hunain neu i eraill. Mae rhai adroddiadau'n awgrymu bod penderfyniadau ynglŷn â lleoli i lefel ddiogelwch benodol yn gallu bod yn fympwyol,[87] ac mae pobl wedi lleisio pryder ynglŷn ag ansicrwydd ar amser derbyn cleifion a ydynt yn cael eu derbyn i wasanaeth sy'n darparu lefel briodol o ddiogelwch i ateb eu hanghenion.

**85.** Llywodraeth Yr Alban, 2017, *Mental Health Strategy 2017–27*, tudalen 25 a Gweithred 20.
**86.** Panel Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Iechyd Meddwl 2013, *Guidance for commissioners of forensic mental health services,* tud 7, https://www.jcpmh.info/wp-content/uploads/jcpmh-forensic-guide.pdf [cyrchwyd 13/11/17].
**87.** David Melzer Dr, Brian DM Tom, Traolach Brugha, Tom Fryers, Rebecca Gatward, Adrian Grounds, Tony Johnson a Howard Meltzer, 2014, *Access to medium secure psychiatric care in England and Wales. 1: A national survey of admission assessments*. Y Ganolfan Iechyd Meddwl a'r Uned Datblygiad Iechyd Meddwl Cenedlaethol, 2011, *Pathways to unlocking secure mental health care*.

Mae aelodau'r NPM wedi canfod diffyg eglurder ynglŷn â swyddogaeth gwasanaethau iechyd meddwl diogelwch canolig ac isel. Daeth MWCS i'r casgliad yn ddiweddar bod dau grŵp amlwg o gleifion yn gyffredinol sy'n cael eu cadw mewn gwasanaethau diogelwch isel – pobl gyda hanes fforensig sydd wedi trosglwyddo i lawr o lefelau diogelwch uchel, a phobl sydd wedi cael eu trosglwyddo i mewn i wasanaethau diogelwch isel am fod wardiau seiciatrig cyffredinol yn cael anhawster rheoli ymddygiad cynhyrfus, pryderus a straen. Yr olaf yma oedd y sefyllfa fwyaf cyffredin, gyda chleifion yn symud i mewn i wasanaethau diogelwch canolig neu isel am eu bod wedi bod yn anodd eu cefnogi mewn gofal iechyd meddwl prif ffrwd wrth iddynt fynd drwy gyfnod dwys o salwch, yn hytrach nag am fod y driniaeth mewn lleoliad diogel wedi'i ddewis oherwydd unrhyw risg y maent yn ei greu.[88]

Mae pryderon bod y diffyg symudiad o ofal diogel i leoliadau cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu (sef canran sylweddol o'r rheiny mewn unedau diogelwch isel a chanolig yn y DU) yn golygu eu bod yn cael eu rhoi mewn lefelau uwch o ddiogelwch nag sy'n ofynnol. Mae hefyd wedi arwain at sefyllfa lle mae cleifion Albanaidd sydd ag anabledd dysgu'n cael eu trosglwyddo i unedau yn Lloegr oherwydd diffyg darpariaeth ar lefel ddiogelwch benodol, sy'n arwain yn ei dro at anawsterau gyda threfnu trosglwyddiadau yn ôl.

Yn yr un modd, mae cleifion gydag anhwylder personoliaeth yn aros mewn gofal diogel, neu ar lefel ddiogelwch arbennig, am nad oes gwasanaethau camu i lawr.

Ystyrir bod cyflwyno apeliadau diogelwch gormodol yn Yr Alban (dim ond mewn perthynas â'r State Hospital diogelwch uchel ar y cychwyn) wedi bod yn yrrwr pwysig yn natblygiad y gwasanaethau diogelwch canolig a, lle mae apêl yn llwyddiannus, mae'n gadael i gleifion gael lle ar lwybrau drwy leoliadau cadw. Yn yr Alban, o fis Tachwedd 2015 hyd fis Mawrth 2017, ar ôl i'r hawl i apelio gael ei ymestyn i ysbytai diogelwch lefel ganolig yn Neddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015, derbyniodd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Iechyd Meddwl 56 o geisiadau yn ymwneud â chleifion yn cael eu cadw mewn diogelwch gormodol. O'r rhain, roedd 23 yn llwyddiannus. Yn ogystal, cafodd saith o'r 56 o bobl eu trosglwyddo i leoliad diogelwch is cyn gwrandawiad tribiwnlys.

Un pryder cyson yw bod llwybrau drwy ofal diogel wedi eu rhwystro yn aml iawn ac unwaith mae cleifion mewn gofal iechyd meddwl diogel, maent yn mynd yn glwm yn y system. Goblygiadau hyn yw bod llawer o bobl yn cael eu dal mewn diogelwch gormodol. Mae'r angen i ymdrin â'r mater yma wedi derbyn cydnabyddiaeth, ynghyd â'r ffaith fod angen diffinio, safoni ac integreiddio gwasanaethau'n well yn rhan o ddull llwybrau cyfan o fewn a thu hwnt i ofal diogel.[89]

Yn Lloegr, mae CQC wedi clywed am bryderon gan glinigwyr a chleifion ynglŷn ag achosion o oedi wrth geisio cael caniatâd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i adael neu drosglwyddo, gan ystyried yr anawsterau staffio presennol yn adran gwaith achosion y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n destun pryder arbennig y galli oedi o'r fath achosi i gleifion aros yn yr ysbyty, neu ar lefelau penodol o ddiogelwch yn yr ysbyty, am gyfnodau hirach nag sy'n angenrheidiol yn glinigol.

**88.** Y Ganolfan Iechyd Meddwl a'r Uned Datblygu Iechyd Meddwl Cenedlaethol, 2011, *Pathways to unlocking secure mental healthcare.*
**89.** Y Tasglu Iechyd Meddwl, 2016. *The five year forward view for mental health.*

## Casgliad

Er bod cytundeb cyffredinol ar draws ac o fewn awdurdodaethau am bwrpas gofal iechyd meddwl diogel ac y dylid cael llwybrau clir rhwng lefelau o ddiogelwch a mathau o ofal, mewn llawer o achosion nid yw cleifion yn gallu derbyn y gwasanaethau cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir.

Croesewir y ffaith fod ffocws cynyddol ar ddatblygu safonau ac adolygu a gwella ansawdd gofal a thriniaeth mewn lleoliadau diogel, a bod y mwyafrif o'r heriau yn narpariaeth y gwasanaethau, yn cynnwys y diffyg cydlyniad wrth gynllunio a chomisiynu, wedi cael eu cydnabod.

Fodd bynnag, mae'r anawsterau a ddisgrifiwyd yn gallu cael effaith sylweddol ar gleifion unigol, sy'n dechrau teimlo'n rhwystredig oherwydd yr oedi, ac sy'n gallu colli diddordeb yn eu triniaeth pan maent yn ymwybodol y dylent fod yn symud ymlaen, gyda risgiau'n codi o ganlyniad i hynny y gallai eu hiechyd meddwl ddirywio. Mae llawer o gleifion yn gorffen ymhell o adref o ganlyniad i lwybrau aneffeithiol neu ddiffyg llwybrau, a gall hyn gyfaddawdu'r gwaith o gynllunio adsefydliad a rhyddhau, yn enwedig wrth gynllunio symud o ofal diogel i leoliad cymunedol, a allai fod bellter o'r uned cleifion mewnol.

## Llwybrau o ddalfa'r heddlu sy'n codi o broblemau iechyd meddwl[90]

Ystyriodd aelodau'r NPM y llwybrau o ddalfa'r heddlu sy'n codi oherwydd pryder gan yr heddlu (yn cynnwys, er enghraifft, swyddogion restio, staff y ddalfa a staff gofal iechyd yn gweithio yn y ddalfa) am iechyd meddwl y sawl sy'n cael ei gadw. Penderfynodd aelodau'r NPM ganolbwyntio ar hyn am fod eu gwaith monitro rheolaidd yn tynnu sylw at nifer gynyddol o bobl sy'n cael eu cadw yn nalfa'r heddlu sy'n fregus oherwydd problemau iechyd meddwl.

Mae dwy sefyllfa lle gellid bod angen y llwybrau yma. Yn gyntaf, pan fydd rhywun yn cael eu cadw gan yr heddlu o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl perthnasol (fe 'lle diogel') ac, yn ail, pan fydd rhywun sy'n cael ei gadw wedi cael ei restio am drosedd a gwelir bod materion iechyd meddwl yn ffactor risg yn ystod yr asesiad cychwynnol gan swyddog y ddalfa, ac mae asesiad pellach gan nyrs neu feddyg fforensig yn codi rhagor o bryderon. Yn y ddau achos, gallai'r heddlu geisio cael trosglwyddo'r person yma i leoliad iechyd meddwl er mwyn eu diogelwch eu hun neu i hwyluso asesiad iechyd meddwl. Felly mae'r llwybr yn digwydd fel arfer pan drosglwyddir y person o ystafelloedd y ddalfa i gyfleuster iechyd meddwl. Gallai'r person gael eu trosglwyddo yn ôl yn ddiweddarach i ddalfa'r heddlu, er enghraifft, pan fydd asesiad wedi digwydd. Gallai llwybr pellach godi pan drosglwyddir rhywun a gedwir o ddalfa'r heddlu i ddalfa'r llys (i ymddangos gerbron y llys ar ôl y cyhuddiad er mwyn i benderfyniad gael ei wneud p'un ai i'w roi ar fechnïaeth neu i'w roi ar remand) ac mae mater iechyd meddwl yn codi sy'n gofyn am drosglwyddiad i leoliad iechyd.

**90.** Casglwyd data a gwybodaeth am y pwnc yma rhwng Medi 2016 ac Ebrill 2017 gan ICVA, NIPB ICVS a CJI. Bu ymwelwyr â sefydliadau cadw o'r NIPBICVS ac ICVA yn casglu data gan ddefnyddio set ddata wedi'i diffinio'n barod a gasglwyd gan y Rheolwr Cynllun yn yr NIPM ac yn Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Caint (OPCC), yn y drefn honno, yn ystod eu hymweliadau rheolaidd â'r ddalfa. Ymatebodd naw allan o'r 42 Cynllun ICV (ac OPCCs cysylltiedig) i'r arolwg. Nid oedd CJI yn gwneud gwaith arolygu mewn perthynas â dalfa'r heddlu felly defnyddiodd yr wybodaeth a gasglodd yn ystod arolwg 2015 a thrwy grŵp ffocws gyda swyddogion dalfa. Roedd aelodau'r NPM yn Yr Alban (HMICS ac ICVS Yr Alban) wedi gobeithio cyfrannu ond oherwydd systemau traddodiadol y ddalfa ni allai Heddlu'r Alban gael gafael ar unrhyw ddata ystyrlon.

Mae'n hanfodol pennu ac asesu materion iechyd meddwl yn gywir yn nalfa'r heddlu er mwyn sicrhau fod pobl sy'n cael eu cadw yn derbyn cefnogaeth a thrinaeth iawn ar y cam cynharaf. Gallai methiant i ddarparu hyn arwain o bosib nid yn unig at ddirywiad yn iechyd meddwl y sawl sy'n cael ei ddal, ond gallai hefyd rwystro'r broses cyfiawnder troseddol.

## Y fframwaith cyfreithiol a pholisïau

Mae deddfwriaeth iechyd meddwl yn llywio'r defnydd a wneir o ddalfa'r heddlu fel lle diogel yng Nghymru a Lloegr[91] a Gogledd Iwerddon.[92] Pan fydd Deddf Plismona a Throsedd 2017 yn dod i rym yng Nghymru a Lloegr, ni fydd dalfa'r heddlu'n lle o ddiogelwch mwyach i blant, a dylent ond gael eu defnyddio o dan amgylchiadau eithriadol i oedolion (ni fydd y prinder lleoedd diogel ar sail iechyd yn cael ei ystyried yn amgylchiad eithriadol). Yn yr Alban, nid yw deddfwriaeth iechyd meddwl yn ystyried gorsaf heddlu yn 'lle o ddiogelwch' heblaw lle does dim llety addas arall ar gael.[93] Ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth yma, mae cytundebau penodol wedi eu datblygu rhwng yr heddlu a phartneriaid gofal iechyd yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr a Chymru (er enghraifft, memorandwm o ddealltwriaeth, protocol amlasiantaeth, ac ati) sy'n darparu arweiniad ar waith amlasiantaeth rhwng yr heddlu a phartneriaid iechyd, gan gynnwys ym maes darpariaeth iechyd meddwl.[94] Yn yr Alban, mae Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl yn annog yr heddlu, y GIG a'r awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Argyfwng Seiciatrig lleol.

## Argaeledd data

Canfu aelodau'r NPM amrywiaeth eang yn argaeledd y data sy'n ymwneud â'r llwybrau allan o ddalfa'r heddlu i leoliadau iechyd meddwl.

Mae data am y nifer o bobl sydd wedi eu cadw mewn gorsafoedd heddlu o dan ddarpariaethau lle diogel wedi ei gyhoeddi gan y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon, mae gofyniad i roi adroddiad wedi ei gyflwyno o dan Adran 156 y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016, ond nid yw hon wedi dod i rym eto. Yn yr Alban, mae'r Comisiwn Lles Meddyliol yn cyhoeddi'n flynyddol faint o bobl sy'n cael eu cadw o dan ddarpariaethau lle diogel, a faint ohonynt sy'n cael eu dal mewn gorsaf heddlu.[95] Cyhoeddodd y Comisiwn ddadansoddiad mwy manwl yn 2016.[96]

Roedd cynlluniau'r Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau wedi gwneud eu dadansoddiad eu hunain o ddata Adran 136 a chanfu hwn bod cynnydd yn y defnydd cyfan a wneir o bwerau Adran 136, ond bod nifer y bobl a gedwir ac a gymerir i ddalfa'r heddlu wedi gostwng yn y ddwy flynedd ddiwethaf.  I oedolion roedd hyn i lawr o 6,667 yn 2013-14 i 2,100 yn 2015-16, sef cwymp o 68.5%; i blant roedd i lawr o 256 yn 2013-14 i 43 yn 2015-16, sef gostyngiad o 83.2%. Yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, roedd y niferoedd yn llawer is (pump wedi'u cadw yn 2015-16 ac yn 2016-17 yng Ngogledd Iwerddon a saith wedi'u cadw yn 2015-16 yn Yr Alban).

**91.** Mae Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) yn darparu bod cwnstabl yn symud person sy'n ymddangos fel pe bai ganddo/ganddi anhwylder meddwl o le cyhoeddus i le o ddiogelwch am hyd at 72 o oriau i'r pwrpasau penodol. Gallai'r lle diogel fod yn orsaf heddlu neu'n ysbyty (yn aml yn ystafell Adran 136 arbennig).
**92.** Mae Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986 yn gwneud darpariaeth debyg i honno yng Nghymru a Lloegr. Roedd Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016 yn cadw'r ddarpariaeth yma.
**93.** Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) yr Alban 2003, adran 297.
**94.** Yng Ngogledd Iwerddon, nid oedd hyn wedi'i lofnodi eto.
**95.** Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban, 2016, *Mental Health Act Monitoring 2015–16*, http://www.mwcscot.org.uk/media/342871/mental_health_act_monitoring_2015-16.pdf [cyrchwyd 13/11/17].
**96.** Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban, 2017, *Place of Safety Monitoring Report 2016*, http://www.mwcscot.org.uk/media/373113/place_of_safety_monitoring_report_2016.pdf [cyrchwyd 13/11/17].

Er bod casglu data am Adran 136 a darpariaethau tebyg mewn blynyddoedd diweddar yn ddatblygiad i'w groesawu, mae pryderon ynglŷn â pha mor gyfyngedig yw'r data sydd ar gael.[97] Ymhellach nid oes data ar gael o unrhyw le yn y DU am faint o bobl a gedwir, nad ydynt yn cael eu dal o dan ddeddfwriaeth 'lle diogel', sydd angen cael eu trosglwyddo i gyfleuster iechyd meddwl yn dilyn cyfnod o amser yn nalfa'r heddlu. Mae aelodau'r NPM yn pryderu nad oes data ar gael am y nifer (uwch o bosib) o unigolion a drosglwyddir i gyfleusterau iechyd meddwl, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael eu restio am drosedd, neu wedi cyflawni trosedd.

### Opsiynau amgen i ddalfa'r heddlu ar gyfer y rheiny gyda phroblemau iechyd meddwl

Mae NPM yn rhannu pryderon eang ynglŷn â pha mor briodol yw dalfa'r heddlu i'r rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl, naill ai fel lle o ddiogelwch neu i'r rheiny gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol sydd wedi dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.[98]

Yng Nghymru a Lloegr sicrhawyd gostyngiad yn y defnydd a wneir o ddalfa'r heddlu ar gyfer cadw pobl o dan Adran 136 drwy gynyddu'r ddarpariaeth ac argaeledd lleoedd diogel ar sail iechyd (HBPoS). Yn 2013-14, cymerwyd 74.5% o bobl wedi'u cadw o dan Adran 136 i HBPoS, erbyn 2015-16 roedd hyn wedi codi i 92.6%. Yn Yr Alban, mae'r rhesymau am y gostyngiad mewn defnyddio gorsafoedd yr heddlu'n aneglur, ac mae amrywiadau rhanbarthol eang yn awgrymu bod anghysonderau o bosibl yn arferion yr heddlu, naill ai yn y ffordd y maent yn defnyddio'r ddeddfwriaeth neu yn y ffordd y maent yn cofnodi ei defnydd.

Cafwyd ystod o fentrau i geisio darparu opsiynau amgen i, neu lwybrau rhwyddach allan o, ddalfa'r heddlu i bobl sy'n cael eu cadw gyda phroblemau iechyd meddwl. Yn y gorffennol cynhaliodd Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) ddau gynllun peilot yn nalfa'r heddlu; un yn cynnwys nyrsys seiciatryddol cymunedol ac un yn cynnwys timau cyfeirio cyffuriau ac alcohol, ond daeth y rhain i ben pan gollwyd yr ariannu. Mae PSNI yn ystyried defnyddio gwasanaeth brysbennu ar y stryd erbyn hyn ar gyfer gofal argyfwng yn dilyn cynlluniau peilot llwyddiannus yn Lloegr. Yn yr Alban mae Heddlu'r Alban wedi datblygu hyfforddiant i swyddogion i godi ymwybyddiaeth o drallod iechyd meddwl, ac mae cynllun brysbennu cymunedol yn cynnwys cefnogaeth gan nyrsys seiciatryddol cymunedol wedi cael ei dreialu yn Glasgow a Chaeredin.[99] Yng Nghymru a Lloegr, dylai nyrsys dargyfeirio a chyswllt gefnogi'r llwybr allan o sefydliadau cadw. Mae hyn yn gweithio'n effeithiol mewn rhai ardaloedd, ond mewn eraill soniodd yr ymwelwyr â sefydliadau cadw bod llai o nyrsys ar gael am fod yr adnodd yn cael ei rannu ar draws ardal heddlu ehangach neu am fod

**97.** Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, 2015, *The welfare of vulnerable people in police custody*, pp47–49 [cyrchwyd 13/11/17].
**98.** Gwelwch yr Adran Iechyd, 2009, *The Bradley Report: Lord Bradley's review of people with mental health problems or learning disabilities in the criminal justice system*.
**99.** Llywodraeth yr Alban 2017, *Mental Health Strategy 2017–2027*.

prinder gweithwyr proffesiynol cymeradwy ym maes iechyd meddwl. Cafodd hyn, ochr yn ochr â'r diffyg adeiladau addas, effaith niweidiol ar ba mor gyflym roedd pobl a gadwyd yn cael eu trosglwyddo allan o ofal yr heddlu i leoliadau iechyd ehangach. Nod y mathau yma o gynlluniau yw sicrhau bod asesiadau iechyd meddwl priodol yn cael eu gwneud ar y cyfle cynharaf bosib; i ddargyfeirio'r rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl i ffwrdd oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ac i sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth iechyd meddwl priodol yn nalfa'r heddlu a thu hwnt.

## Pryderon NPM

Roedd y diffyg mannau addas mewn sefydliadau iechyd (er enghraifft lle o ddiogelwch ar gael mewn adrannau argyfwng ysbytai neu leoedd mewn ysbytai iechyd meddwl) yn rhwystr rheolaidd i lwybrau effeithiol ac effeithlon allan o ddalfa'r heddlu, er nad yw'r data sydd ar gael yn taflu goleuni ar faint y broblem yma. Yng ngwaith monitro aelodau'r NPM canfuwyd nifer o broblemau'n codi 'or diffyg lleoedd oedd ar gael mewn sefydliadau gofal iechyd i dderbyn y rheiny yn nalfa'r heddlu: oedi wrth drosglwyddo unigolyn allan o ddalfa'r heddlu, effaith negyddol yr amser a dreuliwyd yn nalfa'r heddlu ar yr unigolyn a ddaliwyd (yn cynnwys gwaethygu eu problemau iechyd meddwl), a diffyg asesiad iechyd meddwl go iawn a gofal iechyd meddwl priodol.

Yn ogystal, cododd anawsterau pan oedd y sawl oedd yn cael ei gadw o dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau oherwydd gallai pobl broffesiynol fod yn amharod i dderbyn yr unigolyn, yn arbennig os oeddent yn ymosodgar. Gallai hefyd fod yn anodd i'r heddlu ganfod a oedd gan yr unigolyn broblem iechyd meddwl neu a oeddent o dan ddylanwad cyffuriau. Mae prinder hyfforddiant neu ymwybyddiaeth am faterion iechyd meddwl wedi cyfrannu at hynny. Yn olaf, roedd aelodau'r NPM yn bryderus y gallai nifer yr unigolion oedd yn cael eu hebrwng i ystafelloedd y ddalfa oedi'r broses o adnabod problemau iechyd meddwl a'r angen am fewnbwn gan y gwasanaethau iechyd meddwl.

## Casgliad

Cafwyd sylw sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf i sefyllfa pobl a gedwir yn nalfa'r heddlu sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol. Er bod rhai gwelliannau wedi digwydd mewn perthynas â'r ddibyniaeth ar ddalfa'r heddlu fel lle o ddiogelwch yng Nghymru a Lloegr, ac mae'r niferoedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymddangos yn isel, mae angen rhoi mwy o sylw i gryfhau argaeledd ac effeithiolrwydd y llwybrau allan o ddalfa'r heddlu. Mae prinder lleoedd mewn sefydliadau iechyd meddwl y gellir trosglwyddo pobl a gedwir iddynt yn broblem sylweddol, ac mae aelodau'r NPM wedi canfod problemau hefyd yn ymwneud â pharodrwydd darparwyr gofal iechyd i dderbyn unigolion sy'n dioddef problemau iechyd meddwl sydd wedi diweddu yn y pen draw yn nalfa'r heddlu.

Mae'n destun pryder bod diffyg data yn gyffredinol am anghenion iechyd meddwl yn nalfa'r heddlu i hysbysu'r angen am ddarpariaeth iechyd meddwl. Er bod data ar gael mewn perthynas â defnyddio dalfa'r heddlu fel lle o ddiogelwch, mae'n ymddangos nad oes data ar gael am y broblem ehangach o bobl a gedwir yn nalfa'r heddlu sydd angen asesiad iechyd meddwl llawn neu sydd angen cael eu trosglwyddo i sefydliad iechyd meddwl. Heb y data yma, ni all heddluoedd herio darparwyr gofal iechyd na'u cyrff comisiynu ynghylch y diffyg darpariaeth sydd i'w weld, ac ni ellir cymryd camau i ymdrin â hyn.

Yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon mae toriadau ariannol wedi arwain at dynnu neu ostwng nifer y gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl sy'n gweithio yn ystafelloedd dalfeydd yr heddlu. Mae hyn yn gadael yr heddlu (a'r staff iechyd meddwl fforensig sy'n darparu gofal iechyd cyffredinol i bobl sy'n cael eu cadw) yn agored i niwed oherwydd diffyg cymorth a chyngor arbenigol. Mae'r llwybr yn dod yn fwy heriol i'w reoli am nad oes asesiad cynnar gan staff hyfforddedig ac mae mwy o debygolrwydd y bydd angen trosglwyddo'r bobl a gedwir i gyfleuster iechyd meddwl ar gyfer yr asesiad. Gall hyn gynyddu'r risgiau i'r sawl sy'n cael ei g/chadw, oherwydd bydd yn cael ei g/chadw mewn lleoliad amhriodol am gyfnod hirach o amser, ac mae'n cynyddu'r risg i'r swyddog cadw sy'n gyfrifol am gadw'r person yma'n ddiogel a gofalu amdano/amdani. Gallai hefyd olygu bod gan yr heddlu lai o amser i ganfod lle diogel ar sail iechyd cyn y bydd angen gwneud y cyhuddiad neu ryddhau'r person.

### Llwybrau o garchardai i sefydliadau iechyd meddwl[100]

Mae cadw pobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn amhriodol mewn carchardai ac amlygrwydd problemau iechyd meddwl ymysg carcharorion wedi bod yn fater o bryder cyhoeddus dros nifer o flynyddoedd.[101] Mae'r ddarpariaeth gofal iechyd mewn carchardai'n fwy cyffredinol yn bryder cynyddol i aelodau'r NPM, a bydd yn cael ei flaenoriaethu dros y flwyddyn nesaf gan aelodau is-grŵp Albanaidd o'r NPM. Yn ogystal â'r angen i ddarparu gofal iechyd corfforol a meddyliol priodol i'r holl garcharorion, mae aelodau NPM unigol wedi canfod pryderon am sefyllfa carcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol sydd angen triniaeth fel cleifion mewnol, sydd angen llwybr o garchardai i ofal iechyd meddwl diogel.[102] Mae absenoldeb neu ddiffyg hygyrchedd llwybr o'r fath yn gallu achosi risgiau sylweddol o ran y perygl na ellir cynnig triniaeth amserol a phriodol ac atal rhagor o ddirywiad i gyflwr iechyd meddwl.

Daeth y trobwynt o ran deall materion iechyd meddwl yn y system cyfiawnder troseddol yn 2009 gyda chyhoeddi Adroddiad Bradley. O ganlyniad i hwn, rhoddwyd mwy o ffocws ar ddatblygu cynlluniau dargyfeirio a chyswllt i sicrhau bod pobl sydd angen triniaeth ar gyfer anhwylderau iechyd meddwl yn yr ysbyty'n cael eu hadnabod gan yr heddlu a'r llysoedd ac nad ydynt yn cael eu hanfon i'r carchar. Fodd bynnag, er gwaethaf y bwriad i gyflwyno a gweithredu cynlluniau o'r fath, mae gwaith ymchwil yn dangos y cafwyd dirywiad o fwy na 25% yn y defnydd a wneir o archebion ysbyty (sy'n caniatáu i ddiffynyddion gael eu hanfon am ofal meddygol yn lle derbyn dedfryd yn y carchar) ers 2011.[103]

**100.** Gwnaed chwiliad o ddeunydd gwybodaeth i hysbysu datblygiad y prosiect yma, Darparwyd mewnbwn gan CJINI, HIW, HMIPS, IMB, IMBNI, MWCS a RQIA.

**101.** Gwelwch yr Adran Iechyd, 2009, *The Bradley Report: Lord Bradley's review of people with mental health problems or learning disabilities in the criminal justice system.*

**102.** Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant, yr Awdurdod Rheoliadau a Gwella Ansawdd, 2016, *Report on an unannounced inspection of Hydebank Wood Secure College 9–19 May 2016; Report on an unannounced inspection of Ash House Women's Prison, Hydebank Wood 9–19 May 2016; Report on an unannounced inspection of Maghaberry Prison 11–22 May 2015* (ac adroddiadau dilynol wedyn) Arolygiaeth Carchardai EM 2017, *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2016–17*. Arolygiaeth Carchardai EM yr Alban, 2008, *Out of Sight: Severe and Enduring Mental Health Problems in Scotland's Prisons*.

**103.** Yeung. P, 2016 'Cynnydd mewn carcharorion a symudwyd i ysbytai iechyd meddwl' yn The Guardian, 14 Medi 2016.

Tabl 1: Offerynnau deddfwriaethol

| | Trosglwyddo person o'r carchar sy'n dioddef anhwylder meddyliol y mae triniaeth feddygol ar gael iddo/iddi yn yr ysbyty | Trosglwyddo o'r ysbyty i'r carchar ar ôl cwblhau triniaeth feddygol yn yr ysbyty |
|---|---|---|
| **Cymru a Lloegr** | Deddf Iechyd Meddwl 1983 Adran 47, Adran 48 ac Adran 49 (cyfyngiadau) | Deddf Iechyd Meddwl 1983 Adran 50 |
| **Gogledd Iwerddon** | Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986 Erthygl 53 a 54 (symud i'r ysbyty) | Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986 Erthyglau 56 a 57 |
| **Yr Alban** | Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003 Adran 136 | Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003 Adran 216(2) *[Revocation by Scottish Ministers]* |

## Fframwaith cyfreithiol a pholisïau

Yn y DU ni chaniateir rhoi triniaeth seiciatryddol anwirfoddol i bobl sy'n cael eu cadw mewn carchardai, i ddiogelu pobl sy'n cael eu cadw rhag camdriniaeth bosibl. Yn lle hynny, mae fframweithiau deddfwriaethol ar draws y DU yn darparu ar gyfer trosglwyddo pobl a gedwir i'r ysbyty pan fyddent angen asesiad a thriniaeth am anhwylder meddyliol, a'u dychwelyd wedyn i'r carchar pan fo'r cyfnod o salwch wedi dod i ben (gwelwch Dabl 1).

Mae codau ymarfer yn tywys gofal a thriniaeth priodol o dan ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae un yn cael ei ddrafftio yng Ngogledd Iwerddon.[104]

I gychwyn y broses o drosglwyddo rhywun o garchar i'r ysbyty, a vice versa, mae angen cyfarwyddyd trosglwyddo er mwyn darparu caniatâd cyfreithiol. Yng Nghymru a Lloegr, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder sy'n darparu'r cyfarwyddyd yma, yng Ngogledd Iwerddon y Gweinidog Cyfiawnder sy'n gwneud hynny, ac yn yr Alban, y Gweinidogion Albanaidd sy'n ei gynhyrchu. Nid oes hawl apelio gan garcharorion sydd ddim eisiau cael eu trosglwyddo o garchar i ysbyty, er bod rhai cleifion (yn cynnwys yr holl gleifion sy'n cael eu trosglwyddo o'r carchar yn Yr Alban) yn gallu gwneud cais i dribiwnlys i ddiddymu'r trosglwyddiad unwaith mae wedi dod yn weithredol.

Ar ôl yr argymhelliad yn adroddiad Bradley y dylai carcharorion sydd angen asesiad a thriniaeth mewn ysbyty gael eu trosglwyddo o'r carchar i'r ysbyty o fewn 14 diwrnod, cyflwynwyd canllawiau yng Nghymru a Lloegr gyda'r bwriad y dylid trosglwyddo carcharor i uned iechyd meddwl o fewn 14 diwrnod i'r argymhelliad meddygol cyntaf ar gyfer trosglwyddo.[105] Yn ystod yr 14 diwrnod yma, rhaid oedd ceisio ail farn feddygol a dylid cwblhau'r holl dasgau gweinyddol, yn cynnwys canfod gwely. Yn yr Alban, unwaith mae'r gyfarwyddeb wedi'i llofnodi gan Weinidogion Albanaidd, mae'n rhaid i'r trosglwyddiad ddigwydd o fewn saith diwrnod, er nad yw'r Ddeddf yn pennu cyfnod penodol o amser cyn y mae'n rhaid penderfynu'r Cyfarwyddyd.

**104.** Cymru a Lloegr: *Mental Health Act 1983: Code of Practice* (2015) pennod 22, Yr Alban: *Mental Health (Care and Treatment) (Scotland) Act Code of Practice*, Cyfrol 3. Pwerau gorfodol mewn perthynas â Throseddwyr Anhwylderau Meddyliol.
**105.** Yr Adran Iechyd, 2011, *The transfer and remission of adult prisoners under s47 and s48 of the Mental Health Act.*

## Yn ymarferol

Gofynnodd yr NPM am ddata ar y nifer o drosglwyddiadau o garchardai i ysbytai a chafodd ei hysbysu bod 1,083 o drosglwyddiadau yn Lloegr yn 2016-17 (983 o ddynion a 100 o ferched), 15 yng Ngogledd Iwerddon (12 o ddynion sy'n oedolion, un dyn ifanc a dwy fenyw) a 57 yn yr Alban (50 o ddynion a saith o fenywod).[106] Mae gwybodaeth a gafwyd drwy gais rhyddid gwybodaeth a nodwyd mewn erthygl bapur newydd yn awgrymu bod y nifer o garcharorion sy'n ddynion yn cael eu trosglwyddo i'r ysbyty wedi cynyddu o fwy na 20% rhwng 2011 a 2014 yng Nghymru a Lloegr.[107] Y data mwyaf diweddar a welsom yn dangos y nifer o gleifion a ddychwelodd o'r ysbyty i'r carchar oedd 305 yn ystod 2015.[108] Yn 2016, trosglwyddwyd 1,175 o garcharorion i ysbyty diogel o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yr oedd 104 ohonynt yn ferched a 1,071 yn ddynion.[109]

Nid yw'r holl garchardai'n cymryd rhan mewn trosglwyddo pobl sy'n cael eu cadw i ysbytai diogel i dderbyn triniaeth, ac yn Lloegr yn 2016-17, nid oedd 31 allan o 122 wedi cychwyn unrhyw drosglwyddiadau ac roedd 80 o garchardai wedi cael 12 neu lai o drosglwyddiadau. Roedd y mwyafrif o drosglwyddiadau'n dod o garchardai categori A a B oedd ag unedau 'cleifion mewnol' a lle'r oedd y carcharorion gydag anhwylder meddwl difrifol yn cael eu cadw fel arfer.[110]

Mae'n ymddangos nad oes unrhyw gofnod canolog o faint o garcharorion sy'n aros i gael eu trosglwyddo i ysbyty diogel ar hyn o bryd.[111]

Tabl 2: Y 10 carchar yn Lloegr y trosglwyddwyd y mwyafrif o drosglwyddiadau carchar i ysbytai ohonynt

| Carchar | Rhyw y person a gedwir | Categori diogelwch | Nifer y trosglwyddiadau Deddf Iechyd Meddwl o'r carchar i'r ysbyty a gychwynwyd a/neu a gwblhawyd yn 2016-17 |
|---|---|---|---|
| **Pentonville** | Dynion | B | 106 |
| **Wandsworth** | Dynion | B | 66 |
| **Caerlŷr** | Dynion | B | 50 |
| **Woodhill** | Dynion | B | 37 |
| **Belmarsh** | Dynion | A | 33 |
| **Long Lartin** | Dynion | A | 33 |
| **Thameside** | Dynion | B | 33 |
| **Wormwood Scrubs** | Dynion | B | 31 |
| **Bronzefiled** | Merched | B | 30 |
| **Preston** | Dynion | B | 27 |

**106.** Efallai na fydd data o wahanol awdurdodaethau'n cael eu casglu mewn ffyrdd safonol a gallai diffiniadau amrywio, felly nid yw'r data yma'n gymaradwy ac efallai na fydd yn gwbl gywir.
**107.** Yeung. P. 2016, 'Cynnydd mewn carcharorion a symudwyd i ysbytai iechyd meddwl' yn *The Guardian*, 14 Medi 2016.
**108.** GIG Lloegr, 2017, Tystiolaeth ysgrifenedig i ymholiad y Pwyllgor Cyfiawnder ar rymuso llywodraethwyr, http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/justice-committee/prison-reform/written/46720.html [cyrchwyd 13/11/17].
**109.** Hansard, 2017, Carcharorion: Salwch Meddwl, Ateb ysgrifenedig i David Hanson AS, 12 Medi 2017.
**110.** Dogfen Waith Cronfa Ddata Ganolog GIG Lloegr 090617 PT MH Asesiadau a Throsglwyddiadau Diogel (gohebiaeth e-bost rhwng Arolygiaeth Carchardai EM a GIG Lloegr).
**111.** Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2017, *Mental Health in Prisons*, paragraff 3.37, https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2017/06/Mental-health-in-prisons.pdf [cyrchwyd 13/11/2017].

Materion a bennwyd gan aelodau'r NPM

*Lleoliad priodol*

Mae'r safonau hawliau dynol rhyngwladol yn nodi'r gofyniad bod 'Carcharorion sydd angen triniaeth arbenigol [...] yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau arbenigol neu i ysbytai sifil'.[112] Mae aelodau NPM wedi codi pryderon yn aml yn eu hadroddiadau arolygu am briodoldeb amgylchedd y carchar i bobl mewn sefydliadau cadw gyda phroblemau iechyd meddwl.

Mae'n destun pryder arbennig bod carcharorion sy'n aros i gael eu trosglwyddo i'r ysbyty yn aml yn cael eu canfod mewn unedau gwahanu.[113] Yn ystod ei ymweliad yn 2016, nododd y Pwyllgor Ewropeaidd ar gyfer Atal Artaith (CPT) bod yr uned gofal iechyd cleifion mewnol yng Ngharchar EM Pentonville yn cael ei defnyddio'n bennaf i ddal cleifion seiciatryddol, a daeth i'r casgliad na ddylai unedau o'r fath 'ddod yn fannau i ddisodli trosglwyddiad claf i gyfleuster pwrpasol'.[114] Canfuwyd pryderon tebyg gan Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi a ddywedodd bod cleifion sy'n aros i drosglwyddo yn cael eu rheoli naill ai yn yr uned cleifion mewnol, yr uned gwahanu neu ar goridorau agored ar yr adenydd, ac nad oedd eu hanhwylderau meddwl yn cael eu hasesu na'u trin yn y tri amgylchedd fel fyddai'n digwydd mewn cyfleuster ysbyty. Mewn lle gwahanu ac ar yr adenydd, byddai eu helfennau agored i niwed yn amlwg, a gallai hyn arwain at ddirywiad posibl yn eu cyflwr meddyliol.[115]

Adroddodd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf bod carchardai wedi ceisio trefnu trosglwyddiadau i'r ysbyty i un ymhob 10 o'r 139 o garcharorion oedd wedi marw o hunanladdiad rhwng 2012 a 2014 ac wedi canfod problemau iechyd meddwl ar y pryd.[116] Canfu'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf achosion pellach lle nad oedd carcharorion wedi derbyn cefnogaeth briodol ar gyfer eu problemau iechyd meddwl, tra'r oeddent yn aros am drosglwyddiad neu'n aros i gael eu hasesu ar gyfer trosglwyddiad i ysbyty diogel.

**Astudiaeth achos – Dean Saunders**

Ar 4 Ionawr 2016, roedd carcharor 25 oed oedd yn cael ei ddal yng Ngharchar EM Chelmsford, Dean Saunders, wedi ei ladd ei hun. Roedd yr archwiliad annibynnol i'w farwolaeth, a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, wedi nodi bod seiciatrydd carchar wedi asesu ar 21 Rhagfyr 2015 bod Mr Saunders yn addas i'w drosglwyddo i ysbyty diogel, ond ni chwblhaodd yr argymhelliad cyntaf oedd ei angen ar gyfer trosglwyddiad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl am nad oedd gan yr ysbyty diogel lleol wely ar gael. Cwblhawyd yr argymhelliad cyntaf nifer o ddyddiau yn ddiweddarach ar 31 Rhagfyr. Er bod gan yr ysbyty lleol le i Mr Saunders, roedd staff gofal iechyd y carchar yn credu eu bod angen ail argymhelliad gan seiciatrydd y carchar, a oedd ar wyliau hyd 5 Ionawr, pan fyddai llofnod gan unrhyw feddyg arall wedi

**112.** Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throsedd, 2015, *The United Nations Standard Minimum Rules for the Treatment of Prisoners (the Nelson Mandela Rules)*, Rule 27.

**113.** Gwelwch, er enghraifft, Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant, Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoliadau, 2016, *Report on an unannounced inspection of Ash House Women's Prison, Hydebank Wood 9–19 May 2016*; Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *Report on an announced inspection of HMP Pentonville, 9–13 January 2017.*

**114.** Pwyllgor ar gyfer Atal Artaith, *Report to the Government of the United Kingdom on the visit to the United Kingdom carried out by the European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (CPT) from 30 March to 12 April 2016*, CPT/Inf (2017) 9, paragraff 66.

**115.** Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *Report on an announced inspection of HMP Pentonville, 9–13 January 2017.*

**116.** Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, 2016, *Learning from PPO Investigations: Prisoner mental health.* Ni wyddys a fyddai'r marwolaethau wedi digwydd os byddai'r carcharor wedi bod mewn ysbyty yn hytrach nag yn y carchar.

bod yn dderbyniol. Roedd hyn yn golygu, er bod y rheiny oedd yn ymwneud â'i ofal yn cytuno nad y carchar oedd y lle iddo ef, collwyd y cyfle i drosglwyddo Dean Saunders i leoliad mwy addas mewn ysbyty. Yn eu tystiolaeth i'r Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, dywedodd rhieni Dean Saunders bod pobl wedi dweud wrthynt am beidio poeni, ei fod 'yn ddiogel nes y gallwn gael trosglwyddiad iddo'. Daeth yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf i'r casgliad bod y system cyfiawnder troseddol wedi gwneud 'rhy ychydig i ddiogelu'r gŵr ifanc bregus iawn yma' a chanfu rheithgor y cwest bod Dean Saunders a'i deulu wedi 'cael eu siomi gan fethiannau difrifol mewn gofal iechyd meddwl a'r system carchardai' ac y cyfrannwyd at achos y farwolaeth gan 'esgeulustod'.

Mae aelodau NPM yn bryderus nad ydy'r methiant i ddeall y llwybr trosglwyddo a welwyd yn yr achos yma'n beth anghyffredin.

*Amseroldeb trosglwyddiadau*
Mae safonau hawliau dynol rhyngwladol yn pwysleisio y bydd trefniadau'n cael eu gwneud i garcharorion sydd wedi cael diagnosis o gyflyrau iechyd a/neu anabledd meddwl difrifol, y byddai aros yn y carchar yn golygu gwaethygu eu cyflwr, 'i'w trosglwyddo i gyfleusterau iechyd meddwl gynted ag y bo modd.'[117]

Cafodd NPM weld data GIG Lloegr yn dangos amseroldeb trosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty yng Nghymru a Lloegr yn 2016-17.[118] Roedd hwn yn dangos hyn: o gyfanswm o 1,083 o drosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty, cwblhawyd 366 (33.7%) o fewn y cyfnod amser o 14 diwrnod y cytunwyd arno a doedd 717 (66.3%) heb eu cwblhau o fewn yr amser hwnnnw. Arhosodd saith deg chwech o garcharorion (7.1%) am 140 diwrnod neu'n hirach.[119] Dangosodd y data yma bod dynion yn llai tebygol o gael eu trosglwyddo o fewn y targed a awgrymwyd o 14 diwrnod na merched. Nid oedd trosglwyddiad 67.7% o'r dynion wedi eu cwblhau mewn 14 diwrnod, o'i gymharu gyda 54% o ferched. Roedd rhai dynion (7.6%) a merched (2%) wedi aros am 140 o ddyddiau neu'n hirach. Roedd data am oedi mewn trosglwyddiadau a gafwyd ar gyfer dadl ar ddiogelwch carchardai yn y Senedd gan Luciana Berger AS yn dangos, yn ei geiriau hi, 'na fyddai methiant mor hollbresennnol byth yn cael ei oddef yn y byd tu allan'.[120]

Yn fwy penodol, mae'r NPM yn deall bod oedi'n codi weithiau am resymau gweinyddol rhwng yr asesiad cyntaf a'r ail asesiad, sy'n hwyhau'r amser aros o'r asesiad cyntaf i drosglwyddiad. Mae'r oedi yma'n anodd ei fesur am nad yw data'n cael ei gasglu'n ganolog.

Roedd astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2016 yn archwilio trosglwyddiad 64 o garcharorion gwrywaidd yng Nghymru a Lloegr a chanfu mai'r amser cyfartalog o'r cyfeiriad i'r derbyniad yn yr ysbyty oedd 76 diwrnod. Roeddent yn nodi bod nifer fawr o garcharorion yn gadael y carchar am gyfnodau gormodol o amser gydag anhwylderau meddwl posibl, y mae triniaethau ar gael yn rhwydd yn yr ysbyty ond ni ellir eu gweinyddu heb ganiatâd mewn carchardai.[121]

**117.** Nelson Mandela Rules, Rheol 109.1.
**118.** Dogfen Waith Cronfa Ddata Ganolog GIG Lloegr 090617 PT Asesiadau a Throsglwyddiadau Diogel EM (gohebiaeth e-bost rhwng Arolygiaeth Carchardai EM a GIG Lloegr).
**119.** Mae'r data yma'n cyfeirio at y cyfnod amser o'r cyfeiriad cyntaf i dderbyniad i'r ysbyty.
**120.** Hansard, 2017, Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn y Carchar (Lloegr). 1 Mawrth 2017, Cyfrol 622.
**121.** R.Sharpe, B.Vollm, A Akhtar, R.Puri a B.Bickle, 2016. 'Trosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty o dan Adrannau 47 a 48 y Ddeddf Iechyd Meddwl rhwng 2011 a 2014' yn *The Journal of Forensic Psychiatry and Psychology*, Cyfrol 27 (4) 2016.

Yn ei arolwg mwyaf diweddar o Garchar EM Pentonville, roedd Arolygiaeth Carchardai EM a'i bartneriaid wedi'i nodi mai'r ystod o amseroedd trosglwyddo o'r cyfeirio hyd y cyrhaeddiad yn yr ysbyty oedd 0-187 o ddiwrnodau, gyda dim ond 15% o garcharorion wedi'u trosglwyddo o fewn y 14 diwrnod a argymhellir.

Ni allem gael data ar gyfer Gogledd Iwerddon, ond mae aelodau NPM yn sôn am oedi tu hwnt i 14 diwrnod, weithiau'n para wythnosau, oherwydd nad oes gwelyau ar gael ac am fod angen i feddyg ymgynghorol o'r ysbyty sy'n derbyn y cleifion (Clinig Shannon yn Belfast fel arfer) ddod i'r carchar i asesu'r person a phenderfynu a yw'n achos priodol. Rydym yn deall mai'r profiad yn yr Alban yw bod modd canfod lle yn yr ysbyty, yn y mwyafrif o achosion, yn rhesymol gyflym i garcharor sydd angen cael lle, er bod pwysau yn yr ystâd ysbytai diogelwch canolig, ac mae oedi'n gallu digwydd, yn arbennig, i garcharorion gydag anghenion cymhleth.

Mae tystiolaeth o amrywiol ffynonellau ar gael i'r NPM, yn cynnwys cwynion gan garcharorion i aelodau'r NPM, yn dangos bod oedi'n digwydd yn aml yn y broses asesu ar gyfer trosglwyddo, yn ei hanfod cyn y bydd yr 14 diwrnod a argymhellir yn dechrau cael eu cyfri. Cafwyd sylw am hyn hefyd gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf sy'n dangos nad yw cofnodi hyd yr arhosiad am drosglwyddiad i ysbyty diogel yn dechrau'n gyffredinol nes bydd asesiad wedi digwydd, felly mae hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i asesiadau gael eu gwthio yn ôl nes bydd hi'n bosibl bod lle ar gael.[122]

Rhannwyd gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi rai o'r anawsterau gyda chyflawni trosglwyddiadau amserol i garcharorion i'r ysbytai iechyd meddwl y soniwyd amdanynt wrth grwpiau arolygu ansawdd iechyd a chyfiawnder GIG Lloegr. Roedd yr anawsterau'n cynnwys: anghytundebau am drefniadau cludiant, cyfathrebu aneffeithiol rhwng timau iechyd meddwl a swyddogion carchar, achosion o fynd yn erbyn polisïau a chanllawiau arferion da (e.e. rhwng arweiniad yr Adran Iechyd, dangosyddion perfformiad iechyd a chyfiawnder, a manylebau contractau). Soniodd seiciatrydd fforensig a gyfwelwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi am lawer o rwystredigaethau ac 'amser diddiwedd ar y ffôn' yn ceisio cyflymu trosglwyddiadau i ysbytai diogel. Yn fwy penodol, soniodd am broblemau yn codi gyda chlinigwyr oedd â barn wahanol am achosion, cyfathrebu aneffeithiol rhwng staff yr unedau diogelwch canolig, sy'n gweithredu fel 'porthorion' i gael lle mewn ysbytai diogel eraill, a'r ffaith nad yw unedau gofal dwys seiciatrig yn cymryd pobl sy'n trosglwyddo o garchardai.[123]

**122.** Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, 2016, *Learning from PPO investigations: Prisoner mental health.*
**123.** Mae dadansoddiad pellach o'r problemau a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â'r broses drosglwyddo yn RCPsych 2011, *Prison transfers: A survey from the Royal College of Psychiatrists. Occasional Paper OP81.*

**Astudiaeth achos – Carchar EM Bryste: darlun cymysg**

Yn ystod ei Arolwg yn 2017 o Garchar EM Bryste (carchar dynion categori B), canfu Arolygiaeth Carchardai EM gysylltiadau da iawn rhwng darparwr gwasanaeth iechyd meddwl y carchar ac uned diogelwch canolig lleol y GIG (MSU). Roedd seiciatrydd fforensig y carchar hefyd yn gweithio yn yr MSU ac roedd seiciatrydd fforensig o'r uned yn mynd i gyfarfod amlddisgyblaethol iechyd wythnosol y carchar, oedd yn cadw'r carchar ar agenda'r uned. O ganlyniad, roedd yr amseroedd trosglwyddo i'r uned yn rhesymol dda. Roedd pethau'n wahanol fodd bynnag wrth drosglwyddo i unedau diogelwch uchel neu MSUs oedd ymhellach i ffwrdd. Roedd yr amser trosglwyddo'n cael ei gyfri o'r diwrnod yr oedd y gwely ar gael, ac nid yw hyn yn cydfynd gyda'r canllawiau 14 diwrnod. Nododd Arolygiaeth Carchardai EM bod y mwyafrif o garcharorion wedi cael lle mewn ysbyty o fewn dwy i bedair wythnos, ond rhwng Ebrill 2016 a Chwefror 2017, roedd chwech allan o 14 trosglwyddiad wedi cymryd yn hirach na phum wythnos i'w cwblhau.

*Y capasiti yn y gwasanaethau iechyd meddwl diogel*

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae cyfyngiadau ar gapasiti yn y gwasanaethau iechyd meddwl yn rhwystro'r llwybr o'r carchardai ac yn arwain at sefyllfa lle mae carcharorion yn cael eu trosglwyddo ar draws awdurdodaethau.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ffaith nad oes ysbyty diogelwch uchel lleol yn golygu bod rhai carcharorion yn cael eu hanfon i Carstairs (yn yr Alban) neu Ashworth, Broadmoor neu Rampton (yn Lloegr).[124] Yn yr un modd, yng Nghymru, nid oes gwelyau ysbyty diogelwch uchel.

Mae arolygon dilynol gan HMIPS wedi canfod oedi mewn trosglwyddiadau o garchardai i ferched a dynion oherwydd darpariaeth annigonol o welyau ysbyty diogelwch canolig yn Yr Alban. Mae'r ffaith nad oes gwelyau iechyd meddwl diogelwch uchel i garcharorion benywaidd wedi'i bennu fel pryder yn Yr Alban gan y MWCS. Mae'r mater o dan ystyriaeth gan Lywodraeth yr Alban, er nad ydynt eto wedi cytuno ar y ffordd ymlaen.

Yn Lloegr, nid oes digon o welyau iechyd meddwl i ateb y galw.[125] Y diffyg mynediad at welyau ysbyty diogel yw'r rheswm a nodir amlaf am yr oedi mewn trosglwyddiadau o garchardai i'r gwasanaethau iechyd meddwl diogel. Mae'r NPM yn ymwybodol o'r dyheadau i gynyddu gallu ond ni fydd modd cyflawni hyn am flynyddoedd lawer.

*Trosglwyddiadau ar ddiwedd dedfrydau carchar*

Mae'r methiant i drosglwyddo cyn i garcharor gwblhau ei ddedfryd neu ei dedfryd yn golygu bod cyfleoedd yn cael eu colli o bosib i atal dirywiad meddyliol drwy driniaeth briodol neu efallai bod y cyhoedd wedi cael eu rhoi mewn perygl. Pennodd un aelod o NPM dri achos lle'r oedd carcharorion wedi cael eu rhyddhau cyn i'r carchar gwblhau'r broses ar gyfer trosglwyddo i ysbyty diogel. Roedd hyn yn destun pryder am fod gan y carcharorion perthnasol anhwylderau meddwl posibl a/neu anhwylder meddwl a allai fod wedi bod yn ffactor yn y drosedd/y drosedd honedig.

**124.** Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, 2010, *Not a Marginal Issue: Mental Health and the Criminal Justice System in Northern Ireland*, http://www.cjini.org/getattachment/24d6cd45-20bb-4f81-9e34-81ea59594650/Mental-Health-and-the-criminal-justice-in-Northern.aspx [cyrchwyd 13/11/17].

**125.** Yr Adran Iechyd, 2000, *The NHS Plan, A plan for investment, A plan for reform*, tudalen 118.

**Cyfrif gan seiciatrydd fforensig**
Rhoddodd seiciatrydd fforensig a gyfwelwyd gan Arolygiaeth Carchardai EM stori claf oedd wedi bod o dan ei gofal yn y carchar. Roedd y gweithiwr cyswllt a dargyfeirio wedi gweld y dyn yma ac wedi argymell ei fod yn cael ei dderbyn i ysbyty iechyd meddwl, ond remandiodd y barnwr y dyn i'r carchar. Ar ôl tri diwrnod yn y carchar cafodd y dyn ei symud i uned 'cleifion mewnol'. Gwnaeth y seiciatrydd fforensig gyfeiriad iddo gyda'r gobaith y gallai gael lle mewn ysbyty diogelwch isel a chanfu bod yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn amharod i'w gymryd. Cafodd y claf ei asesu gan staff diogelwch isel chwe diwrnod ar ôl y cyfeiriad a chafodd ei dderbyn ar gyfer trosglwyddiad 20 diwrnod ar ôl y cyfeiriad ond dywedwyd ei bod hi'n anhebygol y byddai gwely ar gael am fis arall. Pan oedd yn yr uned cleifion mewnol, roedd y claf ar drefn datgloi tri swyddog yn rheolaidd. Ddeugain diwrnod ar ôl y cyfeiriad cyntaf, aeth y dyn i'r llys eto, ond roedd hwn yn llys gwahanol heb wasanaeth cyswllt a dargyfeirio. Rhoddwyd mechnïaeth ddiamodol i'r dyn a gadawyd iddo adael y llys. Roedd y cais i drosglwyddo'r dyn i dderbyn asesiad a thriniaeth iechyd meddwl wedi methu. O ganlyniad i'r rhagofalon diogelwch a bennwyd ar gyfer y dyn yma tra'r oedd yn y carchar, roedd tîm iechyd meddwl y carchar yn bryderus am ei ddiogelwch ef a diogelwch pobl eraill yn y gymuned oherwydd ei ymddygiad – cyflwr oedd heb gael ei drin.

## Casgliad

Mae'n destun pryder arbennig i'r NPM bod y methiant i weithredu trosglwyddiadau'n effeithlon yn gallu achosi dirywiad yn lles y carcharorion. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan aelodau'r NPM yn dangos yn glir bod y problemau gyda throsglwyddiadau rhwng carchardai ac ysbytai diogel a bennwyd dros y degawd diwethaf, a hynny'n fwy na dim yn Adroddiad Bradley, yn dal heb gael eu datrys. Yn wir, mae dadansoddiad gan Arolygiaeth Carchardai EM o'i argymhellion arolygu yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y nifer o arolygon lle gwnaed argymhellion am drosglwyddiadau Deddf Iechyd Meddwl. Er y dylid trin y data yma'n ofalus am fod Arolygiaeth Carchardai EM yn arolygu gwahanol garchardai bob blwyddyn, mae'n nodedig bod Arolygiaeth Carchardai EM yn 2016-17 wedi gwneud argymhelliad i wella amseroldeb trosglwyddiadau mewn mwy na hanner (56%) ei adroddiadau arolwg a gyhoeddwyd.

Mae'r diffyg data cyhoeddus a chymaradwy, yn enwedig o'r Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, yn ei gwneud hi'n anodd dadansoddi maint y broblem ar draws y DU.

Mae'r NPM yn croesawu'r craffu diweddar ar y materion yma gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol (JCHR) a'r Pwyllgor ar gyfer Atal Artaith (CPT). Maent oll yn cytuno nad yw'r targed presennol a argymhellir o 14 diwrnod yn cael ei gyflawni ac mae angen adolygu hyn. Gwnaethant yr awgrymiadau penodol a ganlyn:

- dylid cyflwyno uchafswm amser cyfreithiol rhwng diagnosis a throsglwyddo'r bobl mewn sefydliad cadw sydd angen gofal mewn ysbyty diogel
- dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a GIG Lloegr roi gwybod yn rheolaidd faint o garcharorion sy'n aros i gael eu trosglwyddo (NAO);
- dylai bob claf a drosglwyddir o garchar sbarduno adolygiad yn awtomatig gan y Tribiwnlys Iechyd Meddwl o'r mesur trosglwyddo.[126]

**126.** Cyngor Ewrop, 2017, *Report to the Government of the UK on the visit to the UK carried out by the European CPT from 30 March 10 to 12 April 2016*, paragraff 176, https://rm.coe.int/168070a773 [cyrchwyd 13/11/17].

Gwnaed yr argymhellion yma gan ystyried y system yn Lloegr, ond dylid ystyried eu gweithredu drwy bedair gwlad y DU.

Mae'r NPM yn cytuno bod angen adolygu'r arweiniad cyfredol am 14 diwrnod, ond dylid gwneud hyn gyda'r bwriad o gael gwared â'r rhwystrau i'w weithrediad a'i ostwng ymhellach yn y dyfodol (fel sydd wedi'i argymell gan y CPT), yn hytrach nag ymestyn y cyfnod amser mewn ymateb i'r oedi cyfredol. Yn ogystal, mae angen mecanweithiau cryfach i sicrhau nad oes modd oedi asesiadau trosglwyddo fel ffordd o ohirio dechreuad yr 14 diwrnod.

### Casgliadau

I unigolyn sy'n cael ei gadw, mae cyfnod o golli rhyddid yn debygol o gynnwys symud ar hyd llwybrau sydd wedi eu troedio'n aml iawn drwy sefydliadau cadw (dalfa'r heddlu i ddalfa'r llys i'r carchar; ysbyty diogelwch canolig i uned diogelwch isel). Ond i nifer o bobl eraill sydd mewn sefydliad cadw, bydd hefyd yn cynnwys symud rhwng ystod o gyfleusterau mewn ymateb i'w sefyllfa a'u hanghenion unigol (cyfleusterau plant i oedolion; carchar i ysbyty iechyd meddwl).

Bydd y penderfyniadau cychwynnol i roi'r unigolyn mewn sefydliad cadw'n canolbwyntio ar y cyrchnod nesaf yn unig, ond bydd profiad yr unigolyn yn cynnwys amrediad o leoliadau a chyfleusterau dros amser. Mae gwaith yr NPM o edrych ar lwybrau mewn sefydliadau cadw'n datgelu system ddarniog yn aml iawn sydd hefyd yn cael trafferth hyrwyddo'r llwybrau sydd eu hangen i sicrhau bod pobl mewn sefydliadau cadw'n gallu symud o gwmpas mewn ymateb i'w hanghenion newidiol, neu i sicrhau bod y bobl yma'n cael eu dal yn y lleoliad mwyaf priodol. Rydym yn tynnu sylw at ystod o sefyllfaoedd lle mae anghenion iechyd meddwl newidiol y bobl sy'n cael eu cadw'n golygu bod y methiant i'w trosglwyddo i fan lle gallent dderbyn triniaeth mewn lleoliad priodol yn ffactor risg ar gyfer triniaeth a allai fod yn wael.

Yn anochel, mae gwahanol systemau cadw, sy'n ymateb i wahanol ddeddfau ac sy'n gweithredu o dan gyfrifoldeb gwahanol lywodraethau ac adrannau'n achosi sialensiau. Yn ogystal, mae amrywiaethu trefniadau comisiynu a modelau darparu gwasanaethau wedi arwain at amrywiaethau daearyddol mewn gwasanaethau a buddiannau sy'n cystadlu neu'n gwrthgyferbynu, y maent oll yn gallu cymhlethu llwybr y carcharor i gyfleuster priodol.

Mae prinder data am lwybrau cadw ac am nifer y bobl sy'n symud drwyddynt ac mae hynny'n destun pryder. Mae eu cymhlethdod yn eu gwneud yn anodd eu deall ac felly'n anodd eu craffu.

Roedd y rhan fwyaf o lwybrau y bu aelodau'r NPM yn eu harchwilio yn ymwneud â phobl mewn sefydliadau cadw sydd â phroblemau iechyd meddwl. Er bod y ddealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl gwael ac anghenion mewn sefydliadau cadw wedi tyfu dros y degawd diwethaf, nid yw hyn bob amser wedi arwain at gamau i gyfateb yr angen am lwybrau esmwyth rhwng mathau o sefydliadau cadw gyda chapasiti digonol o fewn y system gyfan i hwyluso symudiad. O ganlyniad i'r heriau cyfredol, mae llawer o bobl yn cael eu cadw mewn lleoliadau anaddas ac mae eu hiechyd meddwl yn dirywio ymhellach efallai o ganlyniad i hynny, ac mae llawer o bobl yn cael eu cadw mewn lleoliadau cadw gor-gyfyngedig yn hytrach na symud ymlaen tuag at gael eu rhyddhau o sefydliad cadw yn y pen draw. Mewn llawer o sefyllfaoedd, roedd gwaith ymchwil yr NPM yn datgelu problemau a fyddai wedi

cael eu hosgoi os byddai gwell darpariaeth yn y gymuned i atal yr angen am, neu i gynnig opsiynau amgen i, sefydliad cadw.[127]

Mae safonau hawliau dynol wedi eu canolbwyntio'n bennaf ar fathau o sefydliadau neu leoliadau cadw, ac ychydig iawn o awdurdodau lleol, neu o enghreifftiau rhyngwladol sydd ar gael i dywys yr NPM neu'r awdurdodau cadw yn y DU ar yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Ychydig iawn o drafodaeth a gafwyd o oblygiadau hawliau dynol y bobl mewn sefydliadau cadw sy'n symud, neu sy'n ceisio symud, ar hyd llwybrau gwahanol. Fodd bynnag, mae egwyddorion pwysig y dylid eu gweithredu'n glir, yn cynnwys yr egwyddor o 'amgylchedd lleiaf cyfyngol', safonau sy'n ymwneud â phellter pobl wedi'u cadw i ffwrdd o'u cartrefi, a'r cyfrifoldeb i atal triniaeth wael.

Ymhellach, mae amddiffyniad cyfreithiol yn llai eglur ac efallai'n anoddach ei weithredu pan fydd rhywun mewn sefydliad cadw'n symud, neu y dylid ei symud, o un lle i le arall. Yn y cyswllt hwn mae'r datblygiad yn Yr Alban i ymestyn yr hawl i apelio yn erbyn lefelau diogelwch gormodol mewn ysbytai diogelwch lefel ganolig yn arwyddocaol, ac yn arwyddocaol hefyd mae argymhelliad CPT y dylid cael goruchwyliaeth gan dribiwnlysoedd iechyd meddwl dros yr holl drosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty.

Dydy gwaith yr NPM, a weithredir ochr yn ochr â rhaglenni arolygu ac ymweld presennol ei aelodau, ond wedi gallu edrych ar rai o'r llwybrau a dim ond mewn manylder cyfyngedig. Mae ein gwaith o adolygu'r deunydd gwybodaeth presennol a'r arferion cyfredol yn gadael lle i ni ganfod materion yn ymwneud â thriniaeth y bobl mewn sefydliadau cadw a gododd o lwybrau sy'n haeddu astudiaeth bellach.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- y ffordd mae dosbarthiad adnoddau lleol a chenedlaethol a threfniadau comisiynu penodol yn dylanwadu ar y llwybrau sydd ar gael i bobl mewn sefydliadau cadw;
- sut mae costau gorfodol yn dylanwadu ar y llwybrau y mae pobl mewn sefydliadau cadw'n eu teithio;
- colli parhad y gwasanaethau o ganlyniad i symudiad y bobl mewn sefydliadau cadw;
- yr effaith ar y bobl mewn sefydliadau cadw pan ddewisir eu trosglwyddo i un opsiwn neu i opsiwn arall;
- y gwahanol drothwyon a ddefnyddir mewn penderfyniadau i drosglwyddo pobl a gedwir o un lle i le arall;
- argaeledd llwybrau i grwpiau arbennig, yn cynnwys menywod a phlant;
- mantais gostwng neu gynnal amserlen a breintiau plentyn pan ddisgwylir ei symud i leoliad mwy cyfyngedig.
-

## Argymhellion a chamau gweithredu'r dyfodol

Mae'r NPM yn gwneud yr argymhellion a ganlyn i awdurdodau sy'n gyfrifol am agweddau o'r llwybrau y soniwyd amdanynt uchod.

### Llwybrau o iechyd meddwl i leoliadau iechyd meddwl

- Cryfhau gwaith cynllunio gwasanaethau iechyd meddwl diogel gyda'r bwriad bod hwn yn dod yn fwy cydlynol (gan gynnwys rhwng awdurdodaethau adnoddau cenedlaethol) ac wedi'i seilio ar well gwybodaeth am anghenion lleol a chenedlaethol.
- Ystyried yr angen i ymestyn yr hawl i apelio yn erbyn cael eu dal mewn amodau o ddiogelwch gormodol, y tu hwnt i'w weithrediad presennol yn yr Alban.

127. Gwelwch hefyd Dŷ'r Arglwyddi, Cyd-bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Hawliau Dynol, 2017, *Mental Health and Deaths in Prison: Interim Report*, paragraff 22.

- Dylai aelodau NPM ddefnyddio eu dylanwad i gadw'r ffocws cenedlaethol yn eu hawdurdodaethau ar wella cydlyniad y broses o gynllunio gwasanaethau.
- Dylai aelodau NPM gasglu gwybodaeth am, a rhoi adroddiad am, yr oedi wrth ryddhau pobl ac am y bobl sy'n cael eu cadw mewn amodau o ddiogelwch gormodol wrth fonitro gwasanaethau iechyd meddwl diogel.

### Llwybrau o ddalfa'r heddlu yn codi o faterion iechyd meddwl

- Dylai heddluoedd sicrhau eu bod yn dangos digon o dystiolaeth o'r nifer o bobl a gedwir sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol ac sydd ag anghenion sydd angen cefnogaeth well yn uwch a thu hwnt i honno y gellir ei darparu yn yr ystafelloedd dalfa. Dylid gallu datgymalu'r data yma i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gallu gwneud eu dyletswyddau cydraddoldeb yn effeithiol.
- Dylai aelodau'r NPM ystyried talu sylw agosach i gyrchnod y bobl a gedwir sy'n cael eu trosglwyddo o ddalfa'r heddlu yn ogystal ag unrhyw oedi yn y llwybrau allan.

### Llwybrau o garchardai i sefydliadau iechyd meddwl

- Casglu a chyhoeddi data am drosglwyddiadau o garchardai i leoliadau iechyd meddwl ac am ddychwelyd wedyn i'r carchar yn y DU, i gynnwys data am oedi ac ar ba gam yn y broses drosglwyddo y mae hyn wedi digwydd.
- Adolygu'r argymhelliad 14 diwrnod cyfredol ar gyfer trosglwyddo gyda'r bwriad o ddiddymu unrhyw rwystrau i weithrediad yr argymhelliad a'i ostwng ymhellach yn y dyfodol, ac ystyried cyflwyno uchafswm amser cyfreithiol ar gyfer y cyfnod rhwng yr argymhelliad meddygol cyntaf a throsglwyddiad pobl sy'n cael eu cadw ac sydd angen gofal mewn ysbyty diogel.
- Ystyried argymhellion y CPT y dylai holl drosglwyddiadau'r cleifion o'r carchar sbarduno adolygiad yn awtomatig gan y Tribiwnlys Iechyd Meddwl. Opsiwn arall fyddai ymestyn yr hawl i apelio yn erbyn trosglwyddiad sy'n digwydd yn yr Alban ar hyn o bryd.

### Gweithredoedd i'r NPM yn y dyfodol

Bydd yr NPM yn edrych ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn ac yn trafod sut y gall ei aelodau sicrhau eu bod yn cyflawni eu rôl o atal triniaeth wael pan fydd pobl sy'n cael eu cadw'n symud rhwng y mathau o gyfleusterau y maent yn eu harchwilio neu'n ymweld â nhw. Gallai hyn gynnwys:

- deall yr holl lwybrau posibl a chanfod rhwystrau a phroblemau;
- archwilio'r gwaith paratoi ar gyfer llwybrau'r bobl mewn sefydliadau cadw yn ystod arolygon ac ymweliadau;
- canfod pobl sy'n cael eu cadw sydd wedi eu dal mewn lleoliadau amhriodol ac adrodd am y problemau y maent yn eu wynebu;
- ymgysylltu ag awdurdodau sy'n cynllunio/comisiynu cyfleusterau cadw a'u dosbarthiad gyda'r bwriad o sicrhau bod problemau gyda'r llwybrau'n cael eu lliniaru a'r gwasanaethau'n cael eu trefnu i ateb anghenion.

Mae'r NPM hefyd yn bwriadu trafod pa elfennau o'r fframwaith hawliau dynol presennol a safonau rhyngwladol yn ymwneud â chadw ddylai lywio llwybrau a throsglwyddiadau, gyda'r bwriad o ddylanwadu ar y meddylfryd yn y maes yma yn y dyfodol.

## Trosglwyddiadau o sefydliadau cadw plant i sefydliadau cadw oedolion

Mae'r mathau o sefydliadau cadw cosbol i blant yn amrywio'n sylweddol ar draws y DU a gwelodd aelodau is-grŵp Plant a Phobl Ifanc yr NPM bod angen mapio'r trosglwyddiadau rhwng y cyfleusterau yma a chyfleusterau oedolion, yn ogystal â'r broses a ddefnyddir i wneud y trosglwyddiadau hyn.[128]

Yn debyg i'r llwybrau a archwiliwyd eisoes, mae'r symudiad o sefydliadau cadw plant i sefydliadau cadw oedolion yn gallu peri risgiau yn nhriniaeth y rhai sy'n cael eu cadw. Mae'r naid o gyfleusterau oedolion yn arbennig o ddramatig i rai plant: yng Nghymru a Lloegr mae merched yn symud yn uniongyrchol o gartrefi diogel i blant neu ganolfannau hyfforddi diogel i garchardai oedolion (am nad oes sefydliadau troseddwyr ifanc i ferched neu fenywod ifanc); yn yr Alban mae plant yn cael eu rhoi mewn cyfleusterau i fenywod neu ddynion ifanc pan maent yn 16 oed.

Mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â sefyllfa lle mae'r trosglwyddiad i sefydliad cadw oedolion heb ei gynllunio na'i reoli'n dda. Yn 2016, cyhoeddodd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (Cymru a Lloegr) adroddiad am farwolaeth drwy hunanladdiad Joshua Collinson, carcharor 18 oed yng Ngharchar EM Swinten Hall. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at drefniadau trosglwyddo datgymalog a reolwyd yn wael, yn ogystal â phrosesau gwael o ran rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau – ac, o ganlyniad i hynny, ni rannwyd gwybodaeth allweddol am ei broblemau a'i anghenion iechyd meddwl. Argymhellodd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf bod 'trefniadau trosglwyddo [yn y dyfodol] i bobl ifanc sy'n symud i sefydliad cadw oedolion yn cynnwys cynllun rheoli y cytunwyd arno ar y cyd yn ymdrin â'r chwe mis cyntaf o leiaf ar ôl trosglwyddo, yn amlinellu sut y byddai eu hanghenion yn cael eu diwallu, a sut y byddai eu risgiau a'u nodweddion agored i niwed yn cael eu rheoli'.[129]

**128.** Arweiniwyd y gwaith yma gan is-grŵp Plant a Phobl Ifanc yr NPM gyda chyfraniadau gan y Comisiynydd Plant i Loegr, CJINI ac Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi. Dim ond ar gadw cosbol i blant y gallai'r NPM ganolbwyntio yn yr ymarfer yma.

**129.** Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, 2015, *In depth investigation into the death of Mr Joshua Collinson a prisoner at HMP Swinfen Hall on 3 September 2015*, https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/ppo-dev-storage-4dvljl6iqfyh/uploads/2017/01/L137-15-Death-of-Mr-Joshua-Collinson-Swinfen-Hall-03-09-2015-SID-18-21-1.pdf [cyrchwyd 13/11/17].

Tabl 3: Mapio trosglwyddiadau o'r ystâd sefydliadau cadw plant i sefydliadau cadw oedolion

| | Cymru a Lloegr | | Gogledd Iwerddon | | Yr Alban | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bechgyn** | **Merched** | **Bechgyn** | **Merched** | **Bechgyn** | **Merched** |
| **Y ddarpariaeth gadw i blant** | Tri gwahanol fath o ddarpariaeth: cartrefi plant diogel sydd hefyd yn rhoi lle i achosion lles (rhywiau cymysg); canolfannau hyfforddi diogel (rhywiau cymysg); a sefydliadau troseddwyr ifanc (gwrywod yn unig). Y lleoliad yn ddibynnol ar oed a'r elfennau agored i niwed a asesir. | Dau fath gwahanol o sefydliad: cartrefi plant diogel sydd hefyd yn rhoi lle i achosion lles (rhywiau cymysg) a chanolfannau hyfforddi diogel (rhywiau cymysg). Y lleoliad yn ddibynnol ar oed a'r elfennau agored i niwed a asesir. | Un ganolfan cyfiawnder ieuenctid (rhywiau cymysg). | Un ganolfan cyfiawnder ieuenctid (rhywiau cymysg). | Dau fath gwahanol fath o ddarpariaeth: pum sefydliad gofal diogel (rhywiau cymysg) sydd hefyd yn rhoi lle i achosion lles (mae pedwar wedi eu rheoli gan wahanol ddarparwyr sector; un gan awdurdod lleol); un sefydliad troseddwyr ifanc rhywiau cymysg sydd hefyd yn darparu ar gyfer oedolion ifanc ond mae'r plant yn cael eu dal ar wahân. | Dau fath gwahanol o ddarpariaeth: pum sefydliad gofal diogel (rhywiau cymysg) sydd hefyd yn rhoi lle i achosion lles (mae pedwar wedi eu rheoli gan wahanol ddarparwyr sector; un gan awdurdod lleol); un sefydliad troseddwyr ifanc rhywiau cymysg sydd hefyd yn darparu ar gyfer oedolion ifanc ond mae'r plant yn cael eu dal ar wahân. |
| **Y ddarpariaeth gadw i oedolion y mae plant yn trosglwyddo iddi** | Sefydliadau troseddwyr ifanc i oedolion ifanc er, mewn gwirionedd, mae'r rhain yn gynyddol gydffiniol â charchardai oedolion ac nid yw oedolion ifanc o anghenraid ar wahân mewn sefydliadau o'r fath. | Carchardai i fenywod. Mewn theori, darpariaeth arwahanol ydyw i oedolion ifanc ond, mewn gwirionedd, yn anaml iawn y mae unrhyw wahaniaeth. | Un sefydliad troseddwyr ifanc. | Un carchar i fenywod. | Un sefydliad troseddwyr ifanc rhywiau cymysg sy'n dal plant a phobl ifanc 16-21 oed (23 mewn rhai amgylchiadau). (Ar hyn o bryd mae carcharorion sy'n oedolion yn cael eu dal dros dro). | Un sefydliad troseddwyr ifanc rhywiau cymysg sy'n dal plant a phobl ifanc 16-21 oed (23 mewn rhai amgylchiadau). (Ar hyn o bryd mae carcharorion sy'n oedolion yn cael eu dal dros dro). |
| **Oed y trosglwyddiad** | Yn gyffredinol, yn 18 oed. | Yn gyffredinol, yn 18 oed. | Yn gyffredinol, yn 18 oed. | Yn gyffredinol, yn 18 oed. | Cyn eu pen-blwydd yn 18. Mae pobl ifanc 16-17 oed yn cael eu dal ar wahân. | Cyn eu pen-blwydd yn 18. Mae pobl ifanc 16-17 oed yn cael eu dal ar wahân. |
| **Sut rheolir y trosglwyddiad?** | Protocol a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (HMPPS erbyn hyn) ac arweiniad gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – ond nid yw'n ymddangos bod hyn yn hysbys nac yn cael ei ddilyn yn gyson.<br><br>Weithiau mae trosglwyddiadau'n digwydd mewn camau e.e. o gartref plant diogel i sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) i YOI oedolion ifanc. Ond gallai trosglwyddiad ddigwydd yn syth i sefydliad oedolion hefyd. Yn aml iawn nid yw'r plant yn derbyn hysbysiad am y trosglwyddiad o flaen llaw. | Protocol a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (HMPPS erbyn hyn) ac arweiniad gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – ond nid yw'n ymddangos bod hyn yn hysbys nac yn cael ei ddilyn yn gyson.<br><br>Weithiau mae trosglwyddiadau'n digwydd mewn camau e.e. o gartref plant diogel i sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) i YOI oedolion ifanc. Ond gallai trosglwyddiad ddigwydd yn syth i sefydliad oedolion hefyd. Yn aml iawn nid yw'r plant yn derbyn hysbysiad am y trosglwyddiad o flaen llaw. | Mae'r trosglwyddiad yn cael ei reoli'n unol â phrotocol sefydledig sy'n nodi'r camau trosglwyddo, yn rhannu'r wybodaeth ac yn darparu ar gyfer cynllun trosglwyddo i bob plentyn. | Mae'r trosglwyddiad yn cael ei reoli'n unol â phrotocol sefydledig sy'n nodi'r camau trosglwyddo, yn rhannu'r wybodaeth ac yn darparu ar gyfer cynllun trosglwyddo i bob plentyn. | Mae sefydliadau gofal diogel wedi datblygu cysylltiadau/partneriaethau gyda sefydliad troseddwyr ifanc – i rannu gwybodaeth cyn y trosglwyddo, i adael i blant gwrdd â'r swyddog personol, i ymweld â'r sefydliad troseddwyr ifanc cyn trosglwyddo, ac ati. | Mae sefydliadau gofal diogel wedi datblygu cysylltiadau/partneriaethau gyda sefydliad troseddwyr ifanc – i rannu gwybodaeth cyn y trosglwyddo, i adael i blant gwrdd â'r swyddog personol, i ymweld â'r sefydliad troseddwyr ifanc cyn trosglwyddo, ac ati. |
| **A oes data wedi'i gyhoeddi/heb ei gyhoeddi ar gael am nifer y plant sy'n trosglwyddo i sefydliad cadw oedolion?** | Nid oes data wedi ei gyhoeddi. Efallai y bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu darparu gwybodaeth am blant sy'n troi'n 18 tra byddent mewn sefydliad cadw ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyrchu'n rheoliadd. Nid oes unrhyw ffigurau wedi'u darparu hyd yn hyn. | Nid oes data wedi ei gyhoeddi. Efallai y bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu darparu gwybodaeth am blant sy'n troi'n 18 tra byddent mewn sefydliad cadw ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyrchu'n rheolaidd. Nid oes unrhyw ffigurau wedi'u darparu hyd yn hyn. | Mae data heb ei gyhoeddi ar gael. Mae nifer y bechgyn sy'n trosglwyddo i garchar oedolion wedi gostwng yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf o 18 y flwyddyn i wyth. | Mae data heb ei gyhoeddi ar gael. Nid oes unrhyw ferched wedi trosglwyddo i garchar oedolion yn y pum mlynedd diwethaf. | Nid oes data wedi'i ddarparu hyd yn hyn ond mae sefydliadau gofal diogel yn dweud bod llai o drosglwyddiadau'n digwydd. | Nid oes data wedi'i ddarparu hyd yn hyn ond mae sefydliadau gofal diogel yn dweud bod llai o drosglwyddiadau'n digwydd. |

## Y broses o drosglwyddo plentyn i sefydliad cadw oedolion

### Trosglwyddiadau o sefydliadau troseddwyr ifanc

Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n trosglwyddo i sefydliad cadw oedolion yng Nghymru a Lloegr yn gwneud hynny o sefydliadau troseddwyr ifanc sy'n dal bechgyn 15-17 oed. Cyfrifoldeb y timau gwaith achosion yn y sefydliadau yma yw hi i baratoi bechgyn wrth iddynt ddynesu at eu 18fed pen-blwydd. Mae hefyd nifer o achosion lle mae plant yn cael eu remandio'n agos at neu'n fuan ar ôl eu 18fed pen-blwydd. Yn yr achosion yma, cânt eu hanfon i ystâd y plant i gael trosglwyddiad wedi'i gynllunio. Mae llwyddiant y cynllunio yn y sefyllfaoedd yma'n dibynnu ar y cysylltiadau a'r gefnogaeth gan y sefydliadau sy'n eu derbyn.

Ymhob achos, mae trosglwyddiadau o sefydliadau troseddwyr ifanc yn cael eu trafod o gam cynnar yn y cyfarfodydd cynllunio dedfrydau sy'n golygu bod teulu/gofalwyr yn cymryd rhan ac yn gwybod beth fydd yr opsiynau tebygol. Yn aml iawn mae rheolwyr penodol sy'n arwain ar y mater o fewn sefydliad. Bydd y rheolwyr neu'r gweithwyr achos yma'n canfasio barn pobl am y sefydliad mwyaf addas i'r bachgen symud iddo oddeutu chwe mis cyn y trosglwyddiad, gan gymryd i ystyriaeth raglenni ymddygiad troseddwyr a bennwyd neu anghenion addysg a chlymau teuluol. Mae'r model yma'n gweithio orau pan fydd y sefydliadau derbyn a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn cyfrannu at y broses drwy fynd i gyfarfodydd cynllunio trosglwyddiad yn bersonol neu drwy ddolen fideo. Mae hyn yn galluogi i gwestiynau'r bachgen gael eu hateb ac yn rhoi golwg fwy cywir iddo ar yr hyn fydd yn digwydd iddo unwaith mae'n symud i'r ystâd oedolion.

Mae Arolygiaeth Carchardai EM wedi pennu esiamplau arbennig o dda o'r ystâd oedolion yn cefnogi cynlluniau trosglwyddiad yng Ngharchar EM Belmarsh (o HMYOI Cookham Wood), HMYOI Deerbolt ac Aylesbury (o HMYOI Werrington a HMYOI Cookham Wood) a HMP/YOI Swinfen Hall o nifer o wahanol sefydliadau plant.[130] Fodd bynnag, mewn rhai achosion ni chafwyd unrhyw fewnbwn gan y sefydliad derbyn. Roed hyn yn gadael y gweithwyr achos yn methu ateb cwestiynau mwy penodol gan y bechgyn a'u teuluoedd yn effeithiol.

Yn ogystal â'r cyfarfod yma, rhannodd y gweithwyr achos wybodaeth gyda'r sefydliad oedolion yn ymwneud ag addysg ac ymyriadau eraill yr oedd y bachgen wedi'u cwblhau neu yr oedd efallai angen eu cwblhau yn yr ystâd oedolion. Er bod y cynllunio yma wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol i baratoi a thawelu meddwl y bechgyn a fyddai'n trosglwyddo, nid oedd bob amser yn effeithio ar brofiad y person yn y sefydliad cadw o'u dyddiau cynnar yn y sefydliad oedolion. Mae arolygon gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi canfod nad yw'r profiad yma'n un positif bob tro. Er enghraifft, mewn un sefydliad troseddwyr ifanc canfu Arolygiaeth Carchardai EM bod un oedolyn ifanc wedi canfod nad oedd y dderbynfa, y noson gyntaf na'r prosesau ymsefydlu wedi sicrhau bod yr holl anghenion wedi'u cwrdd na bod y cyrhaeddwyr newydd wedi deall beth fyddai'n digwydd nesaf.[131]

**130.** Arolygiaeth Carchardai EM, 2015, *Report on an announced inspection of HMP Belmarsh, 2–6 February 2015*. Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *Report on an unannounced inspection of HMP/YOI Swinfen Hall, 24 October – 4 November 2016*. Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *Report on an unannounced inspection of HMYOI Werrington, 13–24 February 2017*, paragraff 4.10. Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *Report on an unannounced inspection of HMYOI Cookham Wood, 12–23 September 2016*.

**131.** Arolygiaeth Carchardai EM, 2017, *Report on an unannounced inspection of HMP/YOI Swinfen Hall, 24 October – 4 November 2016*.

**Trosglwyddiadau o gartrefi plant diogel (SCHs)**
Mae gan gartrefi plant diogel (SCHs) brofiad cyfyngedig iawn o drosglwyddo'n uniongyrchol i'r ystâd oedolion, oherwydd yn hanesyddol maent wedi dal plant iau a fyddai efallai'n llai tebygol o fod yn y ddalfa'n ddigon hir i wneud y trosglwyddiad. Y duedd oedd annog trosglwyddiad anuniongyrchol lle byddai plentyn yn symud i sefydliad troseddwyr ifanc i blant i baratoi ar gyfer gwneud y trosglwyddiad i'r ystâd oedolion.

Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol yn oedran cyfartalog y plant mewn sefydliadau cadw a'r cynnydd yn hyd y cyfnodau aros ar gyfartaledd, mae plant mewn cartrefi plant diogel yn fwy tebygol o symud yn uniongyrchol i safleoedd oedolion erbyn hyn.

Cyfeiriodd y Comisiynydd Plant at wahanol agweddau tuag at drosglwyddo mewn pedwar cartref plant diogel yr ymwelwyd â nhw. Roedd y tri cyntaf o'r rhain wedi pennu dau neu dri o blant a fyddai'n gorffen eu dedfryd yn yr ystâd oedolion ac roedd y pedwerydd wedi dal dau o blant a fyddai, yn y pen draw, yn mynd i ystâd oedolion ond a oedd wedi cael eu trosglwyddo i sefydliadau troseddwyr ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

*Cartref diogel i blant 1*
Yn gyffredinol, roedd y cartref plant diogel yma wedi cymryd plant a fyddai, oherwydd eu dedfrydau, yn mynd i'r ystâd oedolion yn y pen draw, ac wedi eu trosglwyddo i HMYOI Wetherby fel lleoliad dros dro. Digwyddodd hyn fel symudiad wedi'i gynllunio, a chafodd ei gytuno mewn adolygiad gyda gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc y plentyn a llywodraethwr o Wetherby a siaradodd â'r plentyn am y trefniadau ar gyfer y trosglwyddiad a'r gwahaniaethau yn yr amserlen ddyddiol. Rhoddwyd deunyddiau gwybodaeth i'r cartref hefyd am y sefydliad troseddwyr ifanc i gael eu defnyddio gan weithwyr allweddol i baratoi'r plentyn ar gyfer symud.

Nid oedd oedran gosodedig pan fyddai'r broses hon yn digwydd, a chafwyd dadleuon o fewn y cartref plant diogel am fanteision ac anfanteision cadw plant mor hir ag y bo modd, neu eu trosglwyddo nhw'n weddol gynnar (yn enwedig pan oedd gan y plentyn ddedfryd hir), ac yn yr achos hwnnw gofynnwyd y cwestiwn a fyddai'n well i'r plentyn symud i'r sefydliad nesaf yn gynharach neu'n hwyrach. Mewn gwirionedd, penderfynwyd ar yr oedran trosglwyddo yn ôl yr achos unigol yn dibynnu ar gynnydd addysg y plentyn a pha mor agored i niwed ydoedd.

*Cartref diogel i blant 2*
Profiad cyfyngedig oedd gan y cartref plant diogel yma o drosglwyddiadau, ond yn y gorffennol roedd wedi gwneud cais cyffredinol i negodi trosglwyddiad i blentyn i'r Uned Anson yn HMYOI Wetherby (uned bwrpasol i blant sydd â dedfrydau tymor hir) ar bwynt priodol. Byddai'r lleoliad yma'n gweithredu fel carreg gamu cyn symud i ystâd yr oedolion.

*Cartref diogel i blant 3*
Roedd y cartref plant diogel yma'n cadw plant mor hir ag y gallent, hyd yn oed os oedd eu dedfryd yn eu cymryd ychydig heibio i'w pen-blwydd yn 18 oed. Barn y cartref yma oedd y dylai plant aros yn y math lleiaf cyfyngedig o ddalfa ag y bo modd a chyhyd ag y bo modd, ac felly byddai'n cytuno gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, ar gam cynnar, bod y plentyn yn aros yn y cartref plant diogel nes byddai'r pwynt trosglwyddo i'r ystâd oedolion yn cyrraedd. Mewn un achos cyfredol, roedd y cartref yn ceisio sicrhau bod plentyn oedd ar fin cael ei drosglwyddo i'r ystâd oedolion yn gwneud y gorau y gallai mewn addysg cyn y trosglwyddiad er mwyn cefnogi'r ddadl y dylid ei anfon i sefydliad sy'n cynnig cyfle realistig iddo i symud ymlaen i wneud Lefelau A.

*Cartref diogel i blant 4*
Yn y cartref diogel yma i blant, awgrymwyd i staff y Comisiynydd Plant bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn amharod i gefnogi lleoliadau ôl-18 hirion oherwydd y gost, er gwaethaf y newidiadau i'r rheoliadau Safonau Gofal sy'n gadael i gartrefi diogel i blant  wneud hynny. Y duedd oedd bod merched yn aros yn y cartref os byddent yn cael eu rhyddhau o fewn chwe mis i'w 18fed pen-blwydd, ond bod bechgyn yn fwy tebygol o gael eu trosglwyddo heblaw eu bod yn mynd i gael eu rhyddhau yn fuan ar ôl troi'n 18.

Pan oedd hi'n amlwg y byddai plentyn yn treulio llawer o amser yn yr ystâd oedolion, roedd y cartref diogel i blant yn datblygu dull wedi'i gynllunio o'u paratoi ar gyfer y trosglwyddiad. Mewn un achos roedd bachgen wedi cael ei drosglwyddo i uned Keppel yn HMYOI Wetherby yn 17 oed am gyfnod, i baratoi ar gyfer ei symudiad i sefydliad troseddwyr ifanc i oedolion ifanc. Mewn achos arall, cytunwyd y byddai bachgen 15 oed ar ddedfryd oes, a oedd wedi cael ei gadw'n gyson ar y drefn uwch, yn cael ei drosglwyddo i uned Anson yn Wetherby. Roedd y cartref wedi trefnu i weithiwr achos o uned Anson ddod i siarad gyda'r plentyn am y drefn y byddai'n symud i mewn iddi. I baratoi, symudodd y cartref ef i ystafell wely o faint arferol ac yn raddol tuag at drefn llai hael gyda llai o eiddo a breintiau a fyddai'n debycach i'r drefn y byddai'n byw ynddi yn y sefydliad troseddwyr ifanc. Ar ôl symud, cysylltodd â'r cartref i ddiolch iddynt am ei helpu i baratoi ar gyfer y newid.

**Trosglwyddiad o Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands i Goleg Diogel Hydebank Wood**
Yn 2016, trosglwyddodd naw bachgen o Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands i Goleg Diogel Hydebank Wood yng Ngogledd Iwerddon, a phob un ohonynt yn 18 oed. Roedd pedwar ohonynt wedi cael eu dedfrydu ac roedd pump ar remand. Nid oedd unrhyw ferched wedi gwneud y trosglwyddiad.

Roedd protocol rhwng Woodlands a Hydebank Wood i gefnogi trosglwyddiad llwyddiannus y plant drwy gydweithredu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Yr egwyddorion oedd yn sail i'r protocol oedd bod plant sy'n gymwys i drosglwyddo'n cael eu pennu ar y pwynt cynharaf posib, a bod eu hanghenion unigol (yn cynnwys statws cyfreithiol, risg o niwed i'r hunan ac i eraill, iechyd meddwl, iechyd corfforol, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ethnigrwydd, hil, crefydd, diwylliant a chyfranogaeth mewn rhaglenni gostwng troseddu) yn cael eu hadlewyrchu mewn cynllun trosglwyddo oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth hyblyg a pharhaus. Cyn y trosglwyddiad, rhoddwyd pecyn gwybodaeth i'r plentyn (yn cynnwys DVD a ffotograffau) am Hydebank Wood.

Dylid rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am y plentyn (yn cynnwys gwybodaeth am addysg) cyn iddynt symud i'r gwasanaethau oedolion, a dylai'r plentyn a'u teuluoedd gyfranogi yn y cynllunio. Er bod y protocol yn nodi y dylai cyfarfod cynllunio trosglwyddiad ddigwydd dri mis cyn y trosglwyddiad, mewn gwirionedd, oherwydd ansicrwydd a fyddai'r plant yn cael mechnïaeth ai peidio, dim ond mis o flaen llaw y byddai'n cael ei gynnal yn aml iawn. Wedi i'r plentyn gael ei drosglwyddo, roedd cynrychiolwyr o Woodlands yn gallu dod i gyfarfodydd ac ymweliadau os byddent yn dewis hynny.

**Casgliadau**


Mae profiad y sefydliadau troseddwyr ifanc yma, y pedwar cartref diogel i blant yn Lloegr a Chanolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands yng Ngogledd Iwerddon, yn awgrymu bod meddwl a chynllunio mawr y tu ôl i'r mwyafrif o drosglwyddiadau. Ond, er bod elfennau tebyg yn y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan wahanol sefydliadau (rhoi gwybodaeth i blant, dod â staff o'r sefydliadau derbyn i gwrdd â'r plentyn cyn trosglwyddo) maent yn gwahaniaethu mewn rhai agweddau arwyddocaol. Yn arbennig, mae'r dull o gyfyngu'n raddol ar drefn a breintiau plentyn mewn un cartref diogel yn cyferbynu gyda'r dull mewn un arall lle maent yn ceisio cadw plant yn y drefn gadw leiaf cyfyngedig bosib gyhyd ag y bo modd.

Yr unig ffordd y gall yr adnoddau sylweddol sydd wedi eu hymrwymo i gynllunio'r trosglwyddiad i sefydliad cadw oedolion gael effaith bositif ar ganlyniadau yw os ydynt yn hysbysu darpariaeth y gwasanaethau i oedolion ifanc yn ystod eu cyfnod ymsefydlu ac am y misoedd cyntaf yn yr ystâd oedolion. Mae'r canfyddiadau gan aelodau NPM yng Nghymru a Lloegr yn dangos mai canlyniad cael nifer fawr o sefydliadau'n derbyn oedolion ifanc o ystâd y plant yw bod y ffordd y cânt eu derbyn yn amrywio'n eang hefyd. Dylai sefydliadau sy'n derbyn carcharorion yn rheolaidd o ystâd y plant fod â threfniadau cadarn ar waith i ddatblygu cynlluniau wedi'u teilwra i'r unigolyn er mwyn eu hymsefydlu ac hefyd ar gyfer eu diwrnodau cynnar yn yr ystâd oedolion. Mae achos Joshua Collinson yn amlygu'r risgiau sy'n codi o unrhyw broses drosglwyddo os nad yw nodweddion bregus y rhai ifanc mewn sefydliadau cadw'n cael eu hystyried neu os nad yw gwybodaeth yn cael ei phasio ymlaen rhwng sefydliadau.

Drwy'r gwaith yma, roedd yr NPM a'i aelodau'n bwriadu cryfhau eu dealltwriaeth o'r trosglwyddiadau sy'n bodoli, yr amrywiad rhyngddynt a'r prosesau y tu ôl iddynt. Bydd yn bwydo i mewn i drafodaethau yn is-grŵp plant a phobl ifanc yr NPM ar sut i gryfhau gwaith monitro'r NPM o'r prosesau hyn.

# Adran tri

# Yr NPM yn 2016-17



## Cryfhau'r NPM

Ym mis Ionawr 2017, ysgrifennodd Cadeirydd yr NPM at y Cyfarwyddwr Barnwrol, Hawliau a Pholisi Rhyngwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn nodi ystod o faterion yn ymwneud ag annibyniaeth a llywodraethiad yr NPM sy'n destun pryder i NPM (gwelwch Atodiad 1). Yn arbennig, roedd y llythyr yn mynegi pryder am y diffyg deddfwriaeth i esbonio mandad yr NPM ei hun a'i gyrff cyfansoddiadol, y diffyg gwarantau statudol o annibyniaeth ar gyfer yr NPM neu ei aelodau, a'r diffyg cyllideb ar wahân. Mae gan y cyfyngiadau yma oblygiadau arwyddocaol i'r NPM o ran ei gydymffurfiad ffurfiol gyda Phrotocol Opsiynol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn Erbyn Artaith (OPCAT) a gyda chanllawiau gan Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbi Creulon, Annynol neu Ddiraddiol (SPT) o ran ei hygrededd, ei enw da, ei effeithiolrwydd a'i atebolrwydd. Mae'r llythyr hefyd yn nodi barn y Cadeirydd bod y swm nominal a osodwyd i un ochr ar gyfer cydlyniad NPM yn y gyllideb Arolygiaeth Carchardai EM gyfan yn anaddas ar gyfer NPM sy'n sefydliad o gyrff niferus ac sydd angen cydlyniad cymhleth. Ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad, nid oedd yr NPM wedi derbyn ateb.

Cododd NPM y ffaith fod angen deddfwriaeth yn ymholiad y Pwyllgor Cyfiawnder ar ddiwygiad carchardai[132] hefyd ac yn ymholiad y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol ar iechyd meddwl a marwolaethau mewn carchardai.[133]

I danlinellu pryder yr NPM bod y materion yma'n rhwystro ei gydymffurfiad ag OPCAT cafwyd yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr SPT yn dilyn ei ymweliad cynghori â'r Iseldiroedd, sydd ag NPM o gyrff niferus sydd â rhai nodweddion tebyg. Yn ei adroddiad, mae'r SPT yn nodi'r gofyniad clir am gael 'testun deddfwriaethol ar wahân yn rheoleiddio swyddogaeth sy'n benodol berthnasol i'r NPM, a mandad NPM, y berthynas rhwng aelodau'r NPM a chyrff eraill [...]'. Yn ogystal, nododd yr SPT ei fod yn 'ystyried bod mabwysiadu cyfraith NPM arwahanol yn gam hanfodol i warantu cydymffurfiad [ag OPCAT]'.[134]

Ar sail y pryderon yma a'r sefyllfa glir a esboniwyd gan yr SPT, argymhellodd yr NPM y dylid cyflwyno sail statudol ar gyfer yr NPM i'r Bil Carchardai a Llysoedd a oedd gerbron y Senedd.[135] Roedd hi'n siomedig na chymeradwyodd y llywodraeth yr argymhelliad hwn.[136] Hyd yn hyn, nid yw'r NPM wedi derbyn ymateb clir gan y llywodraeth ynghylch ei barn am ddymunoldeb cael deddfwriaeth NPM, er bod ei gweithredoedd yn awgrymu nad yw'n fodlon iawn ei chymeradwyo. Roedd y Bil Carchardai a Llysoedd a gyflwynwyd gan y llywodraeth yn cynnwys cyfeiriad at rôl OPCAT Arolygiaeth Carchardai EM – cyfeiriad a groesawn, er bod ceisiadau a gyflwynwyd gan y blaid Lafur i

**132.** Tystiolaeth ysgrifenedig gan Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU, Ionawr 2017, http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/justice-committee/prison-reform/written/45906.html [cyrchwyd 13/11/17].

**133.** Tystiolaeth ysgrifenedig gan Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU, Mawrth 2017, http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/human-rights-committee/mental-health-and-deaths-in-prison/written/48220.html [cyrchwyd 13/11/17].

**134.** SPT y Cenhedloedd Unedig, 2016, *Visit to the Netherlands for the purpose of providing advisory assistance to the national preventive mechanism: recommendations and observations addressed to the State party*, CAT/OP/NLD/1, http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhsgiAnytcXxlWnYdDFRlJcNPek7dfRjpqX4Nu%2bcche4lj1AO %2bAYSGegH%2bwcNwX0kkQF9XABYH1bqUTI0BfBYVBT29yOnvK4QlFYsb8st6Lni6 [cyrchwyd 27/08/17].

**135.** Y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, *Written evidence submitted by John Wadham, Chair of the UK National Preventive Mechanism* (PCB 08).

**136.** Roedd yr angen am roi'r NPM ar sail statudol wedi'i gefnogi gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder, Bob Neill AS (Cwestiynau Testunol, 25 Ebrill 2017, Cyfrol 624) ac yn 14eg Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder – *Prison Reform: Part 1 of the Prisons and Courts Bill*, HC 1150, 28 Ebrill 2017.

gryfhau hyn (ceisiadau a groesawyd gan NPM) wedi eu gwrthod yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus gan y Gweinidog Carchardai Sam Gyimah AS a chawsent eu tynnu'n ôl.[137,138]

Ym mis Ionawr 2017, ymatebodd Cadeirydd NPM hefyd i lythyr gan Sam Gyimah, yn rhoi gwybod iddo am gasgliadau adolygiad llywodraethu'r Byrddau Monitro Annibynnol (IMBs). Roedd y Cadeirydd yn mynegi boddhad bod y model llywodraethu newydd yn welliant ar drefniadau blaenorol ond esboniodd ei bryderon ynghylch y ffaith y byddai ysgrifenyddiaeth IMB yn parhau i gael ei reoli gan weision sifil fel rheolwyr llinell yn eistedd yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd hefyd â chyfrifoldeb gweithrediadol am y mwyafrif o'r lleoedd y mae IMBs yn eu monitro.

Gyda'r bwriad o gryfhau ei broffil cyhoeddus a rhoi cyhoeddusrwydd i'w waith, sefydlodd yr NPM borthiant Twitter (@uknpm) ym mis Tachwedd 2016. Yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd y porthiant Twitter i hyrwyddo prosiectau NPM, y gwaith a'r adroddiadau gan ei aelodau yn ymwneud â charchariad, a datblygiadau rhyngwladol yn ymwneud ag atal artaith a charchariad.

Drwy gydol y flwyddyn gweithiodd yr NPM a'i aelodau gyda'r Athro Rachel Murray a Dr Judy Laing o'r Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Bryste ar ddau brosiect sydd â'r nod o gryfhau cydymffurfiad NPM ag OPCAT. Bwriad y prosiect cyntaf oedd archwilio faint yr oedd y cynlluniau ymweld lleyg yn yr NPM yn cydymffurfio ag OPCAT. Bwriad yr ail brosiect oedd canfod sut mae achosion o driniaeth wael yng nghyd-destun carchariad/amddifadu o ryddid yn cael eu cofnodi a'r mecanweithiau sydd ar gael i ymdrin â nhw. Cyflawnwyd gwaith ymchwil desg yn ystod y flwyddyn ar gyfer y ddau brosiect.

## Datblygiadau yn ymwneud yn benodol ag aelodau

Bu'r Arolygiaeth Gofal (CI) a Healthcare Improvement Scotland yn arwain y gwaith o ddatblygu Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd yr Alban ar ran Llywodraeth yr Alban. Yn dilyn ymgynghoriad ac ymgysylltiad eang gyda phobl sy'n profi, yn darparu ac yn comisiynu gofal, cafodd y safonau eu lansio ar 9 Mehefin 2017.

Cyflwynodd yr Arolygiaeth Gofal newidiadau mawrion i'w fethodoleg arolygu i ddod yn weithredol o 1 Gorffennaf 2016. Bwriad y dull newydd o wneud arolygon yn erbyn themâu ansawdd yn hytrach na datganiadau ansawdd, yw galluogi arolygwyr i adolygu ansawdd y gofal a ddarperir mewn ffordd fwy cyfannol, a bydd adroddiadau arolygu byrrach yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael gafael ar ganfyddiadau craffu. Yn ogystal â'i waith arolygu parhaus, gwnaeth yr arolygiaeth gofal waith craffu wedi'i dargedu drwy gydol y flwyddyn mewn perthynas â chartrefi gofal, gwasanaethau cymorth tai a gwasanaethau gofal yn y cartref i gefnogi pobl gydag anabledd dysgu. Gwnaethpwyd y gwaith yma yn dilyn cyhoeddiad strategaeth 10 mlynedd yr Alban yn 2013 ar gyfer cefnogi pobl gydag anabledd dysgu. Cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gofal ganlyniadau ei rhaglen ddwy

**137.** Hansard, 2017, *Prisons and Courts Bill (Third sitting), 29 March 2017* https://hansard.parliament.uk/Commons/2017-03- 29/debates/fed3b6b9-d00b-449f-9a4a-35e3806682e4/PrisonsAndCourtsBill(ThirdSitting) [cyrchwyd 13/11/17].

**138.** Gollyngwyd y Bil Carchardai a Llysoedd ar ôl cyhoeddi Etholiad Cyffredinol brys a diddymu'r Senedd. Pan agorwyd y senedd newydd ym mis Mehefin 2017, nid oedd unrhyw arwydd yn Araith y Frenhines bod y llywodraeth yn bwriadu ailgyflwyno deddfwriaeth carchardai a chyflwynwyd 'Bil Llysoedd' eto heb unrhyw rai o'r darpariaethau yn ymwneud â charchardai.

flynedd o waith arolygu gyda ffocws yn y maes yma ym mis Mawrth 2017.[139] Cychwynnodd yr Arolygiaeth Gofal hefyd arolygon gyda ffocws mewn dau faes pellach: dementia mewn cartrefi gofal i bobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o graffu'r Strategaeth Dementia Genedlaethol; a'r maes camfanteisio'n rhywiol ar blant i sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn gofal preswyl yn gallu adnabod ac ymateb yn briodol i gefnogi plant a phobl ifanc fregus a allai fod dan risg.

Bu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn arolygu'r tri ysbyty diogelwch uchel yn Lloegr rhwng mis Tachwedd 2016 a Mawrth 2017, gan gyflwyno hysbysiad rhybuddio i'r ymddiriedolaeth GIG sy'n rheoli Ysbyty Broadmoor yn dilyn yr arolwg yno. Yn ogystal â'i arolygon o ysbytai diogelwch uchel, parhaodd y CQC gyda'i raglen o arolygon cynhwysfawr o'r holl wasanaethau iechyd arbenigol yn Lloegr, gwaith a gychwynnodd yn 2014. Gwnaeth y CQC adolygiad cenedlaethol o'r ffordd y mae'r ymddiriedolaethau GIG yn adnabod, yn adrodd am, yn archwilio ac yn dysgu o farwolaethau pobl a ddefnyddiodd eu gwasanaethau yn 2016. Yn yr adroddiad, *learning, candour and accountability,* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, tynnwyd sylw at gyfleoedd a gollwyd i ddysgu gwersi o farwolaethau cleifion a'r ffaith fod gormod o deuluoedd heb gael eu cynnwys neu heb gael clust yn ystod arolygon. Mae'r adroddiad yma wedi hysbysu rhaglen waith ar draws y wlad i wella'r camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn marwolaeth ac i wella'r gofal yn y dyfodol i gleifion a'u teuluoedd, yn cynnwys cleifion sy'n marw tra maent wedi eu carcharu gan y wlad.

Parhaodd y Comisiynydd Plant i Loegr (CCE) i wneud ymweliadau wedi'u cyhoeddi ac ymweliadau dirybudd â safleoedd cadw plant. Yn ystod 2016-17 canolbwyntiodd y gwaith yma ar gartrefi diogel i blant er mwyn deall nodweddion bregus y plant yn y math yma o leoliad, a sut roedd eu hanghenion yn cael eu diwallu. Ehangodd y CCE ffocws ei ymweliadau hefyd â sefydliadau cadw, gan wneud ymweliadau peilot â'r chwe uned gwasanaeth iechyd meddwl fforensig diogelwch canolig i blant a'r glasoed er mwyn dod i ddeall yn well am blant sy'n cael eu cadw yn y lleoliadau yma, sut mae'r unedau'n gweithio a'u trefnau rhyngweithio gyda'r sector cyfiawnder ieuenctid. Yn ogystal, gwnaeth y CCE waith ymchwil ar ddarpariaeth oedolion priodol nad ydynt yn deulu i blant yn nalfa'r heddlu i ganfod a yw hyn, ac i ba raddau y mae hyn, yn cyfrannu'n ddianghenraid at y cyfnod o amser y mae plant yn ei dreulio yn nalfa'r heddlu, a sut y gellid gostwng y cyfnod hwnnw.

Parhaodd y CCE i gymryd rhan yn y Fforwm Ymadawyr Gofal Cenedlaethol a gydlynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, y mae ei waith yn canolbwyntio ar wella'r broses o adnabod pobl ifanc yn y ddalfa sydd wedi cael profiad o ofal yn y gorffennol a gwella eu mynediad at hawliau.

Parhaodd Arolwg Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI) â'i raglen o waith arolygu ac hefyd cychwynnodd arolwg thematig o adsefydliad carcharorion yng Ngwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon, y bydd yn rhoi ei gasgliad amdano yn hwyr yn 2017.

**139.** Yr Arolygiaeth Gofal, 2017, *THE KEYS TO LIFE: Report of the Care Inspectorate's Inspection Focus Area 2014–2016,* http://www.careinspectorate.com/images/documents/3741/Keys%20to%20life%20report.pdf [cyrchwyd 13/11/17].

Parhaodd Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) gyda'i waith yn archwilio ac yn rheoleiddio ysbytai gyda chleifion o sefydliadau cadw, gan gynnwys monitro a defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu eu pwerau a'u dyletswyddau mewn perthynas â chleifion sydd wedi eu cadw neu sy'n atebol i DoLS, ac nad yw trefniadau cadw *de facto* yn cael eu defnyddio. Cyflwynodd AGIC gyfryngau arolygu newydd i wella gwaith monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac i adlewyrchu'r newidiadau yn y Ddeddf Iechyd Meddwl – Cod Ymarfer i Gymru newydd, a ddaeth i rym ym mis Hydref 2016. Parhaodd y gwaith o gryfhau darpariaeth y Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) drwy benodi, hyfforddi ac ymsefydlu nifer o feddygon SOAD newydd. Canfu gwaith arolygu AGIC drwy gydol y flwyddyn nifer o gleifion o fewn ysbytai annibynnol oedd wedi eu lleoli'n amhriodol, gan olygu bod AGIC wedi cymryd rôl fwy rhagweithiol drwy gydol y flwyddyn i gysylltu ag asiantaethau comisiynu i nodi bod yn rhaid canfod lleoliadau eraill ar gyfer cleifion o'r fath.

Gwnaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)[140] wyth arolwg o ddalfeydd yr heddlu rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, ar y cyd gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Roedd yr arolygon yma'n asesu canlyniadau ar gyfer pobl mewn sefydliadau cadw yn erbyn Disgwyliadau diwygiedig i Ddalfeydd yr Heddlu a gyflwynwyd o Ebrill 2016. Mae hyn wedi cryfhau'r dull o arolygu, gan adlewyrchu meysydd a benwyd ar gyfer gwelliant yn hunanasesiad yr NPM. Yn arbennig, mae mwy o ffocws erbyn hyn ar les a thriniaeth pobl a phlant agored i niwed yn nalfa'r heddlu, ac ar eu dargyfeirio nhw i ffwrdd oddi wrth sefydliad cadw lle bo'n bosibl.

Parhaodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yr Alban (HMICS) i arolygu mannau cadw'r heddlu yn yr Alban. Yn dilyn marwolaeth dau ddyn yn nalfa'r heddlu yn 2013 a chyhoeddiad yr adroddiadau Ymholiad i Ddamwain Marwol cysylltiedig ym mis Rhagfyr 2015, gwahoddwyd HMICS gan Heddlu'r Alban i wneud arolygon ychwanegol o'r canolfannau cadw perthnasol. Nod yr arolygon yma, a wnaed ym misoedd Ebrill a Mai 2016 oedd rhoi sicrhad am y ddarpariaeth gadw yn y ddwy ganolfan gadw a helpu Heddlu'r Alban i ddatblygu eu prosesau archwilio a gwelliant mewnol eu hunain. Ers hynny mae Heddlu'r Alban wedi bod yn datblygu tîm gwella parhaus/craffu mewnol mewn sefydliadau cadw yn rhannol yn ôl awgrymiadau gan HMICS a'r hyn a ddysgwyd o'r ddau arolwg.

Mae HMICS wedi bod yn trafod y posibilrwydd o ddatblygu arolygon ar y cyd o fannau cadw'r heddlu gyda Gwelliant Gofal Iechyd yr Alban (HIS). Mae HMICS yn credu y bydd arolygon ar y cyd gyda HIS, y corff sy'n gyfrifol am arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn yr Alban, yn sicrhau'r cydymffurfiad mwyaf ag OPCAT wrth fonitro a bydd yn caniatáu ar gyfer asesiad mwy cyfannol o'r driniaeth a'r amodau i bobl sy'n cael eu cadw yn nalfeydd yr heddlu. Y gobaith yw y bydd modd cychwyn arolygon ar y cyd cyn diwedd 2017-18.

Cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMI Prisons) 86 o adroddiadau arolwg unigol am garchardai, ystafelloedd dalfa'r heddlu, canolfannau symud mewnfudwyr a sefydliadau cadw eraill yn ystod y flwyddyn. Yn ychwanegol at ei rôl arolygu, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM hefyd y Disgwyliadau am ddalfeydd yr heddlu (ar y cyd gyda HMICFRS) yn dilyn ymgynghoriad eang â'r cyhoedd.

**140.** Newidiodd HMIC ei enw i HMICFRS ym mis Gorffennaf 2017, gan adlewyrchu ehangiad y sefydliad i ddod yn arolygiaeth cwbl integredig ar gyfer yr heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub.

Cychwynnodd y gwaith o ddrafftio Disgwyliadau diwygiedig i garchardai dynion, gan gynnwys cwmpasu'r safonau hawliau dynol rhyngwladol perthnasol ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae Arolygiaeth Carchardai EM hefyd yn parhau i wneud gwaith ymchwil thematig, gyda nifer o adroddiadau'n cael eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys adolygiad o gyfleusterau cadw tymor byr ar gyfer y cyfnod 2011-16, adroddiad am y ffordd ymlaen i garcharorion sydd wedi eu carcharu am resymau diogelwch y cyhoedd, ac adroddiad am effaith pellter o'r cartref ar blant mewn sefydliadau cadw. Gwnaeth Arolygiaeth Carchardai EM gynigion i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am gryfhau ei bwerau mewn deddfwriaeth yn unol â gofynion OPCA, i hysbysu'r gwaith o ddrafftio'r Bil Carchardai a Llysoedd.

Yn ogystal â gweithredu ei gyfrifoldeb cyffredinol am fonitro carchardai yn yr Alban, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM yr Alban (HMIPS), safonau ar gyfer arolygu dalfeydd llys ym mis Mawrth 2017. Datblygwyd y safonau yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac maent wedi eu seilio ar safonau hawliau dynol rhyngwladol. Hefyd gweithredodd HMIPS gronfa ddata newydd ar gyfer cofnodi sylwadau monitoriaid annibynnol carchardai, sy'n gadael i adroddiadau gael eu cynhyrchu ac i dueddiadau gael eu dadansoddi. Sefydlwyd rhif rhadffôn cyfrinachol sydd ar gael i garcharorion ac eraill ac sy'n caniatáu i bryderon gael eu codi ac i geisiadau gael eu gwneud i weld monitor. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth HMIPS arolwg dilynol o HMP a YOI Cornton Vale. Arweiniodd yr argymhellion o'r arolwg hwn at gau darnau o'r carchar yn gynnar a throsglwyddo 100 o ferched i sefydliad mwy priodol.

Mae'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw (ICVA) wedi parhau â'i gwaith o gasglu data cenedlaethol am ymweliadau a dalfeydd yr heddlu a llwyddiannau a heriau y mae gwirfoddolwyr yn eu wynebu unwaith y byddent yno. Mae'r data yma wedi caniatáu i ICVA godi canfyddiadau thematig gyda'r Swyddfa Gartref a phartneriaid cenedlaethol eraill megis Cyngor Cenedlaethol Prif Arolygwyr yr Heddlu. Mae ICVA wedi tynnu sylw at broblemau cyfweliadau gwirfoddol, lle gallai pobl fod mewn sefydliad cadw *de facto* ond nid oes cyfle iddynt weld monitor annibynnol, gyda'r Swyddfa Gartref a phartneriaid cenedlaethol eraill. Arweiniodd hyn at brosiect cenedlaethol a fydd yn gweithredu arweiniad ac arferion newydd gyda'r nod o ddiogelu pobl mewn sefydliadau cadw a sicrhau cydymffurfiad ag OPCAT. Bu ICVA hefyd yn trafod cyfweliadau gwirfoddol gyda'r Fforwm Sefydliadau Cadw Cenedlaethol, yr ymunodd ag o eleni, ac maer trafodaethau hyn wedi arwain at brosiect i ystyried goruchwylio a diogelu annibynnol ar gyfer y rheiny sy'n mynd i gyfweliadau'n wirfoddol. Mae'r Fforwm yn bartneriaeth o Brif Arolygwyr yr Heddlu Cenedlaethol dan arweiniad y Cyngor sy'n ceisio gweithredu Strategaeth Sefydliadau Cadw Cenedlaethol a gwella safonau mewn sefydliadau cadw ar draws y DU.

Parhaodd ICVA i weithio i gefnogi a chryfhau cynlluniau monitro sefydliadau cadw annibynnol, i adolygu hyfforddiant ac i ddatblygu pecynnau ymsefydlu newydd ar gyfer cynlluniau. Cynhaliodd ICVA gynhadledd oedd yn briffio cynlluniau ar faterion newydd o fewn sefydliadau cadw a thynnodd sylw at waith yr NPM a phwysigrwydd OPCAT. Gwnaeth ICVA

hefyd wiriad iechyd o'r holl gynlluniau i ddeall cydymffurfiad gyda'i God Ymarfer a fu'n ei helpu i gynllunio cynllun busnes 2017-18 sy'n galluogi cynlluniau i gyflawni gwell cydymffurfiad. Yn olaf, bu ICVA yn datblygu ac yn lansio gwefan i aelodau ar gyfer yr holl gynlluniau ymweld â sefydliadau dalfeydd, sy'n dod â llyfrgell o adnoddau at ei gilydd ar gyfer cynlluniau i wella arferion ac i gyflawni gofynion OPCAT.

Bu'r Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw yn Yr Alban (ICVS) yn parhau i ymweld ag ystafelloedd dalfeydd Heddlu'r Alban, gyda gwirfoddolwyr yn cwblhau bron i 1,600 o ymweliadau dirybudd yn ystod y cyfnod. Gwelodd ICVS gynnydd yn y nifer o bobl mewn sefydliadau cadw y gallai gynnig ymweliadau iddynt (i fyny 5%) a phobl mewn sefydliadau cadw a dderbyniodd ymweliadau (i fyny 23%) ar y flwyddyn flaenorol. Cynhwysodd ICVS y cyfrifoldeb o fonitro celloedd heddlu wedi'u cyfreithloni (LPCs) i mewn i'w arferion busnes a datblygwyd hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig yn barod ar gyfer gweithredu Deddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2016. Bydd yr hyfforddiant yma'n cael ei ddarparu i'r holl ymwelwyr gwirfoddol â sefydliadau cadw cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Hefyd lledaenodd ICVS arweiniad NPM ar ynysu mewn sefydliadau cadw i'r holl ymwelwyr a thynnu sylw'r staff cadw yn Heddlu'r Alban ato.

Yn dilyn dau adolygiad o'i rôl a'i lywodraethiad mewn blynyddoedd diweddar dechreuodd y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) gyflwyno strwythur rheoli newydd a fyddai'n cynnwys penodi Cadeirydd Cenedlaethol â thâl a fydd yn cael ei gefnogi gan fwrdd rheoli newydd. Hefyd, cyhoeddodd yr IMB ei 'Friff Craidd' sy'n nodi ei swyddogaethau craidd a'i berthynas gydag OPCAT a'r NPM. Mae'r Gweithgor Hyfforddiant a Datblygiad wedi gwneud gwaith i sicrhau bod yr holl raglenni hyfforddi'n cael eu tanategu gan gyfeiriadau at OPCAT ac NPM, ac mae wedi ehangu ei ddarpariaeth hyfforddi ar-lein. Cytunwyd ar dempled diwygiedig ar gyfer yr adroddiad blynyddol yn Ionawr 2017 i ddarparu arweiniad ynglŷn â sut i adrodd yn fwy effeithiol i Weinidogion a'r cyhoedd ar weithrediad y sefydliadau sy'n cael eu monitro gan Fyrddau. Nod y templed newydd yw sicrhau mwy o gysondeb wrth fonitro a mwy o fewnwelediad wrth adrodd am y driniaeth deg a thrugarog a roddir i bobl mewn sefydliadau cadw. Yn ogystal, cytunodd yr IMB ar drefn ddiffiniol gyda'r Swyddfa Gartref ar gyfer monitro hediadau alltudio ac estraddodi. Mae IMBs wedi sôn am lwyddiant mewn gwella cyfleusterau i bobl mewn sefydliadau cadw drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, ar ôl monitro penodol wedi'i dargedu gan yr IMB o gyfleusterau i ymwelwyr yng Ngharchar EM Belmarsh, ychwanegwyd llinellau ffôn a seddi ychwanegol i ostwng y pwysau ar y cyfleusterau.

Dynodwyd yr Adolygiad Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL) yn aelod o'r NPM ar 12 Ionawr 2017, a chychwynnodd Adolygydd Annibynnol newydd, Max Hill CF, yn y rôl ar Fawrth 1. Cyhoeddodd ei ragflaenydd ei adroddiad blynyddol ar weithrediad y Deddfau Terfysgaeth ym mis Rhagfyr 2016, yn nodi nifer y bobl sy'n cael eu cadw ac amodau eu daliad.

Mae'r IRTL yn monitro'r holl restiadau a threfniadau carcharu mewn perthynas â therfysgaeth, yn bennaf o dan y Ddeddf Derfysgaeth 2000. Mae'r IRTL yn gweithio'n agos gyda'r ICVA i helpu yn y rôl yma, ac ers yr ymosodiadau terfysgaeth ar Bont Westminster yn Llundain ar Fawrth 22 2017, cafwyd lefel nas gwelwyd ei math o'r blaen o waith i bawb perthnasol. Bydd yr IRTL yn cyhoeddi darlun wedi'i ddiweddaru yn ei adroddiad blynyddol ar ddiwedd 2017. Mae rôl IRTL yn cynnwys adolygu adroddiadau dyddiol gan bob un o'r ystafelloedd

terfysgaeth sy'n digwydd bod yn agored. Mae ymwelwyr annibynnol â sefydliadau cadw'n cadarnhau iddo fod gan bawb a gedwir yn y sefydliadau cadw'n gwybod beth yw eu hawliau a'u hiawnderau, ac yn darparu adroddiadau am iechyd a lles y bobl yma, eu hamodau a'u cyfleusterau ac unrhyw anghenion arbennig neu faterion perthnasol eraill.

Gan adeiladu ar y cyflwyniad diweddar o lefelau adrodd safonol, mae Arsyllwyr Lleyg (LO) wedi cyflwyno adroddiadau electronig am eu hymweliadau yn rhoi gradd benodol a naratif i gefnogir graddau yma. Mae arsyllwr lleyg wedi casglu ystadegau cenedlaethol o'r adroddiadau i ganfod tueddiadau a materion allweddol i'w cyflwyno i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys EM ac i gontractwyr hebryngwyr. Yn ogystal, lansiodd arsyllwyr lleyg arolwg yn fuan yn 2017 i ddarparu manylion gwaelodlin yr holl gyfleusterau allweddol ar draws yr ystâd llysoedd. Roedd ffocws ar ofal iechyd drwy gydol y flwyddyn, gyda'r Cyngor Cenedlaethol o Arsyllwyr Lleyg yn monitro ac yn adrodd yn fisol ar yr asesiadau o risgiau gofal iechyd a baratowyd gan garchardai ac ystafelloedd dalfeydd yr heddlu i hebryngwyr a dalfeydd y llysoedd, argaeledd y feddyginiaeth ar bresgripsiwn i'r rheiny sy'n cael eu cadw yno, safon y cymorth gofal iechyd meddyliol a chorfforol sydd ar gael yn nalfeydd y llys, ac effaith unrhyw elfennau annigonol ar allu'r person sy'n cael ei gadw i gyfranogi yn nhrefn y llys. Codwyd pryderon sylweddol am y diffyg mynediad at broses gwyno gyfrinachol a'r amseroedd aros annerbyniol o hir i blant a phobl ifanc cyn ac ar ôl eu gwrandawiad.

Gwnaeth Y Comisiwn Lles Meddyliol i'r Alban (MWCS) ddau brosiect ymweld graddfa fawr gyda thema yn ystod y flwyddyn. Roedd un prosiect yn archwilio'r gofal a'r driniaeth yn yr holl wardiau derbyniad dwys i oedolion, gan gynnwys ffocws ar y cwestiwn a oedd yr hawliau allweddol yn cael eu parchu ac a oeddent yn cydymffurfio gyda'r amddiffyniad deddfwriaethol. Roedd yr ail brosiect yn edrych ar y gofal a'r driniaeth a roddwyd ymhob cyfleuster diogelwch canolig ac isel yn yr Alban, oherwydd y lefelau uwch o gyfyngiad y bydd pobl sy'n cael eu cadw mewn lleoliadau diogel yn eu profi. Cyhoeddwyd adroddiad am y prosiect cyntaf yn ystod y flwyddyn a bydd adroddiad ar yr ail brosiect yn cael ei gyhoeddi yn 2017. Yn ogystal, cyhoeddodd MCWS arweiniad arferion da ar wneud penderfyniadau gyda chefnogaeth, oedd yn myfyrio ar y disgwyliadau yn y Confensiwn ar Hawliau Pobl gydag Anableddau. Trefnodd MWCS nifer o ddigwyddiadau ymgynghori gan edrych ar yr angen i ddiwygio'r ddeddfwriaeth anghymhwysedd yn yr Alban er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda safonau hawliau dynol rhyngwladol. Parhaodd MWCS hefyd i ehangu ei waith gyda phartneriaid, yn rhan o rannu gwybodaeth fel grŵp rhwng asiantaethau cenedlaethol yn yr Alban am ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r grŵp newydd yma'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn hybu gweithgareddau wedi'u cydlynu pan welir bod risgiau posibl neu risgiau gwirioneddol i ansawdd y gofal a'r driniaeth, gan gynnwys unrhyw broblemau sy'n berthnasol i waith yr NPM.

Parhaodd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon, sy'n monitro cydymffurfiad Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Iwerddon gyda'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998, i roi'r camau presennol ar waith er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw (NIPBICVS). Gwnaeth Ymwelwyr â Sefydliadau Cadw 633 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn, 27% yn fwy na'r nifer a weithredwyd yn y flwyddyn flaenorol. Llwyddodd yr ymwelwyr i gwrdd â 517 o bobl mewn sefydliadau cadw gan wirio eu hawliau, eu hiechyd a'u lles, ac amodau eu carchariad.

Parhaodd y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) i arwain yr arolygon ar y cyd o ganolfannau hyfforddiant diogel (STCs) Lloegr ac i arolygu a rheoleiddio cartrefi diogel i blant (SCHs) yn Lloegr. Cyhoeddodd Ofsted Fframwaith Arolygon Cyffredin Gofal Cymdeithasol (SCCIF) newydd ym mis Chwefror 2017, ac mae arolygon o gartrefi diogel i blant yn digwydd o dan y fframwaith hwn erbyn hyn.[141] Mae'n canolbwyntio ar werthuso profiadau a chynnydd plant a'r hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w bywydau, ac mae'n nodi'n glir bod yn rhaid i'r holl arolygon SCCIF gymryd i ystyriaeth y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CRC). Mae'r SSCIF hefyd yn cyfeirio at y cyfraniad a gafwyd gan arolygon i OPCAT a chyfrifoldebau Ofsted fel aelod o'r NPM. Roedd datblygiad yr SSCIF yn cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau Ofsted o'i gyfraniad i arolwg NPM ar ynysu mewn lleoliadau diogel. Mewn arolygon STC ac SCH, mae arolygwyr erbyn hyn yn gwerthuso'r defnydd a wneir o wahanu unigol.

Aeth yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA) i ymweld â'r holl wardiau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Ngogledd Iwerddon o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn, gan wneud cyfanswm o 55 arolwg. Hefyd bu RQIA yn sgrinio trefniadau cadw cleifion, eu hasesiad a'u ffurflenni cadw, y mae gofyn i'r pum ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) eu cyflwyno: archwiliwyd 10,988 ffurflen gyda chyfradd wallau o 3.9%. O ganlyniad i ymyrriad RQIA, rhoddwyd terfyn ar gadw saith claf y gwelwyd eu bod yn cael eu cadw'n amhriodol. Yn ogystal, gwnaeth RQIA waith â ffocws mewn dau faes drwy gydol y flwyddyn, gan wneud adolygiad annibynnol o wasanaethau i ferched yng Ngogledd Iwerddon a ddioddefodd anhwylder meddyliol yn ystod neu ar ôl beichiogiad (iechyd meddwl amenedigol) a chyhoeddodd adroddiad ar ganfyddiadau gweinyddiad therapi electrogynhyrfol gan y pum ymddiriedolaeth HSC yng Ngogledd Iwerddon yn y cyfnod o 1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2016.

Ym mis Mawrth 2017, cynhaliodd RQIA ddigwyddiad cyfnewid gwybodaeth gyda rheolwyr gofal ar draws y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon, oedd yn cynnwys aelodau NPM (CQC, CI ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) a sefydliadau eraill (yr Awdurdod Iechyd, Gwybodaeth ac Ansawdd). Caniataodd y digwyddiad i sefydliadau glywed am arferion gorau mewn rheoleiddio a dysgu o brofiad rheoleiddwyr eraill.

Yn ogystal â gwneud nifer o gyflwyniadau i gyrff rhyngwladol drwy gydol y flwyddyn, paratodd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) daflen ffeithiau a darparodd argymhellion i'r cyhoedd ar garchariad, troseddau casineb a masnachu pobl.

**141.** Ofsted, 2017, *Social care common inspection framework*, www.gov.uk/government/collections/social-care-common-inspection-framework-sccif [cyrchwyd 13/11/17].

## Gwaith ar y cyd rhwng aelodau'r NPM

Yn ogystal â chydweithredu ar brosiectau thematig NPM ar y cyd, mae aelodau'r NPM yn gweithio gyda'i gilydd ar ystod eang o fentrau sydd â'r nod o gryfhau eu cydymffurfiad ag OPCAT a'u gwaith o fonitro carchariad. Mae trefniadau gweithio ar y cyd wedi parhau drwy gydol y flwyddyn er mwyn atal ac ymdrin ag unrhyw sancsiynau a allai ddigwydd o ganlyniad i gysylltiad ag aelod o'r NPM.[142]

Yn ogystal, parhaodd nifer o aelodau NPM i gydweithio ar arolygon ar y cyd, Yn yr Alban, ymunodd SHRC a CI gyda HMIPS ar bob arolwg. Yng Ngogledd Iwerddon, parhaodd Arolygiaeth Carchardai EM, CJINI a RQIA i gydweithio i wneud arolygon o garchardai, a chydweithiodd CJINI a RQIA i wneud arolygon o ddalfeydd yr heddlu.

Yn Lloegr, gwnaeth arolygwyr sgiliau ac addysg bellach Ofsted arolygon o ddysgu a sgiliau a gweithgareddau gwaith mewn carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc (YOIs) yn rhan o arolygon ar y cyd a arweinir gan Arolygiaeth Carchardai EM, gyda'r CQC yn arolygu gofal iechyd yn yr un cyfleusterau. Mae Arolygiaeth Carchardai EM hefyd wedi parhau i wneud arolygon ar y cyd o ddalfeydd yr heddlu gyda HMICFRS yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghymru, gweithiodd Arolygiaeth Carchardai EM gydag AGIC i wneud arolygon o garchardai.

## Cyflwyno cynigion ac arsylwadau ar ddeddfwriaeth (erthygl OPCAT 19(c))

Mae'r rhan fwyaf o aelodau NPM yn gweithio'n galed i gryfhau polisi'r llywodraeth sy'n berthnasol i leoliadau cadw y maent yn eu monitro ac i'w swyddogaethau nhw eu hunain hefyd. Yn ogystal, mae cydlyniad NPM yn gwneud cyflwyniadau ac yn darparu tystiolaeth ar faterion sy'n berthnasol i'r NPM cyfan. Eleni, darparodd yr NPM gyflwyniad byr i ymholiad Pwyllgor Cysylltiadau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi i flaenoriaethau'r Deyrnas Unedig ar gyfer Ysgrifennydd Cyffredinol newydd y Cenhedloedd Unedig.[143] Hefyd gwnaeth NPM gyflwyniad i Ymholiad y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol am Iechyd Meddwl a Marwolaethau yn y Carchar.[144] Rhoddodd y cyflwyniad fanylion canfyddiadau'r cyd-brosiect ar ynysu a charchariad unig a wnaed gan aelodau'r NPM, yn nodi'r diffyg cysondeb a goruchwyliaeth ar yr arferion yma a allai arwain at sefyllfa lle mae pobl sydd â'r un problemau iechyd meddwl yn union yn cael eu dal dan wahanol amodau.

Fel y nodwyd uchod, parhaodd y gwaith i gryfhau'r NPM, ac roedd hyn yn cynnwys y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a roddwyd gan Gadeirydd yr NPM i ymholiad y Pwyllgor Cyfiawnder ar ddiwygio carchardai ym mis Ionawr 2017, yn nodi bod methiant i ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer yr NPM yn mynd yn erbyn gofynion yr SPT.[145]

**142.** Mae gofyn i wladwriaethau sy'n barti drwy Erthygl 21(1) OPCAT sicrhau nad yw unrhyw sancsiynau'n digwydd yn dilyn darparu gwybodaeth i NPM.
**143.** Gwelwch: http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/justice-committee/prison-reform/oral/46581.html [cyrchwyd 13/11/17].
**144.** Gwelwch: http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/human-rights-committee/mental-health-and-deaths-in-prison/written/48220.html [cyrchwyd 13/11/17].
**145.** Gwelwch: http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/justice-committee/prison-reform/written/48826.html and http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/justice-committee/prison-reform/oral/46581.html [cyrchwyd 13/11/17].

Roedd cyfranogaeth yr aelodau mewn ymgynghoriadau a datblygiad polisïau'r llywodraeth wedi cynnwys y canlynol.

- Gwnaeth yr Arolygiaeth Gofal nifer o gyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys i: ymholiad Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban ar sut mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu mewn carchardai; yr ymgynghoriad ar adran 35(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (Yr Alban) 2007 (Ebrill 2016); yr ymgynghoriad ar weithrediad adrannau penodol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015 a rheoliadau cysylltiedig (Rhan 1); yr ymgynghoriad ar weithredu adrannau penodol o Ddeddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015 a rheoliadau cysylltiedig (Rhan 2); adolygiad o anabledd dysgu ac awtistiaeth yng nghyfraith iechyd meddwl yr Alban – ymgynghoriad cwmpasu; a'r ymgynghoriad ar Leiafswm Oedran Cyfrifoldeb Troseddol.
- Darparodd y CCE dystiolaeth ysgrifenedig i ymholiad y Pwyllgor Cyfiawnder am ddatgelu cofnodion troseddol plant, ac i'r ymgynghoriad ar Egwyddorion Trosfwaol diwygiedig y Cyngor Dedfrydu ar gyfer Dedfrydu'r Ifanc. Cyfrannodd y CCE hefyd at yr Adolygiad o'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, ac yn arbennig y gwaith o archwilio pa fodelau allai ddisodli sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau hyfforddiant diogel i blant.
- Cyflwynodd CJINI dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfiawnder mewn perthynas â'i adroddiad Gorffennaf 2016 am arolwg a gyhoeddwyd o flaen llaw o Garchar Maghaberry.
- Yn rhan o'i rôl fel aelod o Grŵp Strategaeth PACE y Swyddfa Gartref, cyfrannodd ICVA at ymgynghoriadau ar ddrafftio'r Ddeddf Heddlu a Throseddu 2017. Hefyd darparodd ICVA gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig i adolygiad y Fonesig Elish Anglioni i mewn i Farwolaethau mewn Carchariad.
- Darparodd Arolygiaeth Carchardai EM sylwadau ar nifer o Orchmynion Gwasanaethau mewn Sefydliadau Cadw a Gorchmynion a Chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai, a gwnaeth gyflwyniadau i ystod o ymgynghoriadau, yn cynnwys: ymholiad y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau ar gefnogaeth i gyn-droseddwyr; ymholiad y Menywod a'r System Cyfiawnder Troseddol; adolygiad Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) o iechyd corfforol pobl yn y carchar; adolygiad y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol o'r cynllun cymhelliannau a breintiau a haeddwyd; adolygiad Lammy o gynrychiolaeth bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder troseddol; ymholiad y Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau i ddefnyddwyr cyffuriau hŷn; yr adolygiad Iechyd mewn Cyfiawnder ac Oedolion Bregus Eraill o ferched yn y system cyfiawnder troseddol yn Llundain: strategaeth iechyd; ymholiad y Pwyllgor Cyfiawnder i ddiwygiad carchardai; ymholiad y Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa i farwolaethau merched yn y ddalfa; ac ymholiad y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol i iechyd meddwl a marwolaethau yn y carchar.
- Rhoddodd HMIPS dystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban ar ofal iechyd mewn carchardai.
- Darparodd yr IMB dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i ddiwygiad carchardai.
- Darparodd MWCS ymatebion i ymgynghoriadau ar weithredu darpariaethau yn y ddeddfwriaeth iechyd meddwl newydd yn yr Alban, ar gynigion am ddeddfwriaeth eilaidd yn ymwneud â'r ddeddf newydd, ac am strategaeth iechyd meddwl newydd i'r Alban (Ymgynghoriad ar weithredu adrannau penodol o Ddeddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015 a rheoliadau cysylltiedig (Rhan 1),

Ymgynghoriad ar weithredu adrannau penodol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015 ac ymgynghoriad ar Strategaeth Iechyd Meddwl newydd Llywodraeth yr Alban).

- Yn dilyn ymlaen o'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a ddarparwyd i ymholiad yr Arglwydd Larning am blant sy'n derbyn gofal a throseddu, cymerodd Ofsted ran mewn fforwm ar draws y sectorau dan arweiniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru a Lloegr oedd yn ystyried y gor-gynrychiolaeth o blant mewn gofal yn y system cyfiawnder troseddol a sut i wella canlyniadau i blant o'r fath.
- Cyfrannodd RQIA at Gam 1 datblygiad y cod ymarfer drafft a'r rheoliadau ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016 newydd. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno fframwaith cyfreithiol sy'n llywio galluedd ac analluedd am y tro cyntaf yng Ngogledd Iwerddon.
- Darparodd SHRC gyflwyniad i'r Ymgynghoriad ar Gynllun Darparu Drafft Llywodraeth yr Alban 2016-2020 mewn perthynas â'r Confensiwn ar Hawliau Pobl gydag Anableddau, gan roi sylw ar yr angen i sicrhau bod pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl sydd mewn sefydliadau cadw yn cael eu gosod yn y lle priodol ac yn derbyn triniaeth ddigonol. Yn ogystal, darparodd SHRC dystiolaeth i Senedd yr Alban ar amddifadedd, noddfa a statws mewnfudo ansicr yn yr Alban.

## Craffu mewnol a chydweithredu

### Craffu

Craffwyd ar hanes y DU o ran carchariad mewn nifer o adolygiadau yn ystod y flwyddyn gan gyrff y Cenhedloedd Unedig a sefydlwyd i archwilio gweithrediad cytundebau hawliau dynol.

#### Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn

Aeth Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig ati i adolygu cynnydd y DU o ran gweithredu'r CRC ym mis Mai 2016. Mabwysiadodd ei Sylwadau Terfynol ym mis Mehefin 2016.[146] Cyflwynodd y Comisiynwyr Plant i Loegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon adroddiad cysgodol ar y cyd i'r adolygiad, a gwnaeth yr SHRC hynny hefyd.

Nododd Arsylwadau Terfynol y Pwyllgor bryderon estynedig ac argymhellion mewn perthynas â phlant mewn sefydliadau cadw. Roedd y rhain yn cynnwys y galw am: ddiddymu'r holl ddulliau ataliaeth a ddefnyddir yn erbyn plant i bwrpasau disgyblu a gwahardd unrhyw dechneg a luniwyd i achosi poen i blant; casglu a chyhoeddi data wedi'i ddatgymalu ar ddefnyddio ataliaeth ac ymyriadau ataliol eraill; cyflymu cyflwyniad y gwaharddiad ar osod plant sydd ag anghenion iechyd meddwl mewn wardiau seiciatrig oedolion a gorsafoedd heddlu; rhoi'r gorau i gadw plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n mewnfudo (mewn perthynas â charchariad plant mewn cyfleusterau cadw tymor hir, a phlant na wyddys eu hoedran yn cael eu cadw mewn cyfleusterau oedolion); sefydlu'r egwyddor statudol y dylid defnyddio carchariad fel yr opsiwn olaf un, am y cyfnod byrraf posibl o amser a pheidio ei ddefnyddio'n wahaniaethol yn

146. Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 2016, *Concluding observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland* (CRC/C/GBR/CO/5), http://www.crae.org.uk/media/93148/UK-concluding-observations-2016.pdf [cyrchwyd 13/11/17].

erbyn grwpiau penodol o blant; sicrhau bod plant mewn sefydliadau cadw'n cael eu gwahanu oddi wth oedolion ymhob lleoliad cadw; a thynnu pob plentyn ar unwaith o garchariad unig, gwahardd defnyddio carchariad unig o dan unrhyw amgylchiadau ac archwilio'n rheolaidd y defnydd a wneir o wahanu ac ynysu mewn cyfleusterau cadw plant.

Mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig i'r Senedd ar 17 Hydref 2016, mynegodd y Gweinidog Gwladol dros Blant a Theuluoedd Agored i Niwed bryd hynny, Edward Timpson, ymrwymiad y llywodraeth i weithredu'r CRC. Roedd y Gweinidog yn croesawu'r Sylwadau Terfynol ac roedd yn eu hystyried yn 'ganllaw defnyddiol a phwysig i sicrhau bod ein polisïau – p'un a ydynt yn dal canlyniadau uniongyrchol neu anuniongyrchol – yn ystyried plant', ac anogodd holl adrannau'r llywodraeth i'w hystyried nhw.

### Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol

Aeth Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol ati ym mis Mehefin 2016 i adolygu cynnydd y DU o ran gweithredu'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Mewn cyflwyniad i'r adolygiad, mynegodd SHRC bryderon am y cynnydd yn y nifer o broblemau iechyd meddwl a geir mewn carchardai, am effeithiolrwydd deddfwriaeth iechyd meddwl yr Alban mewn gwirionedd, a'r amrywiaeth eang yn y ddealltwriaeth sydd gan bobl, a'u dehongliad hefyd, o adrannau o Ddeddf 2003 sy'n caniatáu rhoi gwaharddiadau ar bobl mewn sefydliadau cadw/yn y ddalfa.

Yn ei Sylwadau Terfynol, mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y diffyg adnoddau digonol a ddarperir i'r gwasanaethau iechyd meddwl, yn argymell bod y DU yn 'parhau â'i hymdrechion [...] i sicrhau hygyrchedd, argaeledd ac ansawdd y gofal iechyd meddwl, gan gynnwys i bobl yn y ddalfa.'[147]

### Y Pwyllgor ar Hawliau Pobl gydag Anableddau

Cyflwynodd y CCE a'r SHRC adroddiadau cysgodol i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl gydag Anableddau, a oedd yn mynd i gael ei adolygu yn y DU ym mis Awst 2017. Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau ar bynciau yn ymwneud â charchariad i lywodraeth y DU eu hateb yn ystod yr adolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys: amddiffyniad deddfwriaethol i ddiogelu pobl gydag anabledd yn erbyn amddifadu o ryddid ar sail nam; mesurau a gymerwyd i waredu'r drefn o gadw pobl gydag anableddau yn anwirfoddol; mesurau a gymerwyd i ymateb i gamdriniaeth pobl gydag anableddau mewn sefydliadau cadw a lleoliadau gofal; a defnyddio dulliau ataliaeth.[148]

**147.** Cyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig, 2016, *Committee on Economic, Social and Cultural Rights, Concluding observations on the sixth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland* (E/C.12/GBP/CO/6), paragraff 58 http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=4slQ6QSmlBEDzFEovLCuW3XRinAE8KCB FoqO HNz%2FvuCC%2BTxEKAI18bzE0UtfQhJkxxOSGuoMUxHGypYLjNFkwxnMR6GmqogLJF8BzscMe9zpGfTXBkZ4pEaigi44xqiL [cyrchwyd 13/11/17].

**148.** Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl gydag Anableddau, 2017, *Committee on the Rights of Persons with Disabilities, List of issues in relation to the initial report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland* (CRPD/C/GBR/Q/1), http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhspCUnZhK1jU66fLQJyHIkqNcV0%2bbbuLXeQ%2fdBVXpGv7ordThA%2fcAhrT1NTqH2Zn%2f35xqULqacJsNBSBmE8qWT9qRXZj9cTaa1cYf4R%2frDnjJ [cyrchwyd 13/11/17].

## Cyngor y Pwyllgor Ewropeaidd ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbi Annynol neu Ddiraddiol (CPT)

Gwnaeth y CPT ei wythfed ymweliad cyfnodol â'r DU o 30 Mawrth hyd 12 Ebrill 2016. Aeth cynrychiolwyr y CPT i ymweld â charchardai, dalfeydd yr heddlu, sefydliadau cadw mewnfudwyr a sefydliadau iechyd meddwl diogel yn Lloegr. Dyma oedd y tro cyntaf i'r CPT ymweld â sefydliadau iechyd meddwl yn Lloegr. Cyfarfu'r Pwyllgor â'r llywodraeth, aelodau'r NPM a rhanddeiliaid eraill yn ystod eu hymweliad. Darparodd cydlyniad NPM y DU gyngor a chysylltiadau i'r ysgrifenyddiaeth CPT cyn yr ymweliad. Cyhoeddwyd adroddiad y CPT yn fuan ym mis Ebrill 2017 a bydd ei ganfyddiadau'n derbyn ystyriaeth yn nawfed adroddiad blynyddol yr NPM.

Gwnaeth y CPT hefyd ei ymweliad cyntaf erioed ag Ardal Sail Sofran y DU yng Nghyprus ym mis Chwefror 2017, sy'n un o Diriogaethau Tramor y DU. Aeth y cynrychiolwyr ati i asesu amodau cadw a thriniaeth y bobl oedd yn cael eu dal yng Ngharchar Dhekelia, mewn gorsafoedd heddlu ac yng Nghyfleuster Carchar Gwasanaeth y Lluoedd Arfog. Aethent ati hefyd i asesu sefyllfa'r ymfudwyr sy'n cael eu dal o fewn yr SBA.

## Arsyllfa'r NPM

Ym mis Gorffennaf 2016, clywodd yr NPM am gynlluniau gan grŵp o arbenigwyr atal artaith ac academyddion Ffrengig i sefydlu 'arsyllfa annibynnol o NPMs'. Yn ei amcanion cychwynnol roedd yr arsyllfa wedi dweud y byddai'n cyfrannu at ddatblygu swyddogaeth ataliol [o NPMs] drwy ddarparu asesiad annibynnol, cyson ac adeiladol o'u heffeithiolrwydd. Yn union fel y dylai asesiad annibynnol gan NPMs o fannau cadw fod yn anogaeth i wella mesurau atal artaith, felly hefyd y dylai asesiad annibynnol ac adeiladol o'r NPMs eu hunain eu hannog i ddatblygu eu heffeithiolrwydd eu hunain.' Cafodd Arsyllfa'r NPM ei sefydlu wedi hynny fel corff anllywodraethol yn Ffrainc.

Bu aelodau NPM y DU yn trafod y cynlluniau yn ystod y flwyddyn, gan ddod i'r casgliad bod ganddynt rai pryderon ynglŷn â'r cynigion a wnaeth yr Arsyllfa NPM. Mae aelodau'r NPM yn croesawu'r craffu cenedlaethol a rhyngwladol a dderbyniant ac maent yn awyddus i gryfhau'r NPM drwy dderbyn adborth; fodd bynnag, nid yw'n glir o'r cynigion cychwynnol pa graffu ac adborth ychwanegol y byddai'r Arsyllfa'n ei ddarparu i aelodau y tu hwnt i hwnnw a dderbynnir yn barod. Roedd rhai aelodau'n bryderus y byddai eu strwythurau cyfreithiol eu hunain yn ei gwneud hi'n amhosibl iddynt eu hagor eu hunain i graffu gan Arsyllfa'r NPM oherwydd ei statws fel corff anllywodraethol Ffrengig. Roedd NPM y DU yn teimlo'r un siom a fynegwyd gan rai o'r NPMs Ewropeaidd eraill nad oeddent wedi bod yn rhan o ddatblygiad y cynlluniau, ac na ofynnwyd eu barn. Aeth Cadeirydd yr NPM i gyfarfod ymgynghorol a drefnwyd gan yr Arsyllfa ym mis Chwefror 2017 a darparodd awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai rôl yr Arsyllfa gael ei wneud yn fwy defnyddiol i NPMs fel un y DU. Hyd yn hyn, nid yw NPM y DU wedi ymrwymo i wahodd na mynd i berthynas ffurfiol gydag Arsyllfa'r NPM.

## Cydweithrediad

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, bu'r NPM a'i aelodau'n cydweithio'n brysur gydag ystod o actorion rhyngwladol, yn cynnwys yr arbenigwr mewn atal artaith yn y corff anllywodraethol, arolygiaethau a chyrff monitro o wledydd eraill, ac academyddion.

Parhaodd yr NPM i fwynhau perthynas adeiladol gyda'r Gymdeithas Atal Artaith (APT), sydd wedi darparu cyngor defnyddiol i'r NPM ar nifer o bynciau. Yn ei dro, mae NPM y DU wedi rhannu ei arbenigedd gyda'r APT drwy nifer o brosiectau a digwyddiadau. Cafodd NPM y DU sylw yn *Putting prevention into practice* yr APT a gyhoeddwyd i nodi 10 mlynedd ers iddo ddod i rym yn 2006.[149]

Aeth MWCS i Symposiwm Jean-Jacques Gautier yr APT ar fonitro sefydliadau seiciatrig yng Ngenefa ym mis Medi 2016. Roedd cyfranogaeth MWCS yn cynnwys cyflwyniad gan swyddog ymgysylltu MWCS yn trafod ei brofiad personol o waharddiadau pan gafodd ei gadw mewn ysbyty.[150] Ym mis Medi 2016, siaradodd y cydlynydd NPM yn lansiad cyhoeddiad newydd APT *Does Torture Prevention Work?*.[151]

Ym mis Hydref 2016, aeth y Cydlynydd NPM i gyfarfod bord gron undydd gydag NPMs eraill a alwyd gan y Fenter Cyfiawnder Sefydliadau Cymdeithas Agored a Phrifysgol Bryste i drafod goblygiadau'r mesurau gwrth-derfysgaeth ar fandad NPMs ac ar fandad yr SPT.

Roedd hi'n braf gan NPM y DU gael y cyfle i gwrdd ag NPMs eraill a rhannu profiadau â hwy yn y Gyfundrefn er Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE)/Swyddfa Sefydliadau Democrataidd a Hawliau Dynol (ODHIR) a 'Chyfarfod blynyddol NPMs o'r rhanbarth OSCE' yr APT ym mis Hydref 2016.

Parhaodd aelodau'r NPMs hefyd i gyfnewid eu profiadau gyda chyrff o ardaloedd eraill y byd oedd â didddordeb mewn gweithredu OPCAT a monitro carchariad.

- Croesawodd CQC gynrychiolaeth o Japan o'r Adran Adsefydliad Seiciatrig, Sefydliad Cenedlaethol Iechyd Meddwl, oedd yn gwneud gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y llywodraeth ar bolisi iechyd meddwl Japan. Ystyriwyd modelau o fonitro (a modelau o drefniadau diogelu ail farn) gan y cynrychiolwyr yn eu hadroddiad i lywodraeth Japan. Yn ogystal, rhyddhawyd swyddogion y CQC i weithio gyda Chyngor Ewrop yn 2016-17 ar ymgynghoriad am ddatblygu proses sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd y carchar a gwasanaethau iechyd meddwl yng Ngweriniaeth Georgia. Roedd hyn yn cynnwys cyfranogaeth mewn dau ddigwyddiad ymgynghori yn Georgia a chroesawodd CQC y cynrychiolwyr o Georgia pan ddaethant hwy yn ôl. Y nod yw adeiladu model wedi'i gryfhau o'r gwaith monitro carchariad seiciatrig yn Georgia.

**149.** Y Gymdeithas Atal Artaith, 2016, *Putting prevention into practice, 10 years on: the Optional Protocol to the UN Convention Against Torture*, http://apt.ch/en/resources/putting-prevention-into-practice-opcat-10-anniversary-booklet-2016/?cat=60 [cyrchwyd 13/11/17].

**150.** Gwelwch yr adroddiad deilliannau o'r symposiwm yma: http://apt.ch/en/2016-monitoring-of-psychiatric-institutions/ [cyrchwyd 13/11/17].

**151.** Mae'r cyhoeddiad yn ganlyniad i bedair blynedd o waith ymchwil annibynnol gan Dr Richard Carver, Prifysgol Oxford Brookes, a Dr Lisa Handley, UDA. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y gwaith yma ar wefan y Gymdeithas Atal Artaith, http://www.apt.ch/en/resources/yes-torture-prevention-works-insights-from-a-global-research-study-on-30-years-of-torture-prevention/?cat=59 [cyrchwyd 13/11/17].

- Croesawodd CJINI gynrychiolwyr o Warchodlu Mewnol Lebanon ym mis Mawrth 2017, pan drafodwyd proses arolygu CJINI, yn ogystal â'i rôl yn yr NPM. Roedd hyn yn dilyn ymlaen o ymweliad y Brif Arolygiaeth o Lebanon ym mis Ionawr 2016.
- Mae AGIC a'r Arolygiaeth Gofal yn parhau i fod yn aelodau o'r Bartneriaeth Ewropeaidd i Sefydliadau Goruchwylio yn y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (EPO). Mae'r grŵp yma'n ystyried materion allweddol megis ataliaeth.
- Cyfarfu IMB ac Arolygiaeth Carchardai EM â chynrychiolwyr o Arolygiaeth Farnwrol De Affrica ar gyfer Gwasanaethau Cywirol i drafod yr heriau unigryw wrth reoli methodoleg arolygon carchardai a monitoriaid lleyg. Yn dilyn hynny bu Arolygiaeth Carchardai EM yn cymryd rhan mewn gweithdai gydag arolygwyr ac awdurdodau carchardai yn Cape Town.
- Croesawodd Arolygiaeth Carchardai EM gynrychiolaeth o staff carchardai o Kenya oedd yn cymryd rhan mewn secondiad yn y DU a drefnwyd gan Brosiect Carchardai Affrica.
- Rhoddodd HMIPS friff i gynrychiolaeth o bersonél carchardai a phrawf uwch o Gyngor Ewrop ac aelodau seneddol o'r Ukrain, yn trafod opsiynau amgen i garchariad, rhyddhau'n gynnar o'r carchar ac atal artaith a thriniaeth wael.
- Rhannodd y cydlynydd NPM brofiad yr NPMs cyrff niferus gydag awdurdodau oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio NPMs newydd yn Awstralia ac Indonesia.

## Hunanasesiad yr NPMs

Bob blwyddyn, mae aelodau'r NPM yn gwneud hunanasesiad gan ddefnyddio methodoleg sydd wedi'i seilio ar 'gyfrwng hunanasesu dadansoddol i NPMs' yr SPT. Mae'r cyfrwng yma'n gadael i NPMs archwilio pa mor effeithiol ac effeithlon ydynt.[152] Dyma'r bedwaredd flwyddyn y gweithredwyd yr hunanasesiad. Mae 17 o'r 21 o aelodau'r NPM wedi cwblhau'r hunanasesiad. Bu nifer o aelodau'r NPM yn adolygu ymatebion eu cymheiriaid er mwyn rhannu dysgu a derbyn adolygiad allanol adeiladol.


### Y canfyddiadau cyffredinol

Soniodd yr aelodau am gydymffurfiad llawn gydag 86.5% o'r cwestiynau hunanasesu, sy'n gynnydd bychan ar y cydymffurfiad o 86% a adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol.[153] Mae hwn yn parhau'r cynnydd mewn cydymffurfiad o flynyddoedd blaenorol, o 79.5% o gydymffurfiad llawn yn 2013-14 ac 82.8% o gydymffurfiad llawn yn 2014-15. Roedd diffyg cydymffurfiad yr adroddwyd amdano wedi gostwng o 1.8% yn 2015-16 i 1.6% eleni.

Dadansoddwyd yr atebion hunanasesu yn unol â thri pŵer sylfaenol yr NPM sydd wedi eu disgrifio yn Erthygl 19 OPCAT, sef: (a) archwilio triniaeth y rheiny sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid; (b) gwneud argymhellion gyda'r nod o wella eu triniaeth a'u hamodau; a (c) cyflwyno sylwadau am y ddeddfwriaeth gyfredol a'r ddeddfwriaeth ddrafft. Mae Tabl 4 yn dangos cydymffurfiad aelodau'r NPM gyda phob un o'r pwerau yma.

152. Gellir gweld holiadur hunanasesu NPM y DU yn Atodiad 8 y Pumed Adroddiad Blynyddol, sydd ar gael ar: https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2015/05/NPM-5th-Annual-Report-2013-14.pdf [cyrchwyd 21/08/17]. Mae'r fethodoleg hunanasesu wedi ei hysgrifennu'n llawn ac mae hon ar gael ar: https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2015/08/UK-NPM-self-assessment-write-up.pdf [cyrchwyd 21/08/17].
153. Mae'r canrannau sydd wedi'u nodi yn yr adran hon wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r ymatebion a ddarparwyd gan yr 17 aelod a gwblhaodd yr hunanasesiad (yn hytrach nag ar sail y 21 o aelodau cyfan).

Tabl 4: Cydymffurfiad ag Erthygl 19 2017




Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, gwelodd aelodau'r NPM y lefel uchaf eto o gydymffurfiad â'r pwerau i wneud argymhellion. Mae aelodau wedi adrodd am gynyddiadau cyson yn y pŵer i archwilio'r driniaeth a roddir i'r rheiny sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid, i fyny o 80.84% o gydymffurfiad yn 2015-16, 76.1% o gydymffurfiad yn 2014-15 a 73.77% o gydymffurfiad yn 2013-14.

## Canfyddiadau penodol

- Adroddodd yr aelodau i gyd eu bod yn cydymffurfio'n llawn ar draws nifer o gwestiynau, gan gynnwys gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid, ac atal artaith a thriniaeth wael (C 1.2), a bod â mecanwaith ar gyfer camau gweithredu ar frys (C 1.45). Parhaodd yr aelodau i sôn am gydymffurfiad llawn â'r gofyniad i sicrhau bod unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gânt yn ystod eu gwaith yn cael ei diogelu (C 1.56).
- Soniwyd am gynnydd am y drydedd flwyddyn yn olynol ym maes cydbwysedd rhwng y rhywiau a chynrychioli grwpiau ethnig a lleiafrifoedd mewn timau ymweld (C 1.17). Fodd bynnag, dim ond cydymffurfio'n rhannol o hyd y mae 11 o aelodau'r NPM yn y maes yma.
- Parhaodd yr aelodau i nodi'r lefelau isaf o gydymffurfiad ar gyfer cwestiynau sy'n ymwneud â sancsiynau, gan gynnwys a ydynt wedi datblygu strategaeth ar gyfer atal dialedd neu fygythiadau yn erbyn pobl a gyfwelwyd yn ystod ymweliadau a phobl sy'n darparu gwybodaeth yn ystod ymweliadau (C 1.36); gweithredu ar wybodaeth sy'n codi pryderon am y posibilrwydd o ddialedd gan bobl eraill (C 1.40); a cheisio sicrhau bod ymchwiliad troseddol neu ddisgyblu'n cael ei gychwyn mewn achosion honedig o ddial (C 1.42).
- Cwestiynau eraill gyda'r lefelau isaf o gydymffurfiad oedd p'un a oes gan NPM bolisi yn nodi'r mathau o wybodaeth y gellir ei chasglu mewn cyfweliadau grŵp a'r mathau o wybodaeth y dylid ei chasglu mewn cyfweliadau preifat yn unig (C 1.37); a strategaeth sy'n cynnwys cydweithredu â gwaith dilynol mewn achosion o artaith neu gamdriniaeth a ddrwgdybir neu sydd wedi'u dogfennu (C 1.50).
- Y sefydliadau wedi eu seilio yng Ngogledd Iwerddon oedd y rhai mwyaf positif am eu cydymffurfiad, gan nodi 92.7% o gydymffurfiad llawn, o'i gymaru gydag aelodau o Loegr a soniodd am y lefel isaf o gydymffurfiad llawn, sef 79.1%
- Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, soniodd y cyrff lleyg am lefel uwch o gydymffurfiad llawn (89.2%), o'i gymharu gyda chyrff proffesiynol (85.5%).

## Casgliad

Cyflwynir canfyddiadau'r hunanasesiad i aelodau'r NPM bob blwyddyn yn y cyfarfod busnes yn dilyn cyflawni'r dadansoddiad. Yna mae'r aelodau'n trafod y canfyddiadau er mwyn datblygu camau gweithredu i'w cymryd mewn meysydd sydd angen rhagor o gynnydd, ar lefel sefydliadau unigol ac i'r NPM cyfan. Disgwylir i drafodaethau eleni ganolbwyntio ar sancsiynau a gwaith dilynol ar achosion o artaith neu drinaeth wael a ddrwgdybir neu a ddogfennir.

# Adran pedwar

# Edrych ymlaen at 2017–18



Mae aelodau'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) yn cytuno ar gynllun strategol diwygiedig bob blwyddyn. Mae'r NPM wedi cytuno ar yr amcanion a ganlyn ar gyfer ei waith yn 2017-18.

- Gweithio gyda holl aelodau'r NPM i gryfhau diogelwch y rheiny mewn sefydliadau cadw yn y DU.
- Adeiladu NPM sy'n effeithiol o ran darparu holl ofynion Protocol Opsiynol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn erbyn Artaith (OPCAT).
- Sicrhau fod pob aelod o'r NPM yn cyflawni ei gyfrifoldebau ei hun o dan OPCAT.
- Cynyddu gweledledd ac ymwybyddiaeth o atal triniaeth wael mewn sefydliadau cadw, y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbi Creulon, Annynol neu Ddiraddiol, OPCAT a rôl yr NPM mewn ataliaeth.

Mae prosiectau penodol y bydd yr NPM yn eu gwneud yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol.

- Darparu hyfforddiant i aelodau'r NPM ac eraill ar ganllawiau'r NPM am ynysu mewn sefydliadau cadw.
- Gwneud ail ymarfer mapio o garchariad, i ganfod y nifer o bobl sy'n cael eu cadw yn y DU ar amser penodol.
- Parhau gyda phrosiect thematig yr NPM ar y trosglwyddiadau a'r llwybrau rhwng gwahanol fathau o garchariad, sy'n canolbwyntio ar: lwybrau o ddalfa'r heddlu yn codi o faterion iechyd meddwl; trosglwyddiadau rhwng darpariaeth garcharol plant ac oedolion; y llwybrau rhwng lleoliadau iechyd meddwl diogel; llwybrau rhwng carchardai/IRCs a sefydliadau iechyd meddwl.
- Gwneud gwaith i ganfod cwmpas y trydydd adroddiad thematig i gael ei wneud gan yr NPM.
- Cyflwyno adolygiad cyfnodol o'r DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith
- Parhau gyda'r gwaith o gryfhau llywodraethiad yr NPM a chydymffurfiad OPCAT, gan weithio'n agos gyda swyddogion y llywodraeth i gyflawni hyn.

# Adran pump
# Atodiadau



# Atodiad I

## Llythyr gan Gadeirydd yr NPM i Gyfarwyddwr yr Adran Barnwrol, Hawliau a Pholisi Rhyngwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2017

Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU
d/o Arolygiaeth Carchardai EM
Victory House
6ed Llawr
30–34 Kingsway
Llundain
WC2B 6EX
Ffôn: 020 3681 2800
Ffacs: 020 7035 2141
E-bost: louise.finer@hmiprisons.gsi.gov.uk

13 Ionawr 2017

Scott McPherson
Cyfarwyddwr yr Adran Barnwrol, Hawliau a Pholisi Rhyngwladol
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Annwyl Scott,

Yn ein cyfarfod ym mis Awst 2016 buom yn trafod fy argraff gyntaf o'r NPM a'i gadeirydd annibynnol oedd newydd ei benodi. Ar ôl wyth mis yn fy rôl fel Cadeirydd yr NPM rwyf wedi cael cyfle i gwrdd â holl aelodau'r NPM, cysgodi nifer o ymweliadau â, neu arolygon o fannau carcharu gydag aelodau, yn ogystal â chwrdd â nifer o'i randdeiliaid yn y Deyrnas Unedig a chyrff rhyngwladol (yn cynnwys nifer o aelodau neu gyn-aelodau o'r SPT a'r CPT).

O ganlyniad, rwyf wedi gallu adolygu i ba raddau mae strwythur NPM y DU yn cydymffurfio gyda gofynion OPCAT, gan gymryd i ystyriaeth y cyngor a ddarperir gan yr SPT i NPMs.[1] Fel y gwyddoch o'n trafodaeth gyntaf, mae diffyg deddfwriaeth gan NPM y DU yn nodi mandad yr NPM ei hun a mandad ei gyrff cyfansoddiadol, yn destun pryder i ni. Mae hefyd yn achosi pryder i mi nad oes unrhyw warantau statudol o annibyniaeth ar gyfer yr NPM na'i ugain aelod, ac nad oes gan yr NPM gyllideb ar wahân.

Fy argraff gyntaf ar ôl treulio amser gydag aelodau a chwrdd â rhanddeiliaid allanol yw pryder bod gan hyn nifer o oblygiadau go iawn, fel a ganlyn:

1. Mae'n amlwg yn tanseilio cydymffurfiad ffurfiol y DU gydag OPCAT ac arweiniad dilynol yr SPT ac os byddai'r SPT yn ymweld â'r Deyrnas Unedig, byddem yn cael ein beirniadu'n hallt.
2. Mae llywodraeth y DU yn hyrwyddo NPM y DU ar draws y byd, ac eto cwestiynnir ein hygrededd yn gyflym iawn pan fydd Gwladwriaethau eraill yn clywed am ein diffyg deddfwriaeth.
3. Heblaw bod yr NPM yn cael ei ymgorffori yng ngofynion statudol yr aelodau mae'n effeithio ar ddarpariaeth gwirioneddol mandad cyffredinol yr NPM, am fod llawer o swyddogaethau ei aelodau'n llawer ehangach na'u mandad NPM penodol ac efallai na fydd y swyddogaeth arbennig yma'n flaenoriaeth iddynt bob amser. Ar hyn o bryd, gelir mynegi rôl yr NPM yn syml fel nod mewn cynllun sefydliadol y gellir ei newid o flwyddyn i flwyddyn.
4. Dylai'r NPM ei hun fod yn atebol i'r senedd.[2,3] Dylai'r senedd nodi mewn statud beth sy'n ofynnol gan yr NPM, fel ei fod yn gallu dal yr NPM yn atebol am y mandad y mae wedi'i osod yn ogystal â'i berfformiad a chyllid. Mae'r ffaith nad oes deddfwriaeth yn golygu hefyd na all yr NPM gyflwyno ei adroddiad blynyddol yn uniongyrchol yn y Senedd. Mae hefyd yn rhwystro gallu rhanddeiliaid yr NPM i'w dal nhw'n atebol am eu gwaith gyda'r NPM.
5. Mae gan yr NPM gyfrifoldeb i asesu sut mae'r llywodraeth yn cydymffurfio gyda'i oblygiadau hawliau dynol domestig a rhyngwladol mewn perthynas â charchariad. Byddai atebolrwydd seneddol yn rhoi'r annibyniaeth briodol i'r NPM oddi wrth y llywodraeth i gyflawni'r rôl yma'n ddiduedd.
6. Mae'r ffaith nad oes gwarant Seneddol o'r mandad ac annibyniaeth yr NPM a'i aelodau'n gallu cael effaith negyddol, gan ganiatáu i lywodraethau, yn arbennig mewn cyfnodau o lymder, ddylanwadu ar y dull critigol y bydd yn rhaid iddynt ei ddefnyddio ar brydiau. Gallai llywodraeth, mewn theori, benderfynu newid yr NPM a dynodiad yr aelodau heb awdurdod y Senedd.

---

**1.** “Dylai mandad a phwerau'r NPM gael eu disgrifio'n glir mewn testun cyfansoddiadol neu ddeddfwriaethol”, SPT y Cenhedloedd Unedig, *Guidelines on national preventive mechanisms*, 9 Rhagfyr 2010 (CAT/OP/12/5), gwelwch hefyd SPT y Cenhedloedd Unedig, *Analytical self-assessment tool for NPMs*, 6 Chwefror 2012 (CAT/OP/1).

**2.** Erthygl OPCAT 18(4): “Wrth sefydlu mecanweithiau ataliol cenedlaethol, bydd Gwladwriaethau sy'n Barti'n rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r Egwyddorion sy'n ymwneud â statws sefydliadau cenedlaethol i hyrwyddo a diogelu hawliau dynol.” Gwelwch hefyd Swyddfa Comisiynydd Uwch y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Dynol (OHCHR), 'Egwyddorion yn ymwneud â Statws Sefydliadau Cenedlaethol (Egwyddorion Paris)'; 'Egwyddorion Belgrade' OHCHR ar y Berthynas rhwng NHRIs a Seneddau Gwelwch hefyd: http://www.ohchr.org/EN/NewsEvents/Pages/ParliamentsAndNHRIs.aspx

**3.** Ar hyn o bryd mae dau destun deddfwriaethol sy'n cyfeirio at yr NPM ac OPCAT. Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Thân (Yr Alban) 2012 (http://www.legislation.gov.uk/asp/2012/8/contents/enacted) yn cyfeirio'n eglur at yr SPT ac OPCAT (a.93-96). Gorchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Arolygu a Monitro Carchardai) (Yr Alban) 2015 sy'n cyflwyno cyfeiriad at yr SPT ac OPCAT i Ddeddf Carchardai (Yr Alban) 1989 (http://www.legislation.gov.uk/ssi/2015/39/contents/made?article-3-2-c)

7. Mae'r ffaith nad oes cyllideb ar wahân ar gyfer yr NPM, ac yn arbennig ei swyddogaethau cydlynu, yn cyfaddawdu ymreolaeth weithrediadol ac ariannol yr NPM ac yn cyfyngu ar weithrediad ei fusnes. Ni all aelodau'r NPM warantu sefydlogrwydd eu gwaith NPM o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y ffordd ddewisol a ddefnyddir i osod eu cyllidebau. Mae'r drefn anffurfiol bresennol rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Arolygiaeth Carchardai EM, a ddefnyddir i gynnwys swm nominol am gydlyniad NPM yng nghyllideb gyffredinol Arolygiaeth Carchardai EM, yn anaddas ar gyfer NPM cyrff niferus sy'n gofyn cydlyniad cymhleth.

Mae'r pryderon yma wedi dod yn fwy amlwg ac eglur oherwydd adroddiad diweddar yr SPT ar NPM cyrff niferus tebyg yn yr Iseldiroedd.[4] Mae'r adroddiad yma, a gyhoeddwyd ar ôl ymweliad yr SPT â'r Iseldiroedd ym mis Gorffennaf 2015, yn codi nifer o bryderon sy'n uniongyrchol berthnasol i NPM y DU. Rwyf wedi amgáu copi cyflawn o'r adroddiad.

Yn arbennig, mae'r SPT yn nodi'n glir yr angen am osod mandad NPM corff niferus mewn deddfwriaeth:

> *"Er ein bod yn cydnabod bodolaeth darpariaethau cyfreithiol sy'n darparu'r sail sylfaenol i bob sefydliad unigol yn yr NPM, un gwendid amlwg yng ngweithrediad cyfredol yr NPM yw'r ffaith nad oes testun deddfwriaethol ar wahân sy'n rheoleiddio swyddogaethau penodol yr NPM, mandad yr NPM, y berthynas rhwng aelodau'r NPM a chyrff eraill […], a materion eraill a ddylai gael eu rheoleiddio, yn unol â rhan IV yr OPCAT."* (paragraff 24)

Ac,

> *"Er bod fformat sefydliadol yr NPM wedi ei adael i ddisgresiwn y Wladwriaeth sy'n barti, mae'n hanfodol bod y Wladwriaeth sy'n barti'n gweithredu deddfwriaeth yr NPM sy'n gwarantu bod NPM mewn cydymffurfiad llawn ag OPCAT a Chanllawiau'r NPM. Yn wir, mae'r SPT yn ystyried bod mabwysiadu deddf NPM ar wahân yn gam hanfodol i warantu'r cydymffurfiad yma […]."* (paragraff 26)

Yn ogystal, mae'r SPT yn gweld anawsterau i NPM sydd wedi'i greu o arolygiaethau sy'n gwneud swyddogaethau NPM yn rhan o'u cylch gwaith ehangach ac mae'n argymell bod eu swyddogaethau NPM yn cael eu gwahanu ac yn cael eu perfformio'n ymreolaethol (paragraff 38). Yn olaf, mae'r SPT yn ailadrodd ei argymhelliad y dylai'r NPM gael llinell gyllideb ar wahân yng nghyllideb y Wladwriaeth, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ymreolaethol yn ariannol ac yn weithredol (paragraff 27).

Mae'n ymddangos i mi y gallai'r adroddiad yma gan yr SPT fod wedi ei ysgrifennu am NPM y DU: Rwy'n credu bod gan ein system lawer o'r un gwallau yn union. Mae'r NPM yn mwynhau cydweithredu da rhwng y mwyafrif o aelodau'r NPM, ond pan fydd hyn yn gweithio, y rheswm am hynny yw ewyllys da yn hytrach na gofynion ffurfiol neu strwythur atebol. Cyn belled ag y gwn, NPM yr Iseldiroedd a'r Deyrnas Unedig yw'r unig NPMs yn unrhyw le yn y byd sydd heb y ddeddfwriaeth angenrheidiol.

4. Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbi Creulon, Annibynnol neu Ddiraddiol Arall, Ymweliad â'r Iseldiroedd i bwrpas darparu cymorth cynghorol i'r mecanwaith ataliol cenedlaethol: argymhellion ac arsylwadau a gyfeiriwyd at y Wladwriaeth sy'n barti. Adroddiad yr Is-bwyllgor (CAT/OP/NLD/1).

Rwy'n deall bod yr SPT wedi mynegi pryderon am gynlluniau cynnar y DU i ddynodi NPM heb ddeddfwriaeth, ac felly rwy'n credu y gallem gael ein beirniadu'n gryf, go iawn, am beidio bod wedi ymdrin â'r mater yma.

Yng nghyd-destun yr uchod, hoffwn i ni drafod y materion hyn ymhellach yn ein cyfarfod nesaf. Credaf y byddai'n ddefnyddiol i ni ddatblygu "map trywydd" ar gyfer y DU fel yr awgrymodd yr SPT ar gyfer yr Iseldiroedd, i sicrhau y gallwn barhau i fwynhau ein enw da'n rhyngwladol a pharhau'r ymdrechion yr ydym wedi eu gwneud yn barod i gryfhau ein cyfraniad i atal triniaeth wael mewn sefydliadau cadw.

Wrth gwrs, nid oes gennym unrhyw reolaeth dros pryd y gallai SPT ddewis ymweld â'r DU ond byddaf, ar ryw bwynt, angen codi'r materion yma'n uniongyrchol gyda'r SPT a gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith cyn yr archwiliad i adroddiad cyfnodol y DU yn hwyrach eleni.


Mewn perthynas â deddfwriaeth yr NPM, hoffwn gynnig y canlynol:

- Cyfle deddfwriaethol i sefydlu mandad NPM y DU a dylid pennu a mynd ar ôl ei annibynniaeth (efallai yn y Bil Carchardai arfaethedig). Ar yr un pryd, dylem benderfynu a fyddai angen deddfwriaeth neu fecanwaith caniatâd datganoledig ar wahân ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig.
- Dylai hyn gynnwys swyddogaethau craidd yr NPM a dyletswydd ar aelodau'r NPM a enwir i gydweithredu â'i gilydd a gyda'r NPM ei hun i wneud rôl gyffredinol yr NPM (gyda phŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ychwanegu neu dynnu aelodau drwy offeryn statudol);
- Ceisio cyfleoedd i aelodau NPM unigol gynnwys eu cyfrifoldebau o dan OPCAT drwy addasu eu deddfwriaeth yn ystod y Senedd gyfredol; a
- Chynnwys cydnabyddiaeth o rôl Arolygiaeth Carchardai EM o dan OPCAT yn y Bil Carchardai sy'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, sy'n arbennig o bwysig ar gyfer ei hygrededd ei hun o ystyried ei rôl gydlynu ar gyfer yr NPM.

Fel y trafodwyd yn ein cyfarfod diwethaf, rydym yn bwriadu cyhoeddi'r llythyr hwn pan fo'n briodol.

Edrychaf ymlaen at drafod hyn gyda chi cyn hir,

Yn gywir iawn,



John Wadham
Cadeirydd
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU

# Atodiad II

## Geirfa

| | |
|---|---|
| APT | Y Gymdeithas er Atal Artaith |
| CCE | Y Comisiynydd Plant i Loegr |
| CI | Arolygiaeth Gofal |
| CJINI | Arolwg Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon |
| CPT | Y Pwyllgor Atal Artaith (Cyngor Ewrop) |
| CQC | Y Comisiwn Ansawdd Gofal |
| CRC | Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn |
| CSSIW / AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| DoLS | Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid |
| ECHR | Y Llys Ewropeaidd ar Hawliau Dynol |
| FCO | Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad |
| HIW / AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| HMICFRS | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi |
| HMICS | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yr Alban |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi |
| HMIPS | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yr Alban |
| HMP | Carchar Ei Mawrhydi |
| HMPPS | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| ICVA | Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw |
| ICVS | Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw yr Alban |
| IMB | Bwrdd Monitro Annibynnol |
| IMBNI | Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) |
| IRC | Canolfan Symud Mewnfudwyr |
| IRTL | Adolygydd Annibynnol y Ddeddfwriaeth Derfysgaeth |
| JCHR | Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol |
| LO | Arsyllwyr Lleyg |
| MHA | Deddf Iechyd Meddwl 1983 |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| MWCS | Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban |
| NGO | Corff Anllywodraethol |
| NIPBICVS | Y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw |
| NOMS | Y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol |
| NPM | Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol |
| NPS | Sylweddau seicoweithredol newydd |
| OSCE | Y Sefydliad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop |
| Ofsted | Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau |
| OPCAT | Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill |

| | |
|---|---|
| PACE | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 |
| PSI | Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai |
| PPO | Ombwdsmon Carchardai a Phrawf |
| PSO | Gorchymyn y Gwasanaeth Carchardai |
| RQIA | Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd |
| SHRC | Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban |
| SPT | Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbi Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall |
| SCH | Cartrefi diogel i blant |
| STC | Canolfan hyfforddiant diogel |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| YOI | Sefydliad troseddwyr ifanc |

# Atodiad III

## Rhagor o wybodaeth am NPM y DU

Os hoffech ragor o fanylion am NPM y DU, cysylltwch â chydlynydd neu gydlynydd cynorthwyol yr NPM os gwelwch yn dda. I gael rhagor o fanylion am aelod penodol, efallai yr hoffech gysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Louise Finer
Cydlynydd y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

Jade Glenister
Cydlynydd Cynorthwyol y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

Her Majesty's Inspectorate of Prisons
Clive House
5th Floor
70 Petty France
London SW1H 9EX
Ffôn: 020 7340 0500

E-bost: louise.finer@hmiprisons.gsi.gov.uk / jade.glenister@hmiprisons.gsi.gov.uk

Gwefan: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/

Twitter: @uknpm



Mae'r llun a ddefnyddir yn yr adroddiad yma'n un o'r manylion ar *Inside Out*, gwaith celf cyfrwng cymysg gan rywun sy'n cael ei ddal yn Uned Ddiogel Atkinson, sef cartref diogel i blant (Hawlfraint © 2018 The Koestler Trust, cedwir pob hawl). Mae Ymddiriedolaeth Koestler yn elusen gelfyddydau mewn carchardai, sy'n ysbrydoli troseddwyr, cleifion diogel a charcharorion i gymryd rhan yn y celfyddydau, fel eu bod yn cyflawni ac yn gweddnewid eu bywydau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.koestlertrust.org.uk

Cynhyrchwyd gan Design102,
Cyfarwyddiaeth Cyfathrebiadau a Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder

CCS0118737136
978-1-5286-0184-9